Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC23: Gweledigaeth twristiath Llandudno

**Cynllun i'w archwilio**

**gan y cyhoedd**

**Mai 2020**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**



# Astudiaeth Twristiaeth Llandudno

## Ansawdd Gwybodaeth

| Paratowyd gan | Gwiriwyd gan | Dilyswyd gan | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|---|
| Alex Heath | Bob Perkins | Bob Perkins | Bob Perkins |

## Hanes Diwygio

| Adolygiad | Dyddiad Adolygu | Manylion | Awdurdodwyd | Enw | Swydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

## Rhestr Ddosbarthu

| # Copïau Caled | Angen PDF | Enw Sefydliad / Cwmni |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Lôn y Gyffordd,
Llandudno
LL31 9XX

## Paratowyd gan:

AECOM Infrastructure & Environment UK Limited
4th Floor, Bridgewater House
Whitworth Street
Manchester M1 6LT
United Kingdom

T: +44 (161) 907 3500
aecom.com

© 2019 AECOM Infrastructure & Environment UK Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Infrastructure & Environment UK Limited ("AECOM") ar gyfer defnydd ein cleient (y "Cleient") yn unig, yn unol ag egwyddorion ymgynghoriaeth a dderbynnir yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a'r cylch gorchwyl a gytunwyd rhwng AECOM a'r Cleient. Nid yw unrhyw wybodaeth a ddarperir gan drydydd parti ac a gyfeirir atynt o hyn ymlaen wedi cael eu gwirio na'u dilysu gan AECOM, oni bai y datgenir hynny yn y ddogfen. Ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu ar y ddogfen hon heb ganiatâd a chytundeb ysgrifenedig gan AECOM.

**Cefnogwyd yr adroddiad hwn gan Reoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru, Ystadau Mostyn, a Chymdeithas Lletygarwch Llandudno gyda mewnbwn ac arbenigedd a gynorthwyodd yr ymchwil a gyflawnwyd.**

**Rydym hefyd yn ddiolchgar i holl fudd-ddeiliaid eraill a gyfrannodd eu hamser a'u gwybodaeth i'r adroddiad.**

## Tabl Cynnwys


1. 1. Crynodeb Gweithredol ........ 8
2. Cyflwyniad ........ 10
3. Y Cyd-destun Lleol ........ 11
4. Patrymau'r Dyfodol ........ 24
5. Rhagolygon Effaith Economaidd ac Ymwelwyr ........ 33
6. Asesiad Cymharu ........ 40
7. Opsiynau yn y Dyfodol ........ 56

Atodiad A Cyd-destun Cenedlaethol a Phatrymau Presennol ........ 67


## Ffigyrau


Figure 1. Locations within a 2.5 hour drive time ........ 13
Figure 2. Overnight Trips to Llandudno 2008-2015 ........ 17
Figure 3. Expenditure on Overnight Visits ........ 18
Figure 4. Inbound Overseas Visitors – Llandudno 2010-2016 ........ 18
Figure 5. Accommodation Used During Trip ........ 19
Figure 6. Visitor Type by Month 2016 – Conwy Borough ........ 20
Figure 7. Llandudno Visitor Age Profile 2017 ........ 21
Figure 8. Breakdown of domestic tourists by Region ........ 21
Figure 9. Main tourism attractors in Llandudno ........ 22
Figure 10. Economic Impact in Llandudno ........ 22
Figure 11. Tourism Employment in Llandudno ........ 23
Figure 12. Forecast Day Visitors in Llandudno ........ 33
Figure 13. Forecast Overnight Trips to Llandudno ........ 34
Figure 14. Forecast Change in Visitor Profile in Llandudno ........ 35
Figure 15. Forecast Economic Impact of Tourism in Llandudno ........ 36
Figure 16. Forecast Tourism Jobs in Llandudno ........ 37
Figure 17. Llandudno Forecast Economic Impact – Alternative Age Profile ........ 38
Figure 18. Llandudno Forecast Economic Impact – Alternative Life Stage Profile ........ 39
Figure 19. Llandudno vs. Brighton Comparison ........ 41
Figure 20. Llandudno vs. Harrogate Comparison ........ 45
Figure 21. Llandudno vs. Margate comparison ........ 49
Figure 22. Llandudno vs. Scarborough Comparison ........ 52
Figure 23. Kite Sports Zones on Brancaster Beach ........ 60
Figure 24. Trend in Overnight Trips and Expenditure in Wales ........ 67
Figure 25. Trend in Day Visits and Expenditure in Wales ........ 68
Figure 26. Domestic Tourism – Average expenditure per trip by age category ........ 74


## Tablau


Table 1. Summary of potential ideas ........ **Error! Bookmark not defined.**
Table 2. Survey of number of destinations visited during trip ........ 15
Table 3. Tourism day visits and expenditure in Llandudno and Conwy Borough ........ 16
Table 4. Nights per Trip ........ 17
Table 5. Accommodation Occupancy in North Wales ........ 19
Table 6. Day Visitor Growth – High and Low Growth Scenarios ........ 33
Table 7. Overnight Trips Growth – High and Low Growth Scenarios ........ 34
Table 8. Change in Visitor Profile 2018 to 2045 ........ 35
Table 9. Forecast Expenditure Profile for Day Visitors by Age Bracket ........ 35
Table 10. Forecast Expenditure Profile for Overnight Trips by Age Bracket ........ 36
Table 11. Base vs. alternative demographic profile ........ 37

Table 12. Base vs. alternative life stage profile ..... 38
Table 13. Summary of strengths and weaknesses of Llandudno relative to comparators ..... 40
Table 14. Summary of potential ideas ..... 56
Table 15. Age distribution of the UK population, 1976 to 2046 (projected) ..... 69
Table 16. Domestic Overnight Trips by Life Cycle ..... 71

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae Llandudno wedi cael ei sefydlu fel un o gyrchfannau glan y môr pennaf Cymru a'r DU. Mae ei hygyrchedd yn galluogi ymwelwyr i fwynhau'r cynnig glan y môr traddodiadol a'r ganolfan manwerthu mawr, darparwyr llety a sefydliadau bwyd a diod oll o fewn 5 munud wrth gerdded o'i gilydd.

Mae'r sector twristiaeth yn Llandudno wedi dangos perfformiad cryf dros y blynyddoedd diwethaf:

- Yn seiliedig ar fynegiannau o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr a data STEAM, credir fod Llandudno wedi derbyn 2.84 miliwn o ymwelwyr dydd yn 2017[1].
- Mae'r cyfanswm o deithiau dros nos i Landudno wedi dangos cynnydd o 19.2% rhwng 2008 a 2015. Y ffigwr blynyddol ar gyfer 2018 oedd 355,000 o deithiau dros nos, gan godi i 423,000 yn 2015.
- Derbyniodd Llandudno 26,000 o ymwelwyr o dramor yn ystod 2016. Roedd y mwyafrif o ymwelwyr tramor o Iwerddon, er bod Llandudno hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu ymwelwyr o Ffrainc a'r Almaen.
- Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno oedd £384 miliwn yn 2017, fyny o £296m yn 2012.
- Mae cyflogaeth ym maes twristiaeth hefyd wedi bod ar drywydd cadarnhaol yn gyffredinol, gan godi o 4,606 yn 2012 i 5,328 yn 2017, gan gynnwys cyflogaeth anuniongyrchol sydd wedi'i greu gan dwristiaeth.

Fodd bynnag, heddiw mae'r ardal yn wynebu heriau gwahanol iawn i'r gorffennol, gyda thwristiaeth yn dod yn farchnad gystadleuol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Felly, mae'n hanfodol bod Llandudno yn parhau i addasu ac arloesi er mwyn parhau i fod yn un o brif leoliadau twristiaeth ar gyfer pobl yn y DU a thu hwnt.

Golyga hyn bod angen canfod y tueddiadau sy'n codi sy'n wynebu'r sector twristiaeth a bod yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer newidiadau, megis y canolbwynt cynyddol ar gasglu "profiadau" ar draws grwpiau demograffig. Mae heriau eraill yn cynnwys gwneud y mwyaf o rôl hanfodol technoleg o ran dewis cyrchfan ac yng nghynnyrch twristiaeth, lefelau is o ffyddlondeb ymwelwyr, demograffig, newidiadau cymdeithasol ac economaidd a ffactorau ffordd o fyw, megis lefelau cynyddol o weithio'n hyblyg.

Yng ngoleuni'r lefelau cynyddol o gystadleuaeth rhwng cyrchfannau, mae'n hanfodol bod Llandudno yn parhau i fuddsoddi yn ei gynnyrch twristiaeth. Trwy ddadansoddi'r farchnad dwristiaeth ehangach a chyrchfannau eraill, mae'r adroddiad hwn wedi amlygu nifer o feysydd lle mae angen cymryd camau gweithredu:

### Tabl 1. Crynodeb o syniadau posibl

| Thema | |
|---|---|
| Llety | Sicrhau cadwyni gwesty nodweddiadol sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth annibynnol bresennol<br>Ehangu'r ystod o fathau o lety e.e. dewisiadau hunan-ddarpar megis rhandai/rhanwestai<br>Gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth bresennol |
| Atyniadau | **Traeth y Gogledd**<br>Atyniad tu mewn nodweddiadol e.e. oriel/amgueddfa<br>Ehangu'r ystod o atyniadau e.e. canolfan weithgareddau tu mewn; ystafelloedd dianc; canolfan bywyd môr; parc dŵr/thema; golff bychan tu mewn; profiad efelychu<br>Amwynderau Traeth y Gogledd a chysylltedd rhwng y traeth a'r dref |

[1] Mae data STEAM ond ar gael ar lefel Sir Conwy. Mae'r nifer o ymwelwyr dydd i Landudno yn seiliedig ar y gyfran o deithiau dros nos ymwelwyr yn Llandudno sy'n berthnasol i Fwrdeistref Conwy fel y cofnodwyd yn Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, a gafodd eu cynnwys yn ffigyrau ymwelwyr dydd STEAM. Mae ffigyrau gwariant yn gyfrifiadau sy'n seiliedig ar gyfran yr effaith economaidd gan ymwelwyr dydd ar gyfer Bwrdeistref Conwy yn nata STEAM.

| | |
|---|---|
| | **Penmorfa**<br><br>Parthau traeth ar gyfer gwahanol ddefnyddiau<br><br>Canolfan weithgareddau ar gyfer chwaraeon dŵr, llogi beiciau a llogi segway,<br><br>Amwynderau megis caffis/bar a chyfleusterau cawod a newid. |
| | **Y Gogarth**<br><br>Buddsoddi mewn, a moderneiddio atyniadau presennol<br><br>Cysylltedd gwell rhwng atyniadau<br><br>Llwybrau cerdded; platfform gwylio; llwybrau beicio mynydd; rhaffau uchel; atyniad Center Parcs / Forest Holidays |
| **Hybu economi gyda'r nos** | Menter gyda'r nos er mwyn cydlynu agoriadau hwyr ar draws y dref |
| **Manwerthu** | Denu siopau annibynnol o safon uchel e.e. siopau dros dro a chyfleoedd marchnad<br><br>Cymorth ar gyfer siopau annibynnol e.e. punt Llandudno, gostyngiadau ar gyfraddau wedi'u targedu, prydlesi mwy hyblyg ac ad-drefnu gofod siopau |
| **Bwyd a Diod** | Marchnad fwyd rheolaidd dan do<br><br>Datblygu Neuadd Farchnad |
| **Amwynderau a Strydlun** | Cynnal a chadw strydoedd/blaen prif siopau e.e. ffurfio grŵp manwerthu/AGB/ strategaeth strydlun<br><br>Adnewyddu llochesi'r promenâd |
| **Digwyddiadau a Gwyliau** | Digwyddiad mawr dros y gaeaf e.e. Fête des Lumières<br><br>Digwyddiadau bwyd; sinema awyr agored a theatr a mwy o gymorth ar gyfer digwyddiadau presennol megis LLAWN<br><br>Isadeiledd i gefnogi digwyddiadau e.e. Fferm Bodafon |
| **Celfyddydau a Diwylliant** | Gosodiadau cyhoeddus/dros dro<br><br>Parhau i gefnogi llawr gwlad e.e. dyrannu adeiladau gwag fel gofod stiwdio gan Ystadau Mostyn |
| **Amrywiol** | Strategaeth Ddigidol<br><br>Astudiaeth Cludiant<br><br>Uwchgynllun i gefnogi twf a buddion ehangach |

Pe bydd Llandudno yn parhau i addasu i'r amodau newidiol o fewn y farchnad dwristiaeth ac yn buddsoddi yn unol â hynny, mae'r senario twf uchel o dan y dadansoddiad hwn yn awgrymu:

- Bod y nifer o ymwelwyr dydd yn debygol o gynyddu o 2.88 miliwn yn 2018 i 4.08 miliwn yn 2045.
- Bod nifer o deithiau dros nos i Landudno yn debygol o godi o 440,289 yn 2018 i 561,339 erbyn 2045.
- Mae disgwyl i effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno godi o £388.8 miliwn yn 2018 i £513.6 miliwn yn 2045.

Golyga hyn bod angen parhau gyda'r ymdrech unol a chydlynol ar draws Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, cyrff diwydiant, y sector breifat a thrigolion sydd wedi ysgogi twf a chefnogi datblygiad er mwyn sefydlu Llandudno fel un o brif gyrchfannau'r DU a chyrchfan glan y môr rhyngwladol.

# Cyflwyniad

Nod Astudiaeth Twristiaeth Llandudno oedd llunio adroddiad cynhwysfawr a dadansoddiad o sut mae twristiaeth yn effeithio ar Landudno ac i ddarparu data allweddol i helpu i ddatblygu taflwybr o nifer yr ymwelwyr a thueddiadau dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal â hynny, mae'r adroddiad hwn yn galluogi holl fudd-ddeiliaid yn y dref i ddeall dynameg allweddol economi twristiaeth y dref a darparu ystod o ddewisiadau posibl i helpu ddatblygu'r cynnig twristiaeth yn Llandudno yn unol â dyheadau budd-ddeiliaid allweddol, trigolion, ymwelwyr a'r Cyngor.

Mae Llandudno yn dref glan y môr yng Nghonwy, Gogledd Cymru. Dynododd data'r cyfrifiad diwethaf bod y boblogaeth yn 20,701. Mae gan Landudno hanes fel cyrchfan twristiaeth poblogaidd ac mae hyn yn parhau heddiw. Mae'r dref yn gartref i nifer o atyniadau poblogaidd ac mae ystod o ddewisiadau llety. Bydd Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yn nodi cryfderau'r dref ac yn asesu tueddiadau twristiaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a fydd yn effeithio ar yr ardal. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor a budd-ddeiliaid allweddol i adeiladu ar lwyddiant Llandudno a defnyddio ei dreftadaeth, atyniadau ac asedau naturiol i hyrwyddo Llandudno fel cyrchfan i dwristiaid.

Mae Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yn cynnwys nifer o elfennau, gan gynnwys:

- Asesiad gwaelodlin a chyd-destunol - cyd-destun strategol twristiaeth a pherfformiad ar lefel y DU a Chymru. Mae hyn yn cefnogi'r Astudiaeth Twristiaeth drwy amlygu'r tueddiadau allweddol a'r cyfleoedd y gall Llandudno fanteisio arnynt er mwyn cynyddu enillion economaidd o'r buddsoddiad i dwristiaeth.
- Effaith Economaidd ac Ymwelwyr Presennol - Er mwyn archwilio cyfeiriad ar gyfer economi ymwelwyr yn y dyfodol, mae'n bwysig i ni ddeall sefyllfa bresennol a hanesyddol mewn perthynas â phroffil a gwariant ymwelwyr i Landudno, marchnadoedd allweddol a thueddiadau hanesyddol. Mae hyn yn rhoi sylfaen i weddill yr adroddiad.
- Gwaith cymharu - Mae twristiaeth yn sector cystadleuol gyda chyrchfannau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn ceisio datblygu cynnyrch a chynigion newydd i ddenu mwy o ymwelwyr, cynyddu hyd eu harhosiad a gwariant cyffredinol. Rydym yn cymharu a chyferbynnu proffil cyffredinol Llandudno gyda chyrchfannau eraill sy'n darparu profiadau glan y môr. Mae ystod o gyrchfannau wedi cael eu dewis er mwyn darparu cipolwg i ystod o brofiadau a gwersi gwahanol y gall Llandudno ddysgu ohonynt o nifer o wahanol gymaryddion'.
- Ymgynghoriad – Roedd ymgynghoriad â budd-ddeiliaid yn agwedd allweddol o ddatblygiad Astudiaeth Twristiaeth Llandudno. Roedd yn hanfodol er mwyn cael barn partneriaid prosiect, Awdurdod Lleol, busnesau twristiaeth, perchnogion tir perthnasol a sefydliadau ymwelwyr er mwyn sicrhau bod Astudiaeth priodol wedi cael ei ddatblygu sy'n bodloni anghenion bob parti ac yn adlewyrchu eu dehongliadau o'r heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Llandudno.
- Dewisiadau a llwybrau yn y dyfodol – Mae rhagolygon ar gyfer perfformiad twristiaeth Llandudno dros y 25 mlynedd nesaf wedi cael eu sefydlu ac mae'r dewisiadau datblygu gwahanol ar gyfer buddsoddi ar draws y dref yn cael eu hasesu, gan gadw canolbwynt allweddol ar ganol y dref, traeth y Gogledd a Phenmorfa a'r Gogarth.

Trwy'r amrywiaeth o dasgau gellir cynnal asesiad i ddeall sefyllfa bresennol Llandudno, yn ogystal â'r tueddiadau tebygol mewn twristiaeth yn y blynyddoedd i ddod a llwyddiannau a'r heriau mae'r lleoliadau cymhariaeth wedi eu profi. Bydd y dadansoddiad hwn yn ystyried cyflwyno ystod o argymhellion i wella'r cynnig twristiaeth a diogelu safle hirdymor Llandudno fel un o prif gyrchfannau y DU a chyrchfan glan y môr rhyngwladol.

# 3. Y Cyd-destun Lleol

**Cyflwyniad**

Mae Llandudno yn dref glan y môr traddodiadol wedi'i leoli yng Nghonwy, Gogledd Cymru gyda phoblogaeth o 20,701. Mae gan y dref hanes fel cyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Y teulu Mostyn oedd y prif berchnogion tir a'r prif benseiri tu ôl i ddatblygiad y cyrchfan yn y 1800au, ac mae llawer o dystiolaeth o hyn yn yr adeiladau deniadol Fictoraidd ac Edwardaidd sydd ar draws y dref, yn arbennig ar hyd y promenâd. Mae'r teulu Mostyn, trwy Ystadau Mostyn, wedi cadw ffocws ar ddatblygiad sympathetig y dref. Mae'n parhau i reoli portffolio masnachol mawr ar draws Llandudno ac yn cefnogi mewnfuddsoddiad yn y dref.

Mae Llandudno yn elwa o hygyrchedd, sy'n galluogi ymwelwyr i fwynhau'r cynnig glan y môr traddodiadol a'r ganolfan manwerthu fawr, darparwyr llety a sefydliadau bwyd a diod oll o fewn 5 munud wrth gerdded o'i gilydd. Mae ei boblogrwydd fel cyrchfan i dwristiaid yn parhau hyd heddiw. Fodd bynnag, heddiw mae'r ardal yn wynebu heriau gwahanol iawn i'r gorffennol gyda thwristiaeth yn dod yn farchnad mwy byd-eang a nifer o dueddiadau allweddol yn parhau i effeithio ar Landudno a'r diwydiant twristiaeth ehangach, gyda goblygiadau ar niferoedd yr ymwelwyr, agweddau a gwariant.

- Mae newidiadau demograffeg, cymdeithasol a ffordd o fyw wedi arwain at nifer gynyddol o deithiau pobl sengl, grwpiau o ffrindiau, teuluoedd un rhiant a theithiau rhyng-genedlaethol, ynghyd a theithiau grwpiau hŷn sy'n fwy tebygol o fod yn heini a symudol am fwy o amser nac yn y gorffennol. O ganlyniad i hyn, mae cyrchfannau wedi gorfod addasu er mwyn cynnig ystod eang o brofiadau er mwyn bodloni'r grwpiau hyn.
- Mae tuedd cynyddol, gydag esgyniad y milflwyddwyr a chenedlaethau hŷn sy'n fwy actif, i gael mwy o brofiadau a theithio yn seiliedig ar weithgareddau, gyda phatrymau gwariant yn adlewyrchu hyn. Mae rhieni hefyd yn rhoi mwy o werth ar adloniant a hamdden gyda'u teuluoedd.
- Mae technoleg yn chwarae rhan gynyddol wrth ddewis cyrchfan, gyda'r cyfryngau cymdeithasol yn gyrru agweddau cwsmeriaid tuag at hamdden, tra bo technoleg yn dod yn fwy cyffredin yng nghynnyrch twristiaeth, yn arbennig o ran atyniadau a llety.
- Er gwaethaf ansicrwydd sydd wedi cael ei achosi gan faterion strwythurol yn yr economi a Brexit, mae pobl Brydeinig sy'n mynd ar eu gwyliau wedi cynyddu cyllidebau ar gyfer teithiau yn y wlad hon oherwydd safon a gwerth cyrchfannau yn y DU.
- Yn y blynyddoedd diwethaf, mae pwyslais cynyddol ar ffordd o fyw mwy egnïol a mwy iach, sy'n cael ei yrru gan bwysau o ran amser ac ymgyrchoedd cenedlaethol effeithiol. O ganlyniad, mae gwyliau sba a lles, yn ogystal â thwristiaeth iechyd ymysg y cenedlaethau hŷn sy'n fwy ymwybodol o'u hiechyd, wedi cynyddu.
- O safbwynt cyrchfan, gall gynnig glan y môr draddodiadol fod yn anodd ei gynnal yn erbyn cystadleuaeth ryngwladol, gan awgrymu fod angen addasu a moderneiddio cyrchfannau glan y môr i ddenu ymwelwyr newydd. Gall weithgareddau a phrofiadau unigryw o chwaraeon i fwyd, olygu y gall gyrchfannau glan y môr gynnig dewis wedi'i arwain gan brofiadau y mae'r ymwelydd domestig ei angen.

Felly, mae'n hanfodol bod yr ardal yn parhau i addasu ac arloesi yn strategol er mwyn parhau i fod yn un o brif leoliadau twristiaeth ar gyfer pobl yn y DU a thu hwnt. Darperir mwy o fanylion o ran y tueddiadau presennol sy'n effeithio ar y sector twristiaeth yn Atodiad A.

### 3.1 Cyd-destun Strategol a Pholisi

Mae twristiaeth yn sector allweddol o fewn economi Cymru ac mae trefi glan y môr fel Llandudno ar reng flaen y sector. Mae gan Gymru nod trosfwaol i dwristiaeth "dyfu mewn ffordd gynaliadwy ac i wneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru." Trwy fabwysiadu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth (2013 - 2020)[2] mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r nod o gynyddu perfformiad y sector twristiaid yn y dyfodol, hybu enillion uwch a darparu'r gwerth uchaf bosibl ar gyfer economi Cymru. Mae Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yn cyd-fynd yn glir gyda'r cyd-destun hwn a bydd yn rhoi Llandudno mewn safle cryf, er mwyn cyrraedd y nodau a rennir a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

[2] Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth (2013 – 2020): https://gov.wales/docs/drah/publications/130613-partnership-for-growth-en.pdf

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) [3] yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yn darparu cyfle i sicrhau bod Llandudno yn gwneud y mwyaf o enillion cymdeithasol ac economaidd o dwristiaeth wrth gynnal uniondeb diwylliannol ac amgylcheddol. Gan fod yr amgylchedd yn ganolog i gynnig twristiaeth Llandudno, yn arbennig ei forlin a'r Gogarth, mae'n hynod o bwysig bod unrhyw ddatblygiad neu strategaeth yn cael ei lunio gyda'r mater o gynnal amgylchedd naturiol o safon uchel fel canolbwynt graidd.

Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy (2017 - 2027) yn pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth i'r Sir ac yn nodi twristiaeth fel canolbwynt ar gyfer twf, gyda 'Twristiaeth Drawsnewidiol' yn creu cyrchfan gydag apêl ryngwladol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'n benodol yr angen ar gyfer cynnig twristiaeth gyda'r nos ac yn ystod y gaeaf, a fydd yn cynyddu ymweliadau i'r ardal ac yn hybu'r economi. Wrth galon y strategaeth hon mae Venue Cymru yn Llandudno, sy'n gweithredu fel atyniad mawr ar gyfer Llandudno. Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLl) (2007-2022) [4] hefyd yn nodi Venue Cymru fel catalydd ar gyfer twf. Mae Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yn eistedd yn dda o fewn yr agenda hwn, drwy ei ffocws ar nodi strategaeth i hybu diwydiant twristiaeth Llandudno drwy ddefnyddio adnoddau ac atyniadau o safon uchel sydd eisoes ar gael, yn ogystal â chanfod cyfleoedd datblygu newydd a buddsoddi er mwyn datblygu apêl y dref ymhellach.

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2015 – 2018) [5] wedi bod yn ei le dros y 3 mlynedd diwethaf gyda'r nod o arwain y diwydiant twristiaeth yn y Sir tuag at welliannau cynaliadwy. Cafodd y cynllun hwn ei greu o dan ymbarél Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020. Mae adroddiad Cyrchfan Conwy yn datgan "bydd ffocws ar westai mwy moethus a brandiau, mwy o gyfleusterau lles, megis sbas, a mwy o westai treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol, nodweddiadol, mwy o atyniadau a gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn, profiadau diwylliannol sy'n fwy arloesol, gwahanol a nodweddiadol". Mae'r meysydd cyfleoedd hyn yn amlwg yn Llandudno a bydd yr Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yn edrych i adeiladu ar dreftadaeth cryf y dref er mwyn ei alluogi i ddatblygu a ffynnu.

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. O ganlyniad i Adroddiad Monitro Blynyddol 2016, cynhaliwyd adolygiad llawn o'r CDLl gyda ffocws ar faterion tai a chyflogaeth. Cafodd hwn ei gyhoeddi yn Ebrill 2018[6] a dyma'r cam cyntaf yn y broses o lunio CDLl newydd a fydd yn cynnwys y cyfnod 2018-2033. Ym Mai 2018 rhyddhawyd cytundeb cyflawni gydag amserlenni ar gyfer y broses gynhyrchu[7]. Mae'r cytundeb yn datgan y bydd y CDLl newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2020. Bydd y CDLl presennol 2007-2022 yn parhau i fod y cynllun datblygu statudol nes i'r broses adolygu gael ei chwblhau, ond mae'n bwysig cael y wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad y CDLl newydd hwn. Bydd y polisïau â hyrwyddir drwy'r ddogfen newydd hon yn effeithio ar ddogfen Astudiaeth Twristiaeth Llandudno, yn arbennig o ran y ffocws ar faterion cyflogaeth a thir cyflogaeth. Trwy gael y wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau y ddogfen hon, bydd hyn yn galluogi Astudiaeth Twristiaeth Llandudno i unioni gyda pholisi lleol a gyda gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a budd-ddeiliaid eraill.

Mae Cymdeithas Lletygarwch Llandudno yn ei bolisi papur Dyfodol ar gyfer Twristiaeth yn Llandudno yn dod â barn Cymdeithas Lletygarwch Llandudno ynghyd mewn ymateb i Strategaeth Datblygu Economaidd CBSC ac yn nodi nifer o argymhellion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o nodau clir, gan gynnwys yr angen i: ddiogelu safle arweiniol Llandudno fel brif gyrchfan yn y DU a chyrchfan glan y môr rhyngwladol; datblygu cynnig twristiaeth drwy gydol y flwyddyn sy'n fywiog ac yn amrywiol; a chreu atyniadau bob tywydd. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd yn glir gyda sail resymegol Astudiaeth Twristiaeth Llandudno i ddarparu dadansoddiad blaengar o'r sector twristiaeth yn Llandudno, drwy edrych ar ragolygon amodau marchnad y dyfodol er mwyn galluogi i'r sector addasu a newid i fodloni gofynion ymwelwyr. Bydd y ddogfen hon hefyd yn amlinellu nifer o ymyraethau posibl er mwyn datblygu cynnig twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, gan unioni ymrwymiad Cymdeithas Lletygarwch Llandudno i gefnogi "uwchraddio cyfleusterau a llety i weddu disgwyliadau a gofynion ymwelwyr".

## 3.2 Cynnig Twristiaeth Llandudno

### Cysylltedd

[3] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru (2015): http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh
[4] Cynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLl)(2007-2022): http://spp.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/629/Conwy_Adopted_LDP_2007__2022_English_.pdf
[5] Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2015 – 2018): http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Destination-Conwy/documents/Destination-Conwy-Management-Plan-2015-2018.pdf
[6] Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022: Adroddiad Adolygu CDLl (Ebrill 2018): https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Replacement-LDP/assets/documents/Review-Report.pdf
[7] Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033: Cytundeb Cyflawni: https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Replacement-LDP/assets/documents/Conwy-Delivery-Agreement-May-2018.pdf

Mae Llandudno wedi ei leoli yng nghanol Gogledd Cymru gyda mynediad gwych i'r rhwydwaith ffordd. Mae'r A470 yn cysylltu Llandudno i'r A55, y prif ffordd sy'n cysylltu Llandudno i'r Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Cymru, gyda mynediad uniongyrchol i'r M53 a M56. Mae Gorsaf Llandudno wedi'i leoli yng nghanol y dref, ac ar linell gangen o Orsaf Rheilffordd Cyffordd Llandudno sy'n cynnig canolfan gludiant gyda chysylltiadau uniongyrchol i Lundain, Manceinion ac Eryri. Mae'n brif ganolbwynt yng Ngogledd Cymru. Mae Llandudno 1 awr ac 20 munud o feysydd awyr Lerpwl a Manceinion, sy'n golygu ei fod yn hygyrch o gyrchfannau rhyngwladol. Mae porth fferi Caergybi 50 munud o Landudno, lle gall draffig ffordd groesi o Iwerddon.

Mae Llandudno yn hygyrch o nifer o anheddau allweddol o fewn 2.5 awr wrth yrru, fel y dangosir yn Ffigwr 4 (isod). Mae'r rhain yn cynnwys: Manceinion, Lerpwl, Stoke-on-Trent, Leeds, Sheffield, Caer a Brimingham. O ystyried y mynediad ffordd hygyrch rhwng Llandudno a Gogledd-Orllewin Lloegr, mae hyn yn darparu sail ymwelwyr mawr gyda chanolbwynt poblogaeth mawr Lerpwl a Manceinion yn darparu marchnad hynod o fuddiol. Mae poblogaeth gysylltiol o 15,331,902 o fewn 2.5 awr wrth yrru o Landudno[8].

**Ffigwr 1. Lleoliadau o fewn 2.5 awr wrth yrru**




### Atyniadau Allweddol

Nod Astudiaeth Twristiaeth Llandudno yw ymestyn a gwella'r cynnig twristiaeth y dref ac adeiladu ar asedau allweddol sydd eisoes yn denu niferoedd mawr o ymwelwyr i Landudno. Mae asedau allweddol Llandudno wedi cael eu nodi fel:

*Traethau* – Mae gan Landudno ddwy brif ardal glan y môr sy'n ganolbwynt i'r dref. Y cyntaf, Traeth y Gogledd yw prif draeth Llandudno (hefyd yn cael ei adnabod fel Traeth Llandudno). Mae'n draeth creigiog gyda phier Fictoraidd hir a phromenâd llydan sydd wedi'i leoli yng nghysgod pentir y Gogarth. Mae Traeth Llandudno ychydig o funudau wrth gerdded o amwynderau'r dref, gan gynnwys siopau, caffis a thoiledau ac mae ystod o atyniadau gan gynnwys: Sioeau Punch a Judy, teithiau pysgota/ ymweld yn seiliedig ar y dŵr a chychod cyflym; ardal chwarae a phwll padlo ar Bromenâd y Dwyrain; a Thrên Tir Llandudno.

Mae Traeth Penmorfa yn draeth tywodlyd, sy'n boblogaidd gyda phobl ar wyliau. Mae'n wynebu Bae Colwyn lle mae llanw isel yn datgelu ardal fawr o dywod, sy'n boblogaidd ar gyfer chwaraeon dŵr megis syrffio barcud. Mae'n gartref i Gaffi Penmorfa, rheilffordd bychan a Pharc Penmorfa. Mae hefyd yn enwog am fachlud anhygoel ac yn caniatáu i gerddwyr gael mynediad at Lwybr Arfordir Cymru ac i bentir y Gogarth sydd gerllaw.

**Cynllun Rheoli Traeth Llandudno**

Mae traethau Llandudno yn rhan allweddol o gynnig twristiaeth y dref. Er mwyn darparu cynllun blaengar ar gyfer traethau Llandudno, mae ystod o ddewisiadau rheoli traethau wedi cael eu datblygu gyda mewnbwn gan Fforwm

[8] https://cy.ons.gov.uk/releases/traveltoworkareaanalysis?:uri=releases/traveltoworkareaanalysis

Arfordir Llandudno i fynd i'r afael â materion allweddol o ran amddiffynfeydd llifogydd a thywod yn cael ei chwythu.

Agwedd allweddol arall yw gwerth amwynder y traethau, a all gael effaith ar sector twristiaeth y dref. Gellir gweld hyn o brofiad Bae Colwyn, a fuddsoddodd i ailgyflenwi'r traeth cyfan fel rhan o welliannau amddiffyniad arfordirol yn 2015. Yn Arolwg Twristiaeth Conwy 2016, dywedodd dros 400 o ymatebwyr mai'r traeth oedd prif agwedd gadarnhaol Bae Colwyn fel cyrchfan a chrybwyllodd 80 ymatebwr arall y promenâd fflat hir. Mae ymwelwyr hefyd wedi dweud bod yr ardal yn dda ar gyfer plant ac yn hoffi ei fod yn amgylchedd diogel. I'r gwrthwyneb, mewn perthynas â Llandudno, dim ond 70 o ymwelwyr a nododd y traethau fel agwedd gadarnhaol, er bod nifer debyg o ymwelwyr wedi cyflawni'r arolwg. Felly, mae'r arolwg yn ategu bod ailgyflenwi'r traeth ym Mae Colwyn wedi cael effaith amwynder cadarnhaol sylweddol ar y dref. Fodd bynnag, mae Llandudno yn elwa o gynnig twristiaeth fwy amrywiol, ac felly disgwylir i ymwelwyr roi ymatebion mwy amrywiol i agweddau ac atyniadau cadarnhaol y dref. Felly, ni fydd ailgyflenwi'r tywod yn Llandudno o reidrwydd yn arwain at effaith amwynder cadarnhaol o'r un maint a welwyd ym Mae Colwyn.

Yn ogystal â hynny, dywedodd 25 o ymatebwyr i Arolwg Twristiaeth Conwy 2016 bod y cerrig ar Draeth y Gogledd a Phenmorfa yn agwedd negyddol o'u profiad, ac yn adlewyrchu agwedd a all atal ymwelwyr rhag ymweld neu ddychwelyd i Landudno. Mae'r dewisiadau rheoli ar gyfer Traeth y Gogledd yn cynnig y posibilrwydd i fynd i'r afael ag effaith amwynder negyddol, megis ailgyflenwi traeth yng Nghornel y Plant neu drwy ailgyflenwad llawn o dywod drwy grwynau cerrig y forwyn. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i ddarparu datrysiad amddiffyniad arfordirol cost effeithiol, hirdymor.

*Venue Cymru* - Wedi'i leoli yng nghanol Promenâd Llandudno, mae Venue Cymru yn darparu theatr broffesiynol, cyfleusterau cynadledda a digwyddiadau o fewn canol tref Llandudno. Mae Venue Cymru yn cynnig mwy na 7,000 metr sgwâr o ofod arddangos a chynadledda ac wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu cynadleddau mawr megis Cynhadledd Llafur Cymru a Chynhadledd Undeb Llafur Cymru. Mae hefyd wedi cynnal ystod o ddigwyddiadau a pherfformiadau gan gynnwys: Taith Pencampwriaeth Snwcer, Jess Glynne a Katherine Jenkins. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy[9] wedi darganfod fod Venue Cymru yn creu mwy na 55,000 o nosweithiau mewn llety bob blwyddyn, gan gynorthwyo i gefnogi masnach twristiaeth lleol.

*Pier Llandudno* – Adeiladwyd Pier Rhestredig Gradd II Llandudno yn y 1800au ac mae'n 2,295 troedfedd o hyd, gan ei wneud y pier hiraf yng Nghymru. Mae'n cynnig nifer o werthwyr bwyd a diod, consesiynau ac adloniant ac yn enwog am ei nodweddion Fictoraidd ac Edwardaidd. Yn dilyn gwaith adnewyddu helaeth i'r llwyfan glanio yn 2015, dychwelodd teithiau Stemar Olwyn Waverley, sy'n cyrraedd y Pier o Lerpwl ac yn parhau ar hyd arfordir Ynys Môn.

*Oriel Mostyn* – Mae Oriel Mostyn yn oriel a chanolfan celfyddydau gweledol modern sydd wedi ei leoli yng nghanol Llandudno. Mae chwech gofod oriel i gynnal ystod o arddangosfeydd sy'n newid bob tymor ac yn dangos artistiaid a gwneuthurwyr o Gymru a thu hwnt. Mae siop a chaffi hefyd yn yr oriel sy'n ychwanegu at brofiad ymwelwyr.

*Y Gogarth* – Mae'r Gogarth yn bentir o galchfaen sydd i'r gogledd orllewin o Landudno. Mae'n 3km o hyd a 2km o led, ac yn codi i 207m i'r copa. Mae mwyafrif o'r pentir wedi cael ei ddynodi fel Ardal Cadwraeth Arbennig, a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Arfordir Treftadaeth ac mae nifer o safleoedd hanesyddol ac wyth safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol. Am nifer o flynyddoedd mae'r Gogarth wedi bod yn lleoliad poblogaidd i bobl ymweld, gan dderbyn oddeutu hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn[10]. Mae nifer o atyniadau yn seiliedig ar, neu'n darparu mynediad i'r Gogarth:

– *Tramffordd y Gogarth* – Tramffordd y Gogarth yw'r unig Dramffordd ym Mhrydain sy'n cael ei redeg â cheblau, ac yn un o dair system yn y byd lle mae "ceir ceblau" yn gweithredu ar y strydoedd, ynghyd â San Fransisco ac Elevador da Bica yn Lisbon. Mae gan Dramffordd y Gogarth ddwy adran annibynnol – isaf ac uchaf, ac yn cynnwys pedwar o dramiau Fictoraidd sy'n mynd ag ymwelwyr ar siwrnai un filltir i gopa Parc Gwledig y Gogarth a'r Warchodfa Natur.
– *Mwyngloddiau Copr y Gogarth* – Cafodd Mwyngloddiau Copr Oes Efydd y Gogarth eu datgelu ym 1987 a dyma'r mwyngloddiau metel hynaf yn y byd sy'n agored i'r cyhoedd, gyda thwneli 3,500 oed yn arwain at ogof cyn hanesyddol a ddefnyddiwyd bron i 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae canolfan ymwelwyr yn y mwyngloddiau ac mae'n cynnig teithiau tywys i ymwelwyr.

[9] Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2015 – 2018): http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Destination-Conwy/documents/Destination-Conwy-Management-Plan-2015-2018.pdf
[10] https://www.nationaltrust.org.uk/features/the-great-orme-a-new-chapter-to-our-coastal-story

- *Car Cebl y Gogarth* – Car Cebl y Gogarth yw'r system gar cebl hiraf ar gyfer teithwyr ym Mhrydain, yn rhedeg o'r Fach i gopa'r Gogarth, 679 o droedfeddi ac yn darparu golygfeydd o Fae Llandudno, Trwyn y Fuwch, Aber Conwy a milltiroedd o Fôr Iwerddon.
- *Canolfan Sgïo ac Eirafyrddio Llandudno* – Mae Canolfan Sgïo ac Eirafyrddio Llandudno yn cynnig ystod eang o weithgareddau ar y llethrau – sgïo, eirafyrddio, eira-diwbio a golff antur mynyddig, gyda gwersi ar gael ac ymarfer agored. Y llwybr toboganau Cresta, sy'n 750m yw'r hiraf yng Nghymru.
- *Fferm Parc* – Prynodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y fferm 145 erw yn 2015. Daeth gyda hawliau pori ar gyfer y Gogarth ehangach ac mae'n caniatáu i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ddiogelu tirlun bregus a phlanhigion a phryfaid prin sydd dan fygythiad, gyda rhai sydd ond i'w gweld yn y Gogarth.

Mae nifer o atyniadau nodweddiadol ar draws Gogledd Cymru sy'n hygyrch o Landudno. Mae hyn wedi arwain at bobl yn defnyddio Llandudno fel canolbwynt i grwydro'r rhanbarth, oherwydd yr ystod o gysylltiadau cludiant a llety sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys Surf Snowdonia, Zip World Fforest a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal â hyn, mae Llandudno yn agos i nifer o drefi ac ardaloedd arfordirol eraill megis Conwy, Bae Colwyn ac Ynys Môn. Gall y trefi hyn gynnig cystadleuaeth i Landudno, ond maent hefyd yn darparu atyniadau ychwanegol i'r rhai sy'n defnyddio Llandudno fel canolbwynt er mwyn crwydro'r ardal ehangach. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu isod, gyda 61% o ymwelwyr i Gonwy a 55% o ymwelwyr i Fae Colwyn hefyd yn ymweld â Llandudno:

**Tabl 1. Arolwg o'r nifer o gyrchfannau a ymwelir â nhw yn ystod taith.[11]**

| | | Prif Gyrchfan | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Llandudno | Conwy | Bae Colwyn |
| Cyrchfannau eraill ymwelwyd â nhw | **Llandudno** | | 61% | 55% |
| | Conwy | 48% | | 26% |
| | Betws y Coed | 15% | 25% | 1% |
| | Bae Colwyn | 2% | 1% | |
| | Bae Cinmel / Towyn | 2% | 5% | 1% |
| | Ynys Môn | 11% | 18% | 0% |
| | Gwynedd | 10% | 21% | 3% |
| | Sir Ddinbych | 2% | 5% | 1% |
| | Sir y Fflint | 1% | 0% | 0% |
| | Wrecsam | 1% | 0% | 0% |

### Digwyddiadau

Mae Llandudno yn cynnal nifer o wyliau a digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn ffynhonnell wych o ymwelwyr i'r dref. Mae digwyddiadau'n cynnwys y Strafagansa Fictoraidd, gorymdaith stryd o gerddwyr mewn gwisgoedd, beicwyr, bandiau martsio, diddanwyr a pheiriannau tynnu sy'n amgylchynu'r dref, ac yn creu £3.5m o effaith economaidd ar yr economi lleol[12]. Mae digwyddiadau allweddol eraill yn cynnwys LLAWN, gŵyl gelfyddydau am ddim sy'n dathlu ac yn archwilio Llandudno drwy gelf, arteffactau, sain, comedi, perfformiadau a chyfranogiad, yn ogystal â Diwrnod y Lluoedd Arfog a Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r digwyddiadau hyn, mae digwyddiadau eraill yn cynnwys Gŵyl Gludiant Llandudno, Gŵyl Jazz Llandudno, L-Fest a Ffair Nadolig Llandudno, yn ogystal â bod (neu wedi bod) yn lleoliad ar gyfer nifer o ddigwyddiadau yn seiliedig ar weithgareddau, megis Taith Prydain, Marathon Conwy, Hanner Marathon Eryri, Rali Cambrian a Threialon y Tri Chastell. Yn ogystal â'r digwyddiadau hyn, mae Venue Cymru yn galluogi Llandudno i gynnal cyngherddau a chynyrchiadau proffil uchel. Mae'r digwyddiadau hyn yn denu ymwelwyr o Ogledd Cymru a thu hwnt ac mae'n bwysig bod Llandudno yn hyrwyddo ei broffil fel cyrchfan adloniant.

### Manwerthu

Fel canolfan manwerthu allweddol ar draws Gogledd Cymru, mae gan Landudno gynnig manwerthu nodweddiadol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Mae prif stryd fawr Llandudno - Mostyn Street – yn agos i'r promenâd ac felly yn cynnig mynediad rhwydd i dwristiaid. Mae'r stryd yn gartref i nifer o siopau gan gynnwys

[11] Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth CBSC 2017
[12] Dadansoddi Digwyddiadau Cyngor Bwrdeisterf Sirol Conwy: Strafagansa Llandudno 2013

brandiau enwog fel Marks and Spencer[13], Pandora, Holland & Barrett a Hotter Shoes, yn ogystal â Chanolfan Siopa Fictoria sy'n cynnwys manwerthwyr megis Boots, Waterstones a The Bodyshop a nifer o siopau annibynnol. Mae diwedd Mostyn Street yn uno â Mostyn Broadway, lle mae Parc Llandudno a pharciau manwerthu Mostyn Champneys wedi'u lleol, sy'n gartref i siopau mawr megis Next a Debenhams.

Felly, mae gan Landudno gynnig manwerthu amrywiol, yn cynnwys siopau annibynnol a manwerthwyr mawr. Mae'r dref hefyd yn elwa o gyfraddau isel o ran siopau gwag, a gofnodwyd ar 5.4% yn 2018 ar draws holl unedau llawr gwaelod manwerthu[14] ac wedi bod o dan 8% ers 2012. Mae twristiaeth a manwerthu â chysylltiad agos yn Llandudno, gydag Arolwg Defnyddwyr Canol y Dref Llandudno yn datgelu bod 33.0% o ymwelwyr i ganol y dref yno at ddibenion hamdden.

### 3.3 Effaith Economaidd ac Ymwelwyr Cyfredol

Mae'r dadansoddiad canlynol yn darparu manylion am y farchnad ymwelwyr presennol, ac o hwn y byddwn yn fframio'r dadansoddiad blaengar. Mae hyn yn cynnwys proffil ymwelwyr, effaith economaidd a'r gyflogaeth mae'n gefnogi.

Dylid nodi bod yr adran hon yn defnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Scarborough Tourism Economic Activity Monitor (STEAM), Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, Arolwg Twristiaeth Conwy a data Croeso Cymru. Dylid nodi bod ffynonellau data penodol megis STEAM ond ar gael ar lefel Sir Conwy ac felly adroddir hyn ar lefel sir neu gwneir rhagdybiaethau i ddadgyfuno'r data hwn i lefel Llandudno. Lle gwneir rhagdybiaethau, nodir hyn yn y troednodiadau a dylai'r data gael ei ddehongli gyda hyn mewn golwg.

#### Ymwelwyr Dydd

Yn 2017, denodd Bwrdeistref Conwy 6.71 miliwn o ymwelwyr twristiaeth dydd[15]. Mae'r nifer o ymwelwyr twristiaeth dydd ar draws y Sir wedi bod ar lwybr cynyddol ers 2012. O ganlyniad i hyn, mae'r gwariant sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr dydd wedi codi dros y cyfnod hwn o £187 miliwn yn 2012 i £225 miliwn yn 2017. Mae hyn yn mynd yn erbyn y duedd gyffredinol ar draws Cymru, sydd wedi gweld gwariant yn cynyddu yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn niferoedd o ymwelwyr dydd, fel y dangosir yn Ffigwr 2.

Yn seiliedig ar fynegiannau o'r Arolwg Twristiaeth Prydain fawr, disgwyliwn 2.84 miliwn o'r ymwelwyr dydd hyn yn Llandudno[16], gyda gwariant cysylltiedig o £97.5 miliwn.

**Tabl 2. Gwariant ac ymwelwyr twristiaeth dydd yn Llandudno a Bwrdeistref Conwy**

| | Llandudno | | Bwrdeistref Conwy | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ymweliadau Twristiaeth Dydd (m)** | **Gwariant (m)** | **Ymweliadau Twristiaeth Dydd (m)** | **Gwariant (m)** |
| **2013** | 2.37 | £74.37 | 5.60 | £188.26 |
| **2014** | 2.36 | £74.13 | 5.57 | £187.16 |
| **2015** | 2.52 | £89.01 | 5.97 | £200.51 |
| **2016** | 2.66 | £94.22 | 6.28 | £210.91 |
| **2017** | 2.84 | £97.47 | 6.71 | £225.35 |


#### Teithiau Dros Nos

[13] Mae Marks and Spencer yn bwriadu adleoli o Mostyn Street i Barc Llandudno, gyda chynlluniau adleoli dan ddatblygiad
[14] Mae hyn yn cynnwys 367 o unedau manwerthu
[15] STEAM 2017

[16] Mae data STEAM ond ar gael ar lefel Sir Conwy. Mae'r nifer o ymwelwyr dydd i Landudno yn seiliedig ar y gyfran o deithiau dros nos ymwelwyr yn Llandudno sy'n berthnasol i Fwrdeistref Conwy fel y cofnodwyd yn Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, a gafodd eu cynnwys yn ffigyrau ymwelwyr dydd STEAM. Mae ffigyrau gwariant yn gyfrifiadau sy'n seiliedig ar gyfran yr effaith economaidd gan ymwelwyr dydd ar gyfer Bwrdeistref Conwy yn nata STEAM.

Mae cyfanswm y teithiau dros nos i Landudno wedi dangos cynnydd o 19.2% rhwng 2008 a 2015. Y ffigwr blynyddol ar gyfer 2008 oedd 355,000 o deithiau dros nos, yn codi i 423,000 yn 2015. Pobl ar wyliau yw'r cohort mwyaf o ran ymwelwyr dros nos ac mae'r grŵp hwn wedi tyfu rhwng 2008 a 2015; er nad yw'r duedd mor gryf â'r hyn a ddangosir ar y cyfan. Er bod y niferoedd yn amrywio'n flynyddol, mae'r duedd cyffredinol yn parhau i fod yn gadarnhaol. Mae ymweliadau i weld ffrindiau a pherthnasau wedi dangos cynnydd mawr dros gyfnod 2008-2015, gyda chynnydd cyfartalog blynyddol o tua 3,800 o ymwelwyr.

**Ffigwr 2. Teithiau Dros Nos i Landudno 2008-2015[17]**




O ran y nifer nosweithiau bob taith, mae tuedd negyddol yn y nifer o nosweithiau gan bobl ar eu gwyliau yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad o 3.9 noson bob taith yn 2008 i 3.3 noson bob taith yn 2015. Cofnodwyd cynnydd sylweddol gan y rhai yn ymweld â ffrindiau a pherthnasau, gyda chyfartaledd nosweithiau bob taith yn codi o 2.2 yn 2008 i 3.7 yn 2015. Mae posibl bod demograffeg Llandudno sy'n tyfu ac yn heneiddio yn denu cyfnodau hirach a mwy o ymweliadau teulu. Er gwaethaf rhai blynyddoedd penodol – fel 2011 a 2015 – mae'r nifer o nosweithiau mae ymwelwyr busnes yn aros wedi parhau o amgylch 1.5, fel y disgwylir yn ôl hyd cyffredinol teithiau busnes. Ond mae niferoedd y teithiau busnes wedi codi dros gyfnod 2008-2015 sy'n dangos effaith Venue Cymru.

**Tabl 3. Nosweithiau bob Taith[18]**


| Nosweithiau bob taith | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyliau** | 3.9 | 3.6 | 3.5 | 3.4 | 3.3 | 3.3 | 3.5 | 3.3 |
| **Ymweld â theulu a ffrindiau** | 2.2 | 2.0 | 2.3 | 2.3 | 2.9 | 2.9 | 3.6 | 3.7 |
| **Busnes** | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.9 | 1.5 | 1.6 | 1.5 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | 3.6 | 3.2 | 3.2 | 3.1 | 3.1 | 3.1 | 3.7 | 3.6 |

Mae gwariant ymwelwyr dros nos wedi cynyddu yn eang yn unol â'r nifer o deithiau dros nos, yn codi o £67 miliwn yn 2009 i £84 miliwn yn 2015, er y cofnodwyd cynnydd sylweddol yn 2008 a 2013. Mae cynnydd sylweddol mewn gwariant wedi cael ei gofnodi gan y rhai sy'n ymweld â ffrindiau a theulu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, er nad ydynt yn talu am lety maent yn ffynhonnell o refeniw ar gyfer y dref o ran gwariant atyniadau a manwerthu. Cynyddodd gwariant y bobl ar wyliau rhwng 2009 a 2014, ond gostyngodd ychydig yn 2015. Mae gwariant ymwelwyr busnes wedi amrywio dros y cyfnod sampl, sy'n debygol o adlewyrchu cryfder digwyddiadau o fewn yr ardal leol yn y blynyddoedd dan sylw.

[17] Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr [18] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr

[18] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr

**Ffigwr 3. Gwariant Ymweliadau Dros Nos**





**Ymwelwyr o Dramor**

Derbyniodd Llandudno 26,000 o ymweliadau o dramor yn ystod 2016[19]. Roedd y ffigwr hwn yn llawer is na 34,000 yn 2015 ond yn parhau uwchben y cyfartaledd blynyddol yn 2010-2016 o 25,000. Pwrpas teithiau teithwyr rhyngwladol ar y cyfan yw gwyliau (70% o holl deithiau), er bod cyfran mawr (46.4%) o ymweliadau o Iwerddon er mwyn gweld ffrindiau a theulu.

Daeth y mwyafrif o ymwelwyr o dramor i Landudno o Iwerddon, gyda chyfartaledd o 6,564 yn ymwelwyr dros nos a gofnodwyd bob blwyddyn rhwng 2010 a 2016. Mae Llandudno wedi bod yn llwyddiannus yn denu ymwelwyr o Ffrainc a'r Almaen, gyda chyfartaledd o 3,854 a 2,733 rhwng 2010 a 2016. Mae UDA ac Awstralia yn gyfranwyr nodedig eraill i'r niferoedd o ymwelwyr rhyngwladol.

**Ffigwr 4. Ymwelwyr o Dramor i Landudno 2010-2016[20]**





**Llety a Ddefnyddiwyd**

O 2015, arhosodd 71% o ymwelwyr i Landudno mewn llety â gwasanaeth, gyda 9% yn aros gyda ffrindiau a theulu a 6% mewn llety gwersylla a charafanio. Tuedd ddiddorol yn y blynyddoedd diwethaf yw'r cynnydd sylweddol yn y rhai sy'n aros mewn llety "arall" nad ydynt wedi cael eu categoreiddio. Gall hyn fod oherwydd cynnydd mewn ffurfiau eraill o lety, megis llety a restrir ar lwyfan Airbnb, gydag oddeutu 80 a sefydliadau wedi cael eu rhestru ar Airbnb[21] yn ac o amgylch Llandudno.

[19] Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Swyddfa Ystadegau Gwladol
[20] Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Swyddfa Ystadegau Gwladol
[21] Mynediad at y wybodaeth Medi 2018

Dim ond 2% o ymwelwyr i Landudno arhosodd mewn llety hunanddarpar. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y mathau o lety a ddefnyddiwyd yn dangos y cyflenwad sydd ar gael yn hytrach na'r hyn mae ymwelwyr eisiau.

**Ffigwr 5. Llety a Ddefnyddiwyd yn ystod Taith**




### Deiliadaeth Llety

Mae data deiliadaeth llety ond ar gael ar sail ranbarthol oherwydd cyfyngiadau maint sampl data. Ar draws Gogledd Cymru nid yw deiliadaeth yn tueddu i ddangos tystiolaeth o natur dymhorol, gydag ychydig iawn o amrywiaeth ar draws y flwyddyn, hyd yn oed yn ystod misoedd prysuraf yr haf. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod proffil tymhorol o fewn Llandudno gyda lefelau deiliadaeth yn y blynyddoedd diwethaf tu hwnt i 95% yn ystod misoedd yr haf, sy'n dynodi diffyg lleoedd gwag yn ystod prysurdeb yr haf[22].

**Tabl 4. Deiliadaeth Llety yng Ngogledd Cymru[23]**


| | Gwely a Brecwast (%) | Gwely Hostel (%) | Ystafell Gwesty (%) | Uned Hunanddarpar (%) |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 40 | 53 | 68 | 54 |
| Chwefror | 40 | 52 | 69 | 58 |
| Mawrth | 40 | 52 | 68 | 57 |
| Ebrill | 41 | 53 | 69 | 58 |
| Mai | 40 | 53 | 69 | 58 |
| Mehefin | 41 | 53 | 69 | 58 |
| Gorffennaf | 40 | 53 | 69 | 58 |
| Awst | 40 | 53 | 69 | 58 |
| Medi | 39 | 53 | 68 | 59 |
| Hydref | 40 | 53 | 68 | 61 |
| Tachwedd | 40 | 53 | 68 | 61 |
| Rhagfyr | 40 | 53 | 67 | 61 |
| **Cyfartaledd** | **40** | **53** | **68** | **58** |

[22] Papur Polisi Cymdeithas Lletygarwch Llandudno Chwefror 2018
[23] Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru, Croeso Cymru

**Natur Dymhorol**

Mae tuedd dymhorol glir o ran niferoedd ymwelwyr i ardal Bwrdeistref Conwy fel y dangosir yn Ffigwr 5. Mae hyn yn awgrymu nad yw ffigyrau deiliadaeth llety Gogledd Cymru, a nodwyd yn Nhabl 4, yn debygol o fod yn gymwys i Landudno. Mae'r rhanbarth yn profi tymor eithaf hir gyda niferoedd yr ymwelwyr yn cynyddu ym mis Ebrill heb ddisgyn yn llawer is tan fis Hydref, gyda Gorffennaf ac Awst yn dangos y tymhorau prysuraf. Mae'r cyfnod o fis Tachwedd i fis Mawrth yn cynnwys niferoedd ymwelwyr is gyda'r pwynt isaf dros fis Rhagfyr a mis Ionawr. Mae nifer yr ymwelwyr yn dilyn patrwm tymhorol cyffredinol ar gyfer twristiaeth ar y cyfan. Mae'r ddiffyg ymwelwyr yn y gaeaf yn dangos angen amlwg i wella'r cynnig dros y gaeaf gan gefnogi gweledigaeth CBSC i fynd i'r afael â'r mater. Mae'n ddiddorol gweld bod y llety heb wasanaeth yn dilyn y duedd dymhorol, lle mae llety â gwasanaeth yn dangos tuedd mwy cyson.

**Ffigwr 6. Math o Ymwelwyr bob Mis 2016 – Bwrdeistref Conwy[24]**




## Proffil a Chanfyddiadau Ymwelwyr

**Proffil Oed Ymwelwyr**


Mae proffil ymwelwyr Llandudno yn cynnwys cyfran fawr o fewn y categori oedran 65+ (42%) ac yn y categori oedran 55-64 (18%). Dim ond 15% o ymwelwyr sydd rhwng 18 a 34 oed.

Mae ymwelwyr yn tueddu i fod yn gyplau (65%) neu bobl sengl (24%) gyda chyfran weddol fach o ymwelwyr sy'n deuluoedd gyda phlant (10%). Er y gall diffyg teuluoedd gael effaith negyddol o ran yr ymwelwyr yn y dyfodol, mae'r niferoedd o gyplau a phobl sengl wedi cael effaith gadarnhaol tymor byr gan fod gwariant uwch yn gysylltiedig â'r ymwelwyr hyn, fel y nodir yn Nhabl 16.

Er bod perfformiad presennol y sector twristiaeth yn gadarnhaol, gall y diffyg canolbwynt ar ddenu cenedlaethau iau – yn arbennig o ran teuluoedd – fod yn andwyol yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn arolwg Twristiaeth CBSC 2017, roedd 84% o ymwelwyr i Landudno yn ymwelwyr dychwel, ac felly gall ganolbwyntio ar y genhedlaeth hŷn arwain at ddiffyg ymwelwyr dychwel ymysg y rhai a ymwelodd yn ystod eu plentyndod ac yn dymuno ail-fyw eu profiadau gyda'u teuluoedd ac wrth fynd yn hŷn. Mae hyn yn awgrymu bod angen cadw canolbwynt ar ddenu grwpiau demograffeg gwahanol, wrth gadw canolbwynt hefyd ar yr apêl graidd, traddodiadol sydd wedi sefydlu Llandudno fel un o brif gyrchfannau y DU ac yn gyrchfan glan y môr rhyngwladol.

[24] STEAM 2016


**Ffigwr 7. Proffil Oedran Ymwelwyr Llandudno 2017[25]**




### Dadansoddiad Domestig fesul Lleoliad

Yn ôl Arolwg Twristiaeth CBSC 2017, roedd y gyfran uchaf o ymwelwyr i Landudno yn dod o Ogledd Orllewin Lloegr, gan wneud 36.9% o gyfanswm twristiaid domestig yn 2017. Mae cyfrannau nodedig eraill yn dod o weddill Cymru (21.9%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (16.8%).

**Ffigwr 8. Dadansoddiad o dwristiaid domestig fesul Rhanbarth**





### Rhesymau dros Ymweld â Llandudno

Yn ôl Arolwg Twristiaeth Conwy 2017, roedd 82% o ymwelwyr yn cael eu denu i Landudno oherwydd y Tirlun a Golygfeydd. Ymwelodd 37% yn bennaf oherwydd Hanes a Diwylliant yr ardal tra bo 28% yn cael eu denu gan draethau Llandudno. Dim ond 12% oedd yn cael eu denu gan y gweithgareddau awyr agored ar gael i ymwelwyr, gan awgrymu bod hyn yn agwedd y gallai'r dref wella arni.

[25] Arolwg Twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017

**Ffigwr 9. Prif atyniadau i dwristiaid yn Llandudno**





**Effaith economaidd**

Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno oedd £384 miliwn yn 2017[26]. O'r ffigwr hwn roedd £289 miliwn yn dod o wariant uniongyrchol tra bo £95 miliwn yn anuniongyrchol. Yr ymwelwyr oedd yn aros dros nos oedd yn darparu'r budd economaidd fwyaf gyda £249 miliwn, tra bod ymwelwyr dydd yn ychwanegu £135 miliwn i'r economi lleol.

Mae effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno wedi cynyddu'n nodedig dros y 5 mlynedd diwethaf o £296m yn 2012 i £384m yn 2017. Gall hyn fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn hyder wrth i'r economi adfer o'r argyfwng ariannol, yn ogystal â'r newid cyffredinol mewn agweddau tuag at dwristiaeth a hamdden a'r cynnydd yn y nifer o wyliau mae pobl yn cymryd drwy gydol y flwyddyn.


**Ffigwr 10. Effaith Economaidd yn Llandudno**




Yn unol â'r effaith economaidd gynyddol, mae cyflogaeth ym maes twristiaeth hefyd wedi bod ar drywydd cadarnhaol yn gyffredinol, gan godi o 4,606 yn 2012 i 5,328 yn 2017, gan gynnwys cyflogaeth anuniongyrchol sydd wedi'i greu gan dwristiaeth. Mae hyn yn dangos arwyddocâd y sector twristiaeth i hybu economi Llandudno.

[26] STEAM 2016

**Ffigwr 11. Cyflogaeth Twristiaeth yn Llandudno**




### 3.4 Crynodeb

- Mae Llandudno yn ganolfan dwristiaeth allweddol yn y DU, sydd wedi'i ddiffinio gan yr ystod o atyniadau a digwyddiadau, treftadaeth Fictoraidd, hygyrchedd ac amgylchedd naturiol o safon uchel.
- Mae twristiaeth yn ffocws strategol allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a CBSC, sy'n cefnogi'r angen i ddatblygu isadeiledd twristiaeth a chynnyrch twristiaeth. Mae datblygiad y sector twristiaeth yn Llandudno hefyd yn cael ei gefnogi gan grwpiau a sefydliadau lleol megis Cymdeithas Lletygarwch Llandudno ac Ystadau Mostyn.
- Mae'r sector twristiaeth yn Llandudno wedi cofnodi perfformiad cryf dros y blynyddoedd diwethaf, gyda thwf mewn ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos gan arwain at dwf sefydlog o ran effaith economaidd twristiaeth ac yr effaith ar swyddi.
- Fodd bynnag, disgynnodd cyfartaledd hyd teithiau i Landudno o 3.9 noson yn 2008 i 3.3 noson yn 2015, er bod hyn wedi cael ei osod yn erbyn cynnydd yn hyd arhosiad y rhai sy'n ymweld â ffrindiau a theulu.
- Gyrrwr allweddol twristiaeth yw'r tirlun a golygfeydd yn Llandudno, tra bod hanes a diwylliant a thraethau hefyd yn ffactorau pwysig. Dim ond 12% o ymwelwyr nododd weithgareddau awyr agored fel "atyniad". Mae safon uchel yr amgylchedd awyr agored yn awgrymu y gall y dref wella ei gynnig yn y maes hwn.
- Mae mwyafrif y farchnad dwristiaeth yn cael ei hybu gan Ogledd-Orllewin Lloegr, Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr, gan awgrymu y dylai datblygu'r sector twristiaeth ystyried ehangu ac arallgyfeirio ei gynnig er mwyn apelio at sbectrwm daearyddol ehangach.
- Mae demograffeg ymwelwyr ar hyn o bryd yn tueddu i fod y genhedlaeth hŷn, gyda 60% o ymwelwyr yn 55 oed neu hŷn. Yn ogystal â hynny, dim ond 10% o ymwelwyr i Landudno sy'n deuluoedd gyda phlant. Mae hyn yn awgrymu bod angen cadw canolbwynt ar ddenu grwpiau demograffeg gwahanol, wrth gadw canolbwynt hefyd ar yr apêl graidd, draddodiadol sydd wedi sefydlu Llandudno fel un o brif gyrchfannau y DU ac yn gyrchfan glan y môr rhyngwladol.

# 4. Patrymau'r Dyfodol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif batrymau sy'n debygol o effeithio ar Landudno dros y cyfnod a ragwelir. Mae'r rhain yn adlewyrchu meysydd allweddol i Landudno gynyddu'r nifer o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr.

### 4.1 Patrymau Demograffeg

**Y Genhedlaeth Hŷn**

Mae ymchwil yn dynodi bod twristiaeth yn un o'r prif feysydd a fydd yn elwa o boblogaeth sy'n heneiddio sy'n fwy tebygol o fynd am brofiadau hamdden o'i gymharu â chenedlaethau'r gorffennol. Mae twristiaeth sydd wedi cael ei dargedu at y farchnad hŷn wedi cael ei nodi fel cyfle gydag arenillion uchel a thwf uchel ar gyfer y diwydiant. Er enghraifft, rhwng 1999 a 2011 cynyddodd gwariant unigolion 65+ ar deithio tramor o 1.3 biliwn, tra gostyngodd gwariant y rhai rhwng 16 a 34 o £922 miliwn dros yr un cyfnod. [27]

Gyda 'disgwyliad oes iach' yn cynyddu dros y cyfnod a ragwelir, mae'r awch i deithio a thwristiaeth ymysg y grwpiau hŷn yn y gymdeithas yn debygol o gynyddu dros amser. Fodd bynnag, disgwylir i ymddygiad ac agweddau'r cenedlaethau hŷn newid dros y cyfnod a ragwelir:

- Disgwylir i'r cenedlaethau hŷn fod yn fwy medrus gyda thechnoleg, symud i ffwrdd o archebu drwy asiantaethau teithio a dros y ffôn a symud tuag at gyfryngwyr ar-lein.
- Bydd cyfforddusrwydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ond bellach, ni fydd yr un ffocws ar foethusrwydd; gyda'r disgwyliad i'r duedd o ran teithio arbrofol barhau.
- Gyda'r awch i deithio a thwristiaeth ymysg y grwpiau hŷn yn y gymdeithas yn debygol o barhau dros amser, yn ogystal â disgwyliad oes cyffredinol, bydd dewisiadau llety a theithio a all ddarparu ar gyfer pobl gyda llai o symudedd fod mewn galw mawr.
- Bydd twristiaeth iechyd yn dal i fod yn ffactor ar gyfer y genhedlaeth hon. Gall hyn gynyddu yng ngoleuni tueddiadau diweddar tuag at "bresgripsiynau natur" – megis yr hyn a welwyd yn ddiweddar gan brosiect GIG Shetland[28] a phrosiect GIG Forest – i gleifion helpu i drin iechyd meddwl, clefyd siwgr a chlefyd y galon, straen a chyflyrau eraill.
- Mae oddeutu traean o unigolion sydd wedi ymddeol wedi mynd ar deithiau gyda phobl o genedlaethau eraill ac mae disgwyl i'r farchnad rhyng-genhedlaeth barhau i dyfu oherwydd costau gofal plant a disgwyliad oes iach y cenedlaethau hŷn.
- Fodd bynnag tra bo disgwyl i rym gwario'r poblogaethau hŷn aros yn uchel dros y degawdau i ddod, gall y taflwybr presennol newid os fydd gwaith yn dod yn llai sefydlog, pensiynau yn llai buddiol ac oed ymddeol y gwledydd yn parhau i godi. Gall hyn arwain at fwy o amrywiaeth yn lefelau grym gwario y rhai sy'n dynesu at ymddeoliad ar ddiwedd y cyfnod a ragwelir. Bydd hyblygrwydd yn hanfodol er mwyn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion sy'n newid a disgwyliadau sy'n newid.

<u>*Goblygiadau ar gyfer Llandudno*</u>

Mae Llandudno mewn safle da i elwa o'r twf cynyddol o fewn y farchnad dwristiaeth hŷn, gan ei fod eisoes yn denu 42% o'i farchnad yn y grŵp oed 65+. Mae'n elwa o bromenâd hygyrch, tir fflat, maint cyffredinol a mynediad hawdd yn ei gynnig twristiaeth a manwerthu. Yn ogystal â hynny, mae ei atyniad presennol i'r ddemograffeg hŷn wedi arwain at isadeiledd mewn nifer o ardaloedd er mwyn caniatáu hygyrchedd i deithwyr hŷn.

Fodd bynnag, bydd y gofynion yn newid dros y cyfnod a ragwelir, gan amlygu'r angen am:

- **Fwy o gymorth a phersonoli** – Bydd angen i'r isadeiledd a gwasanaethau cymorth gael eu haddasu er mwyn bodloni'r galw cynyddol a'r newid o ran anghenion a dewisiadau ymwelwyr. Er enghraifft, yn arbennig yn y dyfodol agos, wrth i deithwyr ddod yn fwy medrus gyda thechnoleg, bydd angen cymorth yn y ffordd y ceir mynediad at wybodaeth drwy ffyrdd amrywiol, wrth i deithlenni personoledig ar gyfer grwpiau ac unigolion olygu bod angen bodloni awch cynyddol y cenedlaethau hŷn i gael profiadau wrth ddarparu'r cymorth angenrheidiol hefyd.
- **Isadeiledd** - Bydd angen gwelliannau er mwyn galluogi ymwelwyr gyda rhwystredigaethau corfforol a symudol i "hel" profiadau twristiaeth ac i ymdopi â'r galw cynyddol am deithio hygyrch. Fe wnaeth astudiaeth diweddar a gomisiynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd amlygu pe byddai cyrchfannau

[27] (Kingman, 2012).
[28] https://www.rspb.org.uk/about-the-rspb/about-us/media-centre/press-releases/nature-prescribed-to-help-health/

twristiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn gwella er mwyn cyflawni hygyrchedd llawn i adeiladau, gwestai, bwytai, amgueddfeydd a nifer o wasanaethau hygyrch, byddai'r galw yn cynyddu bron 44% gan arwain at gynnydd posibl o 39% mewn cyfraniadau economaidd[29]. Dylai Llandudno ganolbwyntio ar geisio cwblhau hygyrchedd llawn mewn adeiladau a gwasanaethau o fewn cyd-destun yr amgylchedd adeiladu.

- **Teithio Rhyng-genedlaethol** – Her unigryw ar gyfer Llandudno oherwydd y twf yn y farchnad yw'r gallu i ddatblygu ac alinio atyniadau, digwyddiadau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb i bob aelod o grŵp sy'n teithio gyda'i gilydd. Ystyrir y farchnad hon yn un â photensial cynyddol, gyda nifer o weithredwyr ac asiantaethau yn targedu'r cyfle (e.e. takethefamily.com, forestholidays.co.uk, staysure.co.uk, grandparentsclub.co.uk).
- **Llety** – Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhan o'r cynnig llety presennol gyda nodweddion "gwestai bysiau" sy'n darparu ar gyfer y cenedlaethau hŷn o fewn y grŵp 75+ oed sy'n ymweld â Llandudno ar deithiau bws. Mae cynnydd mewn disgwyliad oes iach a chanolbwynt ar brofiadau yn awgrymu bod y darparwyr hyn yn benodol, angen addasu i ofynion eu gwesteion sy'n newid, gan apelio at eu natur "ifanc am byth" tra'n gwneud prosesau archebu a chyfathrebu yn syml wrth i dechnoleg arwain y ffordd.

**Milflwyddwyr a'r Gen Y**

Bydd y Milflwyddwyr / Gen Y yn grŵp twristiaeth allweddol dros y cyfnod a ragwelir, gyda'r disgwyl i'r Milflwyddwyr gynrychioli 50% o holl deithwyr erbyn 2025. Ar yr un pryd, bydd y grŵp hwn yn ffurfio prif ran y farchnad deulu dros y tymor canolig. Disgwylir i'r grŵp Milflwyddwyr/Gen Y gynnal eu blaenoriaeth ar gyfer teithio yn ystod y cyfnod a ragwelir, gydag ymddygiad yn newid wrth i'r grŵp demograffeg hwn heneiddio:

- Disgwylir i'r ffocws ar brofiadau a dilysrwydd gael ei gynnal drwy fywyd sengl a drwy fod yn rhiant, gyda milflwyddwyr yn blaenoriaethu a hyrwyddo pwysigrwydd profiadau ar gyfer eu plant[30]. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y duedd a nodir bod rhieni milflwydd yn rhoi gwerth uwch ar adloniant a hamdden gyda'u teuluoedd o'i gymharu â rhieni o genedlaethau hŷn. Mae eu harferion gwario yn adlewyrchu hyn, gyda chenedlaethau iau yn gwario mwy ar barciau gwyliau a pharciau thema, gyda theuluoedd a phlant 4-6 oed yn gwario mwy na £200 ar ymweld â pharciau gwyliau.
- Disgwylir i'r duedd am gysylltiad mwy rhwng gwasanaethau i dwristiaid a bywyd bob dydd ymwelwyr a ffocws cryf ar empathi a chysylltiad â chwsmeriaid gael ei hybu ymhellach drwy ddigideiddio, gan fod technoleg yn hanfodol ar gyfer y ddemograffeg hon.
- Erbyn diwedd y cyfnod a ragwelir, bydd Milflwyddwyr/ Gen Y yn amrywio mewn oedran o 45 i 60, gyda'r hynaf yn dechrau dynesu at ymddeoliad. Ar ôl casglu cyfoeth ychwanegol dros y 25 mlynedd nesaf, disgwylir i'w cyfanswm gwariant gynyddu yn sylweddol.
- Fodd bynnag, gall grym gwario'r grwpiau hyn yn 2040 effeithio ar eu parodrwydd a/neu gallu i deithio, gan eu bod wedi wynebu amgylchiadau economaidd sydd wedi ei gwneud yn anoddach iddynt gasglu cyfoeth mor hawdd â'r cenedlaethau blaenorol[31]. Cafodd milflwyddywr eu taro'n galed gan y dirwasgiad byd-eang, a effeithiodd ar ddatblygiad gyrfa, ac nawr yn wynebu newid yn y gweithlu sy'n aml yn ansicr ac yn gynyddol awtomataidd, yn ogystal â mwy o anghydraddoldeb yn gyffredinol. Gall yr amgylchiadau newidiol hyn hefyd chwarae eu rhan i egluro'r duedd tuag at deithiau byrrach a phoblogrwydd cynyddol dewisiadau teithio rhatach, megis cwmnïau awyrennau cost isel, rhannu cartrefi, a llwyfannau rhannu cludiant, hostelau ac ati. Rhaid ystyried y materion hyn wrth asesu dewisiadau teithio y cenedlaethau sydd i ddod yn y degawdau nesaf.

*Goblygiadau ar gyfer Llandudno*

- **Llety** – Mae disgwyl i ffocws Milflwyddwyr a Gen Y barhau ar brofiadau archwilio, rhyngweithio ac emosiynol ac mae nifer o frandiau yn y diwydiant gwestai wedi canfod bod angen iddynt ail-feddwl y gwasanaeth maent yn ei ddarparu er mwyn bodloni'r dimensiynau hyn. Gall westai Llandudno edrych ar yr esiamplau hyn – megis Tru by Hilton – er mwyn deall pwyntiau gwasanaeth allweddol er mwyn denu'r farchnad hon. Mae'r rhain yn cynnwys hanfodion megis: ystafelloedd llai, gyda phrisiau rhesymol; Wi-Fi am ddim a mwy o hyblygrwydd o ran amseroedd bwytai a chofrestru ar-lein drwy addasu ardaloedd cymudol er mwyn galluogi mwy o ryngweithio o amgylch defnydd penodol (e.e. Mae

[29] Miller, 2014
[30] Adroddiad Barclays
[31] Dobbs et al., 2016

Tru by Hilton yn rhannu drwy chwarae, gweithio, bwyta ac ymlacio), integreiddio canolfannau ffitrwydd modern ac integreiddio mwy o amrywiaeth o dechnoleg megis cymorthyddion ar-lein (e.e. Tru-Ly Local Wall ar gyfer argymhellion lleol) a gwasanaethau 'Restaurant n Go' er mwyn caniatáu i westeion archebu o fwytai lleol [32]. Fodd bynnag, ar ben uchaf yr ystod oedran a bywyd, bydd gwestai mwy moethus yn cynnal eu pwysigrwydd wrth fynd i'r afael â meysydd allweddol o brofiadau archwilio, rhyngweithio ac emosiynol, tra bod dewisiadau hunan-ddarparu ac Airbnb o safon uwch yn parhau i ddenu teuluoedd.

- **Atyniadau a Digwyddiadau** - Gall rieni sy'n filflwyddwyr ddymuno rhannu eu profiadau eu hunain gyda'u plant, mae newid cyffredinol i ffwrdd o ffyddlondeb yn y ddemograffeg hon a thuag at amrywiaeth a chasglu profiadau o amrywiaeth eang o leoliadau. Ffocws allweddol er mwyn parhau i fod yn berthnasol i'r grŵp hwn yw atyniadau a digwyddiadau – wrth gadw'r cynnig craidd – rhaid ystyried themâu newydd a galluogi profiadau newydd er mwyn denu ymwelwyr dychwel o'r ddemograffeg hon.
- **Marchnata** – Dylid addasu sianeli marchnata i'r llwyfan digidol er mwyn denu milflwyddwyr. Mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o greu eu teithlenni eu hunain yn hytrach na dibynnu ar gyngor asiantaethau teithio neu gymryd rhan mewn teithiau pecyn ac felly bydd presenoldeb ar-lein gan ddarparwyr llety, atyniadau, digwyddiadau, siopau a sefydliadau bwyd a diod yn hanfodol er mwyn eu galluogi i greu eu teithlenni eu hunain.
- **Digideiddio** - Bydd disgwyliad ar draws y grwpiau demograffeg o integreiddiad technoleg o fewn y lleoliad twristiaeth, megis argaeledd cysylltedd symudol, Wi-Fi mewn ardaloedd cyhoeddus a thaliadau digyswllt yn y dyfodol agos.
- **Cynaliadwyedd** – Mae gan dwristiaid sy'n filflwyddwyr/Gen Y lefel uwch o ymwybyddiaeth amgylcheddol a diwylliannol, sy'n golygu eu bod yn gofyn llawer mwy, yn gallu dylanwadu ac yn dweud eu barn ar gynnyrch y maent yn eu defnyddio.

**Cenhedlaeth Z**

Credir bod y Gen Z yn hollol wahanol i'r Milflwyddwyr / Gen Y gan fod ganddynt eisoes mwy o fynediad at wybodaeth, ffordd o fyw mwy dynamig a lefel uwch o addysg ac yn gallu addasu i newid yn gyflymach. Mae 85% o'r Gen Z yn defnyddio ffonau clyfar ac mae'r genhedlaeth hyn yn cael ei adnabod fel 'integreiddwyr digidol' gan eu bod wedi integreiddio technoleg i'w bywydau yn hawdd ar ôl ei ddefnyddio o oedran ifanc iawn. Felly mae technoleg yn rhan o bron i bob agwedd o'u bywydau a'u perthnasau[33].

Mae'r Gen Z yn grŵp sy'n datblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â thwristiaeth, gyda nifer rŵan yn cyrraedd yr oedran i fynd ar eu taith annibynnol gyntaf. Bydd y Gen Z yn rym mawr yn y farchnad dwristiaeth a'r gweithlu erbyn diwedd y cyfnod a ragwelir, yn amrywio o 30 i 45 oed. Erbyn 2020, bydd y grŵp demograffeg hwn yn gwneud y cyfran fwyaf o'r boblogaeth fyd-eang gyda 2.6 biliwn, a rhagwelir y byddent yn fwy na'r Milflwyddwyr gydag amcangyfrif o 2.3 biliwn[34]. Felly mae'r Gen Z yn cynrychioli ymddygiad y genhedlaeth o dwristiaid sydd i ddod a bydd rhaid i'r farchnad addasu ar eu cyfer:

- Fel integreiddwyr digidol, bydd y rhyngrwyd yn chwarae rôl hanfodol yn y ffordd maent yn cael mynediad at, yn llywio ac yn rhyngweithio gyda chynnyrch a gwasanaethau twristiaeth gwahanol, o'i gymharu â'r cenedlaethau blaenorol, ar ôl cael eu magu gyda mynediad sydyn ac uniongyrchol at wybodaeth drwy dechnoleg ddigidol.
- Maent hefyd yn fwy tebygol o deithio yn annibynnol o'i gymharu â'r cenedlaethau blaenorol ac i fod yn agored i rentu neu gael mynediad dros dro at gynnyrch neu wasanaethau, megis dulliau o deithio neu lety, yn hytrach na bod yn eiddo arnynt yn llwyr.
- Mae patrymau gwario o fewn y Gen Z yn wahanol i'r Milflwyddwyr, gan fod y Gen Z wedi tyfu mewn dirwasgiad ac yn ddarostyngedig i ffioedd dysgu uwch yn y brifysgol. Mae'r grŵp hwn yn fwy ymwybodol o arbedion a gwariant na'r milflwyddwyr.
- Ar gyfartaledd, mae'r Gen Z yn grŵp demograffeg sy'n gofyn llawer mwy o ran mynediad at wasanaethau. Mae traean (33%) o'r genhedlaeth 'ar alw' yn disgwyl gwasanaethau 24 awr, o'i gymharu a chwarter (25% o filflwyddwyr (25-34 oed) a 19% o'r rhai 35-44 oed. Mae dros draean (34%)

[32] https://blog.sprinklr.com/hilton-hyatt-marriott-customer-experiences/
[33] http://corporate.cms-horwathhtl.com/wp-content/uploads/sites/2/2015/12/Tourism-Mega-Trends4.pdf
[34] Weinswig, 2016

o'r Gen Z sy'n gweithio wedi egluro mai'r rheswm dros y galw am wasanaethau 'tu allan i oriau' yw oriau gweithio hwyr, o'i gymharu â 30% o filflwyddwyr (25-34 oed) a 20% o bobl 45-54 oed[35].

- Er bod yr awch i gymryd risg yn lleihau wrth i'r Gen Z ddynesu at ddiwedd y cyfnod a ragwelir, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei ailadrodd gan y cenedlaethau sy'n dilyn.

*Goblygiadau ar gyfer Llandudno*

- **Llety** – Disgwylir i'r Gen Z fod â thueddiadau tebyg i'r milflwyddwyr – megis canolbwyntio ar ryngweithio, cyfleustra a gwerth o fewn y cynnig llety. Bydd darparwyr llety angen integreiddiad pellach o ran technoleg, megis teledu clyfar, goriadau ystafell digidol a rhaglenni ffyddlondeb symudol[36]. Mae'r ffocws ar brofiad "lleol" hefyd yn debygol o wneud i ddarparwyr llety ddarparu profiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd lleol gan osgoi cynnig llety unffurf, wrth i wasanaeth wedi'i deilwra a'i bersonoli ddod yn fwy a mwy pwysig. Gyda'r Gen Z yn fwy agored i rentu llety dros dro, bydd cynigion hunan-ddarpar yn cynyddu mewn pwysigrwydd, drwy gwmnïau megis Airbnb.
- **Marchnata** - Mae'r Gen Z yn disgwyl gwybodaeth amser real, negeseuon byr a phwerus sy'n cael eu hanfon drwy luniau, fideos a sianeli sy'n eu galluogi nhw i ryngweithio, cyd-greu a rhannu gwybodaeth. Er mwyn marchnata cynigion i'r Gen Z, rhaid i ddarparwyr yn Llandudno ddweud eu hanes ar draws nifer o lwyfannau, cyflwyno eu gwerthoedd, pryfocio, siarad yn eu hiaith nhw, parchu eu barn a'u galluogi i ryngweithio a chyd-greu. Bydd cwmnïau hefyd angen dangos eu bod yn cydfynd â gwerthoedd a rennir ymysg y genhedlaeth hon, megis cynaliadwyedd a bod yn gyfrifol yn gymdeithasol.
- **Digideiddio** - Yn ogystal â chynllunio strategol, er mwyn ennill eu plwyf ymysg y Gen Z, rhaid i gwmnïau ddod yn fwy hyblyg a deall eu personoliaethau yn well.
- **Manwerthu** - Gyda chynnydd mewn siopa ar-lein, er mwyn denu'r Gen Z i'r stryd fawr, rhaid sicrhau "profiad" siopa, drwy fod yn unigryw, digwyddiadau yn y siopau, siopau sy'n edrych yn dda ac wedi'u personoli. Mae'r Gen Z yn edrych ymlaen at siopa mewn siopau ac mae'r boddhad uniongyrchol yn dal i fod yn gryf o fewn y grŵp hwn[37]. Fodd bynnag, mae mwy o duedd tuag at brynu llai, prynu cynnyrch dilys a phrynu cynnyrch gwell, sy'n awgrymu bod angen i rannau penodol o'r farchnad fanwerthu addasu i hyn.

## 4.2 Patrymau Ehangach

Yn ogystal â'r patrymau a nodir ar gyfer y dyfodol, drwy ddadansoddi grwpiau demograffeg gwahanol, disgwylir i nifer o batrymau ehangach effeithio ar dwristiaeth mewn ffordd gadarnhaol ac mewn ffordd negyddol dros gyfnod a ragwelir.

### Cludiant

Mae cludiant yn rhan hanfodol o gynnig twristiaeth cyrchfannau. Gall lleoliad, capasiti, effeithlonrwydd a chysylltedd cludiant chwarae rôl hanfodol yn y ffordd mae cyrchfan yn datblygu, gan ddylanwadu ar symudedd ymwelwyr a chysylltedd profiadau i dwristiaid o fewn cyrchfannau. Os nad yw strategaethau datblygu cludiant a thwristiaeth yn cyd-fynd, ni all gyrchfannau letya niferoedd a llif ymwelwyr posibl, a bydd symudedd o amgylch y cyrchfan wedi ei gyfyngu, gan leihau safon profiadau ymwelwyr[38]. Er enghraifft, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gall dagfeydd traffig ar yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy a'i gysylltiad â'r A55 achosi aflonyddwch sylweddol i ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru ar yr M56. Yn ystod digwyddiadau mawr, y prif fynediad i Landudno yw ar yr A470 a'r A546, a gall rhain achosi tagfeydd yn sydyn, sy'n golygu bod angen rheolaeth ragweithiol gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a CBSC.

Gall hygyrchedd teithio gael ei effeithio gan ystod o ffactorau mewnol ac allanol dros y 20-25 mlynedd nesaf, gan gyflwyno cyfleoedd a heriau ar gyfer cyrchfannau. Mae twf mewn niferoedd yr ymwelwyr, arloesedd mewn cludiant a mynediad at isadeiledd yn rhai o'r materion sy'n debygol o effeithio ar symudedd pobl.

Mae mwyafrif yr ymwelwyr i Landudno yn cyrraedd mewn car. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae llai o oedolion yn gyrru. Cyrhaeddodd trwyddedau gyrru ymysg pobl ifanc ei uchafbwynt yn 1992/4, gyda 48% o bobl 17-20 oed a 75% o bobl 21-29 oed yn berchen trwydded yrru. Erbyn 2014, roedd deiliaid trwydded yrru wedi

[35] https://londonlovesbusiness.com/flexible-workers-are-calling-time-on-traditional-hospitality-and-leisure-hours/
[36] https://www.originoutside.com/insights/theyre-coming-hotels-for-generation-z
[37] https://fashionunited.uk/news/business/what-do-millennials-and-generation-z-consumers-want-from-retailers/2018060730094
[38] https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/5js4vmp5n5r8-en.pdf?expires=1538733928&id=id&accname=guest&checksum=F690119AB475105BB9B51579896768E4

disgyn i 29% o bobl 17-20 oed a 63% o bobl 21-29 oed. Mae'r newid hwn wedi cael ei hybu gan drefoli cynyddol, lleihad mewn perchnogaeth tai ac amodau economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu pobl ifanc, megis cyfranogiad uwch mewn addysg uwch, cynnydd mewn swyddi sy'n talu llai ac yn llai diogel, a gostyngiad mewn incwm gwario[39]. Er y disgwylir i berchnogaeth car ymysg bobl ifanc gynyddu gydag oedran – yn bennaf ar gyfer y rhai sydd mewn swyddi diogel, llawn amser – bydd nifer wedi dod i arfer â ffordd o fyw lle mae defnydd o gar preifat yn llai pwysig na'r cenedlaethau blaenorol, gan arwain at wahaniaethau sylweddol mewn ymddygiad teithio drwy gydol eu bywydau.

Bydd hyn yn debygol o arwain at newid tuag at ddewisiadau newydd, megis clybiau ceir/symudedd a rennir, tra bydd y cynnydd mewn trefoli yn cynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant cyhoeddus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal â hynny, o ran y ceir preifat a ddefnyddir, mae'n debygol y bydd mwy o symud tuag at dechnolegau newydd. Yn ôl Senarios Ynni'r Dyfodol gan y Grid Cenedlaethol[40], mae'n bosibl y bydd 36 miliwn o Gerbydau Trydan ar ffyrdd y DU erbyn 2040, sy'n gysylltiedig ag addewid y llywodraeth i wahardd ceir petrol a diesel erbyn 2040. Bydd gofyn cael isadeiledd yn ei le er mwyn cefnogi'r cerbydau hyn a'r newidiadau mewn ymddygiad. Yn ôl ZapMap, darparwr gwybodaeth ar-lein ar bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y DU, ar hyn o bryd dim ond 4 pwynt gwefru cerbydau trydan sydd yn Llandudno[41].

Yn ogystal â hynny, rhagwelir y bydd cerbydau awtonomaidd yn dechrau dod yn rhan o'n bywydau yn y 10 mlynedd nesaf, gyda rhai yn awgrymu mai ceir awto fydd y norm o amgylch 2017. Os bydd hyn yn digwydd, mae posib y bydd pobl yn symud i ffwrdd o berchen car ac yn prynu 'gwasanaethau teithio ar alw'. Gall gar awto gael ei logi am awr, am ddiwrnod, am benwythnos neu am wythnos neu ar gyfer siwrnai penodol. Er bod teithio mewn car yn graidd i dwristiaeth domestig, ychydig iawn o ddadansoddiad sydd o'r ffordd gall ceir awto effeithio ar gyrchfannau twristiaeth. Credir y bydd ceir awto yn cael goblygiadau ar y ffordd mae pobl yn teithio i gyrchfannau (gyda'r dewis i gysgu dros nos ar y siwrnai yn hytrach na stopio mewn gwestai ar siwrneiau hir), ac hefyd yn y ffordd mae ymwelwyr yn rhyngweithio ac yn crwydro cyrchfannau, er enghraifft drwy deithiau ymweld awtonomaidd.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a'r sail twristiaeth yn Llandudno, mae cludiant esmwyth i ac o fewn cyrchfannau yn fater strategol a fydd angen ei ystyried yn gynyddol. Bydd darpariaeth gwybodaeth ac isadeiledd mewn perthynas â thwristiaeth angen cael ei ddylunio a'i weithredu yn ofalus yn Llandudno er mwyn gallu apelio ar fwy o gwsmeriaid gyda llai o symudedd a galluoedd cyfathrebu cyfyngedig, er mwyn helpu twristiaid i lywio eu ffordd yn hyderus o amgylch y dref.

**Cydbwysedd Gwaith a Bywyd**

Mae newid nodedig o ran cydbwysedd gwaith a bywyd yn y 10-15 mlynedd diwethaf wrth i fwy a mwy o bobl newid eu patrymau gwaith er mwyn bodloni gofynion eraill ar amser. Yn 2015, roedd tua 4 miliwn o weithwyr yn gweithio o adref yn rheolaidd, cynnydd o 800,000 o'r flwyddyn flaenorol[42]. Mae'r cynnydd mewn gweithio hyblyg wedi cael ei yrru gan dechnolegau symudol newydd sy'n golygu gall bobl weithio wrth deithio neu o leoliadau eraill, yn arbennig ymysg y gweithwyr ifanc ac entrepreneuraidd. Yn ogystal â hynny, mae'r diwrnod gwaith 9am-5pm wedi mynd bron, gyda dim ond 6% o bobl yn y DU yn gweithio oriau o'r fath[43]. Yn hytrach na hynny, ffefrir diwrnod 8am-4pm neu hyd yn oed 7am-3pm, yn arbennig o ran rhieni gyda phlant ifanc; neu bobl sy'n gweithio 10-12 awr y diwrnod er mwyn casglu diwrnod gwyliau hyblyg yn gynt.

Mae'r ymarferion gweithio newydd hyn yn golygu ei bod yn bosibl i weithwyr adeiladu amser ychwanegol ar gyfer dibenion hamdden. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr amser yma yn ychwanegu at eu hawl i wyliau blynyddol, sy'n golygu ei fod yn cynrychioli amser hamdden newydd.

Ar y cyfan, y grŵp gweithwyr iau sy'n arwain y ffordd ar gyfer mwy o hyblygrwydd mewn patrymau gweithio. Ni ddisgwylir i hyn leihau wrth iddynt gyrraedd canol oed neu hŷn. Fel grŵp, mae disgwyl iddynt alw am fwy o hyblygrwydd oherwydd y galw cynyddol am ddyletswyddau rhianta a rennir, er enghraifft; a byddent yn disgwyl elwa o orfod gweithio tan yn hwyrach yn eu bywydau na'u rhagflaenwyr. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y galwadau diweddar gan Gyngres yr Undebau Llafur am wythnos waith 4 diwrnod[44].

Mae hyn i gyd yn awgrymu y bydd mwy o amser yn cael ei roi tuag at amser hamdden, ar gyfer dibenion personol a rhannu amser gyda theulu a ffrindiau. Yn ei dro, gall hyn arwain at fwy o teithiau diwrnod a gwyliau byr, ond fel yr uchod, bydd y gwyliau hyn angen bod â phwrpas. Yma, y bydd cyrchfannau megis Llandudno

[39] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/673177/young-peoples-travel-whats-changed-exec-summary.pdf
[40] http://fes.nationalgrid.com/
[41] https://www.zap-map.com/live/
[42] https://www.personneltoday.com/hr/one-seven-now-working-home/
[43] https://www.bbc.co.uk/news/business-45253060
[44] https://www.tuc.org.uk/news/tuc-calls-new-tech-pave-way-shorter-working-week-and-higher-pay

angen archwilio eu cynnig er mwyn penderfynu os ydynt yn gweddu'r math hwn o angen cynyddol. Yn ogystal â hynny, bydd y cynnydd mewn gweithwyr digidol teithiol yn awgrymu bod argaeledd Wi-Fi am ddim a chysylltedd symudol o fewn sefydliadau megis gwestai, caffis, llyfrgelloedd cyhoeddus a'r parth cyhoeddus o fudd i weithwyr hyblyg.

**Technoleg**

Mae cynnydd mewn technoleg a'i ddylanwad ar dwristiaeth yn debygol o barhau dros y cyfnod a ragwelir. Gall arloesedd technolegol newid profiadau twristiaeth, un ai yn radical neu yn gynyddrannol, o ran y ffordd mae pobl yn gweithio o fewn y sector, a chodi cwestiynau am y ffordd orau o reoli'r newidiadau hyn.

Yn y tymor byr, bydd angen i ddarparwyr feddwl mewn ffordd "clyfar" er mwyn addasu i ofynion newidiol ymwelwyr. Gall hyn amrywio o bresenoldeb ar-lein, galluogi i bobl gyrraedd a gadael ar-lein (byddai 66% o ymwelwyr domestig yn dewis un gwesty dros un arall pe gallent ddewis eu hystafell ymlaen llaw) i apiau a ffilteri cyrchfannau ac atyniadau. Bydd cyrchfannau hefyd angen cystadlu gyda'r cynnydd mewn economi a rennir, sy'n amharu ar ecosystem twristiaeth, yn arbennig yn y farchnad llety (Airbnb), a all gyflwyno heriau ar gyfer darparwyr llety traddodiadol.

Yn yr hirdymor, mae nifer o dueddiadau yn debygol o ddatgloi mwy o gyfleoedd i wneud teithio yn fwy fforddiadwy, effeithlon ac yn hygyrch i nifer o bobl.

**Rhyngrwyd Dyfeisiau** – Y rhyngrwyd dyfeisiau yw'r rhwydwaith o wrthrychau, dyfeisiau, cerbydau, adeiladau ac eitemau eraill – sydd wedi'u gosod gydag electroneg**,** meddalwedd, synwyryddion a chysylltedd rhwydwaith sy'n galluogi'r gwrthrychau hyn i gasglu a chyfnewid data. Mae hyn wedi cael nifer o ddylanwadau o fewn y diwydiant twristiaeth, o ran y cynnyrch twristiaeth megis galluogi ffonau clyfar fel goriadau ystafelloedd, ddarparu apiau symudol twristiaeth a galluogi rheoli tymheredd ystafell mewn gwesty trwy ddyfeisiau clyfar er mwyn creu teimlad mwy cartrefol i westeion a fydd yn fwy tebygol o ddychwelyd[45]. Gall dwristiaid ganfod atyniadau neu fwytai lleol sy'n eu gweddu nhw, ac mae'r gallu i gasglu data yn caniatáu argymhellion wedi'u teilwra i westeion, gan wella safon y gwasanaeth[46].

Bydd Rhyngrwyd Dyfeisiau yn galluogi cwmnïau i ddefnyddio dadansoddiad data i ddeall anghenion eu cwsmeriaid ac i ddylunio cynnyrch twristiaeth sy'n cyd-fynd ag anghenion y cwsmeriaid gan gyflawni bodlonrwydd cwsmeriaid uwch. Gyda chenedlaethau newydd o dwristiaid gyda lefelau llai o ffyddlondeb, bydd hyn yn gynyddol bwysig er mwyn denu ymwelwyr dychwel. Yn ogystal â hynny, mae dadansoddi data yn helpu i wella effeithlonrwydd busnes, gwella gwasanaeth i gwsmeriaid ac yn gwneud arbedion gan arwain at brofiadau o safon uwch a gwerth am arian, sydd wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth ar gyfer y mwyafrif o ymwelwyr domestig wrth ddewis cyrchfan gwyliau.

**Realiti Estynedig a Rhithiol** – Mae twristiaeth yn un o'r ychydig o bethau mae pobl yn prynu yn seiliedig ar wybodaeth yn unig, gyda gwyliau neu ymweliad yn seiliedig ar farn y wybodaeth maent yn ei dderbyn. Felly, mae elfen o risg bob amser yn gysylltiedig a phenderfyniadau twristiaeth. Mae realiti rhithiol yn cynnig ffordd i leihau'r risg drwy alluogi cwsmeriaid i weld, clywed a hyd yn oed teimlo profiadau o fewn cyrchfan. Gall ddefnyddwyr 'gerdded o amgylch' ystafell mewn gwesty neu atyniad; profi taith ar 'weiren wib' neu eirafyrddio i lawr mynydd; ond heb orfod gadael eu cartref eu hunain. Gall realiti rhithiol hefyd ddod â hanes coll yn ôl yn fyw drwy gynnig ffordd o deithio yn ôl mewn amser fel y gall ddefnyddwyr gael gwell dealltwriaeth o gymdeithas a bywydau yn yr oes a fu.

Mae Realiti Estynedig hefyd yn dechnoleg gyda photensial mawr o safbwynt twristiaeth. Mae realiti estynedig eisoes yn cael ei integreiddio i lwybrau cerdded/mapiau OS mewn ffordd effeithiol[47], gyda data allweddol ar gael ar lwybrau/ffyrdd, pellter ac uchder ac ati, drwy edrych ar dirlun drwy ddyfais symudol. Mewn modd tebyg, mae lleoliadau yn dod yn haws i'w llywio drwy ddefnyddio realiti estynedig, gyda Lonely Planet yn datblygu cyfres o Ganllawiau Dinasoedd sy'n defnyddio realiti estynedig.

**Deallusrwydd Artiffisial** – Mae deallusrwydd artiffisial yn ddatblygiad technolegol arall sy'n debygol o esblygu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae Deallusrwydd Artiffisial sgyrsiol eisoes yng nghartrefi defnyddwyr, gyda rhyngwynebau llais megis Google Homes, Alexa gan Amazon a Siri gan Apple yn dod yn fwy soffistigedig yn eu gallu i gefnogi ffyrdd o fyw. Gall hyn gynnwys rhoi negeseuon atgoffa, creu rhestrau siopa, rheoli systemau'r cartref (e.e. gwres, golau, teledu ac ati) a hyd yn oed prynu.

[45] https://www.cabdirect.org/cabdirect/abstract/20173162331
[46] http://www.ijrter.com/papers/volume-2/issue-4/internet-of-things-to-promote-tourism-an-insight-into-smart-tourism.pdf
[47] https://www.ordnancesurvey.co.uk/blog/2017/10/bringing-augmented-reality-os-maps/

Wrth i dechnoleg ddatblygu, disgwylir i ddeallusrwydd artiffisial gael ffurf gorfforol mewn arddull robotiaid. Disgwylir i'r robotiaid hyn berfformio tasgau penodol, gan gynnwys swyddogaethau allweddol mewn gwestai, bwytai ac atyniadau. Mae Gwesty Henn na yn Japan wedi cymryd y cam hwn yn barod. Agorodd y gwesty yn 2015 ac mae deallusrwydd artiffisial yn darparu profiad cyrraedd, trosglwyddo bagiau i ystafelloedd a swyddogaethau cadw bagiau. Mae dyfeisiau adnabod wynebau hefyd yn caniatáu mynediad i ystafelloedd heb orfod defnyddio goriadau[48]. Disgwylir i ddeallusrwydd artiffisial hefyd gael ei gyflwyno i agweddau eraill o dechnoleg, gan gynnwys ffonau clyfar. Mae awgrym y gall ddeallusrwydd artiffisial chwyldroi dyfeisiau symudol ar eu ffurf cyfredol, gyda'r posibilrwydd o gael technoleg y gellir ei wisgo (e.e. oriawr a sbectol) fel y gall defnyddwyr siarad â nhw er mwyn helpu i reoli eu bywydau. Ynghyd ag algorithmau sy'n dadansoddi ymddygiad a dewisiadau, credir y gall deallusrwydd artiffisial archebu y math o westy a ffefrir, hediad neu hyd yn oed wyliau, yn seiliedig ar ychydig o orchmynion y llais.

Wrth i dechnoleg ddatblygu a dod yn fwy integredig, rhagwelir y bydd technoleg yn cael ei ddefnyddio i siapio ein teithiau, gwyliau ac ymweliadau byr bron yn gyfan gwbl. Er enghraifft, mae'n bosibl y gall:

- Ddeallusrwydd artiffisial ddynodi bod angen gwyliau neu egwyl fer ar unigolyn, yn seiliedig ar ddata meddygol a gofnodir yn ddyddiol, megis straen, cyfraddau'r galon neu anadlu, neu gan ei fod yn cydnabod bod pen-blwydd arbennig neu ddigwyddiad arbennig;
- Deallusrwydd artiffisial wneud awgrymiadau am gyrchfannau yn seiliedig ar ddewisiadau a gorchmynion, megis 'gwyliau byr', gwyliau dinas', 'gwyliau teuluol yn yr haul' ac ati;
- Bydd deallusrwydd artiffisial yn golygu dod i adnabod ac archwilio cyrchfan cyn cyrraedd;
- Bydd deallusrwydd artiffisial yn rhoi gwybodaeth fwy cyfoethog a dwfn ar ddiwylliant, hanes a'r pethau i'w gwneud a'u gweld yn y cyrchfan.
- Bydd deallusrwydd artiffisial yn canfod y profiadau mwyaf boddhaol sydd gan gyrchfan i'w gynnig; a
- Bydd deallusrwydd artiffisial yn gwneud arhosiad mewn llety yn haws ac yn fwy cyfforddus.

Felly, cwestiwn pwysig ar gyfer unrhyw gyrchfan, gan gynnwys Llandudno, yw pa mor 'ymwybodol' fydd deallusrwydd artiffisial o'r cyrchfan. A yw Llandudno yn cael ei 'weld' yn y byd digidol a sut ellir rheoli hyn yn well?

Mae cwestiwn arall yn ymwneud â pha mor barod yw Llandudno am dechnoleg. A yw'n hygyrch i ffonau clyfar? A oes unrhyw fannau gwan i dderbyn data? A yw realiti rhithiol yn bodoli er mwyn helpu i hyrwyddo ac ychwanegu dealltwriaeth dyfnach i ymwelwyr posibl? A ellir addasu/defnyddio realiti rhithiol neu realiti estynedig ar gyfer atyniadau er mwyn darparu profiad aml-synhwyrau? A yw realiti estynedig ar gael i helpu ymwelwyr lywio Llandudno yn well?

Disgwylir i rannau o'r dyfodol technolegol gael ei integreiddio i'r sector dwristiaid; fodd bynnag bydd y lefel o dechnoleg ymhob cwmni yn dibynnu ar eu strategaeth a safle. Ar gyfer cwmnïau yn Llandudno, bydd heriau megis dewis y dechnoleg mwyaf priodol ar gyfer gwesteion, osgoi'r agweddau negyddol o ddefnyddio technoleg. Fodd bynnag, gyda nifer o ddarparwyr lleol yn Llandudno yn rhai bach, mae posib bod diffyg amser a gwybodaeth er mwyn addasu wrth barhau i weithredu, tra bod angen cyflenwad ac ansawdd band eang a rhwydweithiau symudol hefyd. Bydd addasiadau technolegol yn ffactor bwysig wrth geisio denu ymwelwyr newydd i Landudno, yn arbennig yn y grwpiau oedran iau.

**Gweithgareddau**

Fel y nodwyd yn y dadansoddiad demograffeg, mae profiadau a gweithgareddau yn dod yn agweddau cynyddol bwysig o ymweliad. Mae adroddiad a gwblhawyd gan 'Sport England', "Getting Active Outdoors", yn archwilio cyfranogiad presennol ac yn y dyfodol mewn chwaraeon a hamdden yn Lloegr. Gan fod 84% o dwristiaeth domestig i Gymru yn dod o Loegr; cynigir bod y wybodaeth ganlynol yn berthnasol er mwyn deall tueddiadau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n effeithio ar y farchnad twristiaeth.

- Mae 'chwaraeon ffordd o fyw' (e.e. beicio mynydd a ffordd, syrffio barcud, syrffio, bordhwylio, rafftio, rhaffau uchel, bmx, mynydda, cerdded caled a chanŵio/caiacio) yn apelio at y rhai sy'n awyddus i gyfranogi mewn rhyw ffurf o weithgareddau yn y dyfodol agos (h.y. yn y 12 mis nesaf);
- Mae'r rhai sy'n cyfranogi mewn chwaraeon ffordd o fyw mewn grŵp cyfyngedig ar hyn o bryd (15-34 oed; dynion yn bennaf; yn sengl heb blant), ond mae'r ddemograffeg yn ehangu ac mae hyn yn debygol o barhau;

[48] http://www.h-n-h.jp/en/concept/

- Bydd pobl ifanc yn cael eu denu'n gynyddol i weithgareddau sy'n eu galluogi i ryngweithio a threulio amser gyda ffrindiau. Rhaid i'r gweithgareddau hyn fod yn syml i'w trefnu, yn ddeniadol, hygyrch ac mewn lleoliadau diddorol.
- Mae twf mewn gweithgareddau antur trefol lleol a micro, gyda waliau dringo a pharciau sglefrio (tu allan am ddim a thu mewn masnachol). Mae cyfuniad o ymarfer corff hwyliog a heriol yn golygu bod y cyfleusterau hyn yn cael eu hystyried fel dewis arall yn hytrach na mynd i'r gampfa.
- Mae cyfuno gweithgareddau yn debygol o ddod yn gynyddol bwysig. Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu bod rhai 'gweithgareddau porth' allweddol sy'n arwain at ffurfiau eraill o weithgareddau. Er enghraifft, mae cerdded mynyddoedd yn debygol o gael ei gyfuno â beicio mynydd, gwersylla a nofio tu allan. Fodd bynnag, nid yw'r rhai sy'n gwneud chwaraeon dŵr penodol (e.e. syrffio neu hwylio) yn tueddu i gymysgu gyda chwaraeon dŵr eraill.

Er nad yw Llandudno ar hyn o bryd yn enwog fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau, nid yw hynny'n golygu nad oes gan y dref unrhyw asedau gweithgareddau. Mae nifer o lwybrau cerdded a beicio o amgylch y Gogarth ac mae'n bosibl cymryd rhan mewn gweithgareddau sgïo, eirafyrddio, tobogan ac eira-diwbio yng Nghanolfan Chwaraeon Eira Llandudno. Yn bwysicach na hynny, mae Llandudno wedi'i gysylltu yn uniongyrchol â Môr Iwerddon, gan ddarparu mynediad i amrywiaeth o chwaraeon dŵr a gweithgareddau, megis nofio dŵr agored, caiacio, syrffio barcud a hwylio, ac mae hefyd ger Parc Cenedlaethol Eryri, y bedwaredd Parc Cenedlaethol uchaf yn y DU o ran lefelau effaith economaidd oherwydd gweithgareddau twristiaeth (£475.69m yn 2015[49]). Mae denu'r farchnad weithgareddau yn ganolbwynt allweddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ac yn un a fydd yn parhau yn yr hirdymor (h.y. 10-20 mlynedd). Mae atyniadau ehangach hefyd, megis Surf Snowdonia, Zip World Fforest a darpariaeth chwaraeon dŵr ym Mae Colwyn.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cefndir hwn, nid yw Llandudno ei hun wedi codi fel canolfan weithgareddau; ar gyfer selogion chwaraeon dŵr yn yr un ffordd â Weymouth ar arfordir deheuol Lloegr; nac wedi sefydlu ei hun fel porth neu ganolbwynt i Eryri yn yr un ffordd â Buxton, Matlock neu Ashbourne (nad ydynt o fewn ffin y Parc Cenedlaethol) yn Ardal y Mynyddoedd. Mae'n amlwg bod gan Llandudno y potensial hwn, a bod y cynhwysion craidd – llety, adloniant, cludiant, ac atyniadau – i gyd yn eu lle i gefnogi'r sectorau gweithgareddau hyn. Y rhwystr mwyaf yw canfyddiad, o fewn y sectorau busnes ac o'r farchnad gweithgareddau ehangach sydd eto i weld Llandudno yn y modd hwn.

O apêl cerdded, i'r niferoedd cynyddol o ddiddordebau arbenigol sy'n golygu buddsoddiad sylweddol o ran amser ac arian, bydd y sector gweithgareddau yn parhau yn ganolog i dwristiaeth yn seiliedig ar brofiadau. Yn fwy na hyn, mae cam nesaf twristiaeth sy'n seiliedig ar brofiadau, sef 'twristiaeth cyflawniad' lle mae diben y gwyliau yw cyflawni nod neu ddilyn diddordeb sydd heb ei gyflawni o'r blaen. O ystyried lleoliad Llandudno, dylai targedu'r farchnad weithgareddau ehangach – ar gyfer cyfuniad o wahanol weithgareddau – fod yn flaenoriaeth ar gyfer gweledigaeth twristiaeth gyffredinol y dref, gyda'r sector gweithgareddau yn ganolog i ddatblygiad twristiaeth yn y dyfodol dros y cyfnod a ragwelir.

### 4.3 Crynodeb

- Disgwylir i dueddiadau presennol penodol, megis cynnydd mewn teithio yn seiliedig ar weithgareddau a phrofiadau, rôl technoleg wrth ddewis cyrchfan a gwyliau rhyng-genedlaethol barhau i gryfhau yn ystod y cyfnod a ragwelir.
- Mae newid mewn demograffeg, a'r boblogaeth sy'n heneiddio, yn awgrymu y bydd angen i gyrchfannau ganolbwyntio ar eu hygyrchedd a'r gefnogaeth a gynigir wrth i'r cenedlaethau hŷn ddod yn fwy actif ac addasu i ddefnyddio technoleg.
- Mae ffocws cynyddol ar gymdeithasu ymysg ymwelwyr, sydd wedi'u hybu gan y cynnydd o deithwyr sengl ac annibynnol, a'r dyhead am gael profiad "lleol".
- Mae'r ansefydlogrwydd economaidd yn effeithio milflwyddwyr ar hyn o bryd, ac mae colled cynlluniau pensiwn mwy buddiol yn awgrymu llai o gyfoeth ymysg cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyblygrwydd yn allweddol ar gyfer addasu i agweddau sy'n newid o ran costau, gyda mynegiannau presennol yn awgrymu newid i ddewisiadau llety mwy cost effeithiol, a dyrannu mwy o wariant tuag at brofiadau.
- Mae rôl gynyddol technoleg o fewn isadeiledd twristiaeth yn arwain at integreiddio technolegau newydd megis realiti estynedig/realiti rhithiol a'r disgwyl am wasanaethau ar-alw. Mae cynnydd mewn AI a Rhyngrwyd Dyfeisiau yn awgrymu y gellir targedu twristiaid yn fwy effeithiol ar gyfer cyrchfannau gweithredol.

[49] Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri – Dogfen Ymgynghori, 2018

- Mae newid mewn arferion gweithio a mwy o hyblygrwydd yn awgrymu y bydd mwy o amser yn cael ei roi ar gyfer amser hamdden yn y dyfodol. Gall hyn yn ei dro, arwain at fwy o deithiau dydd a gwyliau byr.
- Disgwylir i'r patrymau hyn gael effaith sylweddol ar y sector twristiaeth yn Llandudno a marchnadoedd eraill. Bydd perfformiad yn y dyfodol o fewn y sector yn dibynnu ar sut fydd y drefn yn addasu i'r "realiti newydd" wrth gynnal gyrwyr twristiaeth yn lleol – agwedd unigryw Llandudno, y tirlun, treftadaeth a chryfder ei asedau allweddol, megis ansawdd amgylchedd naturiol Llandudno. Bydd yr adran ganlynol yn edrych ar ddyfodol y sector twristiaeth o ran nifer yr ymwelwyr, effeithiau economaidd a swyddi.

# 5. Rhagolygon Effaith Economaidd ac Ymwelwyr


## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu rhagolygon sy'n seiliedig ar senario twf isel a senario twf uchel. Mae hyn yn seiliedig ar y lefelau o dwf a ddisgwylir yn yr economi a thwf y boblogaeth ar draws y DU a sut mae hyn yn effeithio ar niferoedd yr ymwelwyr. Dylid nodi nad yw'r dadansoddiad hwn yn modelu unrhyw sioc a allai ddigwydd, er enghraifft effaith Brexit caled ar niferoedd y twristiaid neu debygolrwydd o ddirwasgiad economaidd yn y dyfodol. Nid yw ychwaith yn ystyried cyfyngiadau o ran capasiti o fewn Llandudno a'i allu i letya ymwelwyr – felly mae'n tybio bod y twf posibl yn y farchnad twristiaeth pe byddai Llandudno yn addasu yn unol â hyn.

Ynghyd â'r data a gyflwynir isod, bydd offeryn modelu economaidd yn cael ei ddosbarthu i CBSC fel rhan o'r comisiwn er mwyn ei ddefnyddio i lywio'r gweithgarwch uwchgynllunio yn y dyfodol.

## 5.2 Rhagolygon Nifer yr Ymwelwyr Dydd

**Ffigwr 12. Rhagolygon Ymwelwyr Dydd yn Llandudno**




Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae nifer yr ymwelwyr dydd i Landudno wedi codi o 2.23 miliwn i 2.84 miliwn, yn seiliedig ar ganfyddiadau a wneir mewn perthynas â data ar lefel sir, gyda pherfformiad arbennig o gryf yn 2009, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn teithiau dydd domestig o ganlyniad i'r dirwasgiad, a pherfformiad cryf rhwng 2013 a 2015 wrth i'r economi gryfhau dros y cyfnod hwn.

**Tabl 5. Twf Ymwelwyr Dydd – Senarios Twf Uchel ac Isel**

| | Senario Uchel | | Senario Isel | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr Ymwelwyr Dydd | Twf | Nifer yr Ymwelwyr Dydd | Twf |
| 2018 | 2.88 | - | 2.88 | - |
| 2023 | 3.07 | 1.29% | 3.03 | 1.11% |
| 2028 | 3.30 | 1.46% | 3.18 | 0.97% |
| 2045 | 4.08 | 1.25% | 3.66 | 0.83% |


O dan y senario twf uchel, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y nifer o ymwelwyr dydd yn debygol o gynyddu o 2.88 miliwn yn 2018 i 3.07 miliwn yn 2023, gan gynrychioli twf blynyddol cyfartalog o 1.29%. Hyd at 2028, mae twf yn debygol o gynyddu bron i 1.46% y flwyddyn, wedi'i hybu gan newid yn y boblogaeth, gyda

niferoedd yr ymwelwyr dydd blynyddol yn cyrraedd 3.30 miliwn. Mae ymwelwyr dydd yn debygol o gyrraedd 4.08 miliwn erbyn 2045.

O dan y senario twf isel, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y nifer o ymwelwyr dydd yn debygol o gynyddu o 2.88 miliwn yn 2018 i 3.03 miliwn yn 2023, gan gynrychioli twf blynyddol cyfartalog o 1.11%. Erbyn 2045, mae nifer yr ymwelwyr dydd i Landudno yn flynyddol yn debygol o gyrraedd 3.66 miliwn.

### 5.3 Rhagolygon Teithiau Dros Nos

**Ffigwr 13. Rhagolygon Teithiau Dros Nos i Landudno**




Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld twf sylweddol yn y nifer o deithiau dros nos i Landudno, yn codi o 355,000 yn 2008 i 423,000 yn 2015. Er bod nifer yr ymwelwyr dydd wedi cynyddu yn ystod y dirwasgiad, cynyddodd nifer y teithiau dros nos yn nodedig wrth i'r economi adfer, gyda chynnydd sylweddol o 15.5% rhwng 2012 a 2013.

**Tabl 6. Twf mewn Teithiau Dros Nos – Senarios Twf Uchel ac Isel**

| | Senario Uchel | | Senario Isel | |
|---|---|---|---|---|
| | Teithiau Dros Nos Ymwelwyr | Twf | Teithiau Dros Nos Ymwelwyr | Twf |
| 2018 | 440,289 | - | 431,986 | - |
| 2023 | 464,295 | 1.07% | 445,951 | 0.64% |
| 2028 | 489,029 | 1.04% | 462,918 | 0.75% |
| 2045 | 561,339 | 0.81% | 513,415 | 0.61% |


Mae'r senario twf uchel yn awgrymu bod y nifer o deithiau dros nos i Landudno yn debygol o gynyddu o 440,289 yn 2018 i 464,295 yn 2023, sy'n cynrychioli twf cymedrol o 1.07% y flwyddyn. Yn ystod cyfnod o 5 mlynedd rhwng 2023 a 2028, mae'r twf yn debygol o barhau ar 1.04% y flwyddyn gyda theithiau dros nos yn cyrraedd 489,029, oherwydd rhagolygon twf economaidd cadarn a thwf uchel yn y grŵp 65+ yn ystod y cyfnod hwn. Yna disgwylir i'r twf gymedroli ychydig, gyda niferoedd yr ymwelwyr dros nos yn cyrraedd 561,339 erbyn 2045.

O dan y senario twf isel disgwylir i deithiau dros nos gynyddu o 431,986 yn 2018 i 445,951 yn 2023, gan gynrychioli twf o 0.64% y flwyddyn. Mae disgwyl i gyfanswm y teithiau dros nos gyrraedd 513,415 erbyn 2045, 90,415 yn fwy na gofnodwyd yn 2015.

Fodd bynnag, mae'r nifer o deithiau dros nos yn debygol o amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar fuddsoddiad yn y stoc llety. Er enghraifft, gall fuddsoddiad i ddod â gwesty brand er mwyn cefnogi'r farchnad cynhadledd yn Llandudno arwain at gynnydd mawr mewn twristiaeth busnes, pe byddai'r galw o fewn y sector cynadledda a digwyddiadau yn ddigonol.

### 5.4 Rhagolygon Demograffeg Ymwelwyr

**Ffigwr 14. Rhagolygon Newid mewn Proffil Ymwelwyr yn Llandudno**




Mae proffil ymwelwyr Llandudno wedi ei ddominyddu gan y ddemograffeg 65+, a oedd yn cyfrif am 42.4% o ymwelwyr yn 2017. Mae rhagolygon poblogaeth yn awgrymu y bydd twf sylweddol yn y ddemograffeg hon dros y 25 mlynedd nesaf, yn tyfu ar gyfartaledd o 1.56% y flwyddyn ar draws y DU o'i gymharu â 0.4% ar draws bob oedran.

**Tabl 7. Newid mewn Proffil Ymwelwyr 2018 i 2045**

| | 2018 | 2023 | 2028 | 2045 |
|---|---|---|---|---|
| 18-24 | 4.9% | 4.4% | 4.6% | 4.3% |
| 25-34 | 10.1% | 9.7% | 8.7% | 8.7% |
| 35-44 | 9.0% | 9.2% | 9.2% | 7.7% |
| 45-54 | 14.9% | 12.9% | 11.9% | 12.1% |
| 55-64 | 18.4% | 19.4% | 18.8% | 16.0% |
| 65+ | 42.7% | 44.3% | 46.9% | 51.1% |

Wrth edrych ar ragolygon poblogaeth ar draws lleoliadau cartref ymwelwyr Llandudno, awgrymir y bydd y ddemograffeg hon yn cynyddu yn ei bwysigrwydd, yn codi o 42.7% yn 2018 i 44.3% yn 2023. Os fydd proffil ymwelwyr yn datblygu yn unol â'r newid mewn demograffeg, gall y cyfran o ymwelwyr 65+ gynyddu o 51.1% erbyn 2045. Rhagwelir y bydd y grŵp oedran 55-64 yn cynyddu yn y tymor byr/canolig, gan godi o 18.4% o ymwelwyr yn 2018 i 18.85 yn 2028 cyn disgyn yn ôl i 16.0% yn 2045. Mae tystiolaeth o batrwm tebyg yn y grŵp oedran 35-44, gan godi rhwng 2018 a 2028 cyn disgyn yn ôl erbyn 2045.

I'r gwrthwyneb, mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu bod y grwpiau oedran 18-24, 25-34 a 45-54 yn debygol o ddisgyn o ran cyfran yr ymwelwyr i Landudno y mae'r grwpiau oedran hyn yn cyfrif amdanynt. Fodd bynnag, gyda niferoedd o ymwelwyr yn debygol o gynyddu dros y cyfnod hwn, mae'r nifer o ymwelwyr absoliwt o'r grwpiau oedran hyn yn debygol o gynyddu.

### 5.5 Rhagolygon Proffil Gwario

**Tabl 8. Rhagolygon Proffil Gwariant ar gyfer Ymwelwyr Dydd bob Grŵp Oedran**

| Oedran | Senario Uchel | | | | Senario Isel | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018 | 2023 | 2028 | 2045 | 2018 | 2023 | 2028 | 2045 |
| **18-24** | £26 | £28 | £29 | £34 | £26 | £27 | £28 | £31 |
| **25-34** | £39 | £41 | £44 | £51 | £39 | £40 | £42 | £47 |
| **35-44** | £39 | £41 | £44 | £52 | £39 | £40 | £42 | £47 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **45-54** | £39 | £41 | £43 | £51 | £38 | £40 | £42 | £47 |
| **55-64** | £34 | £36 | £39 | £45 | £34 | £35 | £37 | £41 |
| **65+** | £30 | £31 | £33 | £39 | £30 | £31 | £32 | £36 |

Mae rhagolygon proffil gwariant ar gyfer ymwelwyr dydd yn awgrymu darlun cymysg ar gyfer Llandudno. Ar un llaw, mae'r dref yn denu cyfran weddol fychan o ymwelwyr (4.9%) o'r demograffeg oedran 18-24, sydd â'r gwariant isaf o unrhyw grŵp, a chyfran gweddol (14.9%) o fewn y demograffeg oedran 45-54 sydd â'r gwariant cyfartalog uchaf (£39). Fodd bynnag, y demograffeg oedran 65+, sy'n cyfrif am 42.7% o holl ymwelwyr i Landudno, sydd â'r cyfartaledd gwariant isaf ond un. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu newid oddi wrth ymwelwyr dydd yn y ddemograffeg 65+ tuag at y grŵp oedran 45-54 a 55-54 a fydd yn fanteisiol ar gyfer Llandudno, yn yr un modd y byddai denu'r farchnad cyplau a theuluoedd ifanc, sy'n debygol o ddisgyn o fewn y grŵp oedran 25-34 a 35-44.


**Tabl 9. Rhagolygon Proffil Gwariant ar gyfer Ymwelwyr Dros Nos bob Grŵp Oedran**

| Oedran | Senario Uchel | | | | Senario Isel | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018 | 2023 | 2028 | 2045 | 2018 | 2023 | 2028 | 2045 |
| **18-24** | £183 | £194 | £206 | £242 | £182 | £189 | £197 | £221 |
| **25-34** | £195 | £207 | £219 | £258 | £194 | £202 | £210 | £236 |
| **35-44** | £176 | £187 | £198 | £233 | £176 | £182 | £190 | £213 |
| **45-54** | £214 | £227 | £240 | £283 | £213 | £221 | £230 | £258 |
| **55-64** | £218 | £231 | £245 | £288 | £217 | £225 | £235 | £264 |
| **65+** | £201 | £213 | £226 | £266 | £200 | £208 | £216 | £243 |

Wrth edrych ar broffil gwariant bob taith fesul oedran, mae tuedd gadarnhaol ar gyfer Llandudno, gyda'r grwpiau oedran 55-64 a 65+ ymysg y gwariant uchaf bob taith o'r holl grwpiau oedran. O dan y senario uchel, mae gwariant fesul taith yn debygol o gynyddu i £284 ar gyfer y grŵp oedran 55-64 a £262 ar gyfer y grŵp oedran 65+. Mae gan y grŵp oedran 16-24, 25-34 a 45-54 wariant cyfartalog uchel fesul taith, gan awgrymu bod y farchnad cyplau yn faes buddiol i barhau i ganolbwyntio arno yn Llandudno.

### 5.6 Rhagolygon Effaith Economaidd

**Ffigwr 15. Rhagolygon Effaith Economaidd Twristiaeth yn Llandudno**





Effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno oedd £384 miliwn yn 2017. O dan y senario twf uchel mae'n debygol o gynyddu i £411.8 miliwn erbyn 2023, gyda thwf cyfartalog o 1.17% y flwyddyn. Dros y 5 mlynedd nesaf i 2028, mae twf yn debygol o gynyddu i 1.20%, gydag effaith economaidd yn cynyddu i £437.2 miliwn. Hyd at 2045, disgwylir i'r twf gymedroli ychydig gyda chwymp mewn twf y boblogaeth 55+, gydag effaith economaidd yn dod i £513.6 – cynnydd o £129.6 miliwn ar yr effaith economaidd a gofnodwyd yn 2017.

O dan y senario twf isel, mae disgwyl i dwf gynyddu i £401.7 miliwn erbyn 2023, twf o 0.75% y flwyddyn. Bydd y twf hwn yn cynyddu ychydig hyd at 2028, pan fydd yr effaith economaidd yn cyrraedd £418.7 miliwn. Yna bydd twf cyfartalog yn 0.7% hyd at 2045, pan fydd yr effaith economaidd yn £469.6 miliwn. Bydd hyn yn dal i gynrychioli cynnydd o £85.6 miliwn ar effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno yn 2017.

### 5.7 Rhagolygon Niferoedd Swyddi

**Ffigwr 16. Rhagolygon Swyddi Twristiaeth yn Llandudno**




Mae'r rhagolygon swyddi o dan y senarios uchel ac isel yn wahanol iawn na'r rhagolygon twf economaidd oherwydd rôl technoleg ar greu swyddi o fewn y diwydiant twristiaeth. O dan y senario twf uchel, mae niferoedd swyddi yn codi yn unol ag effaith economaidd y diwydiant twristiaeth yn Llandudno, a dyma yw'r achos ym mherfformiad diweddar Llandudno. Bydd nifer y swyddi yn codi o 5,291 yn 2018 i 5,605 yn 2023, twf o 1.2%. Erbyn 2045 bydd ffigyrau swyddi yn cyrraedd 6,990, cynnydd o 32.1% ar lefelau 2018.

O dan y senario twf isel, rhagwelir y bydd technoleg yn chwarae rôl hollbresennol yn y farchnad swyddi twristiaeth. Mae hyn eisoes wedi cael ei weld yn y sector llety, drwy gofrestru rhithiol, a'r sector atyniadau a bwyd a diod drwy archebion rhithiol, sy'n lleihau'r angen am weithwyr i gyflawni tasgau penodol. Yn ogystal â hynny, gan fod manwerthu yn canolbwyntio'n gynyddol ar-lein, mae rôl y sector manwerthu i hybu swyddi hefyd yn debygol o leihau. Erbyn 2045, mae'r senario isel yn rhagweld y bydd cyflogaeth twristiaeth yn codi i 6,188 sydd yn dal yn gynnydd sylweddol ar lefelau 2018.

### 5.8 Senarios Eraill ar gyfer Twf Economaidd

Fel y nodwyd yn yr adran rhagolygon proffil gwariant, gall broffil demograffeg ymwelwyr Llandudno gael effaith nodedig ar effaith economaidd twristiaeth ar yr ardal leol, drwy'r gwariant mae'r grwpiau demograffeg hyn yn ei greu. Er mwyn dangos hyn, cyflwynir senarios eraill isod lle mae demograffeg ymwelwyr yn newid ychydig o'r grŵp oedran 65+ i fwy o ymwelwyr o'r grŵp oedran 55-64. Fel arall, mae proffil ymwelwyr yn aros yn debyg i'r hyn a gofnodwyd yn Llandudno yn 2017.


**Tabl 10. Sylfaen v proffil demograffeg amgen**

| | Senario Sylfaenol | Senario Amgen |
|---|---|---|
| 18-24 | 5% | 5% |
| 25-34 | 10% | 10% |
| 35-44 | 9% | 10% |
| 45-54 | 15% | 15% |
| 55-64 | 18% | 25% |
| 65+ | 42% | 35% |

Mae'r senario amgen yn dangos y bydd newid i ffwrdd o'r ddemograffeg oedran 65+ tuag at y grŵp oedran 55-64 yn cynyddu effaith economaidd twristiaeth, sy'n cael ei hybu gan wariant cyfartalog uwch gan ymwelwyr dydd a dros nos yn y ddemograffeg hon. Gan dybio newid graddol tuag at y ddemograffeg newydd o dan y senario amgen:

- Senario Uchel – bydd yr effaith economaidd yn cynyddu i £526.6 miliwn erbyn 2045 o'i gymharu â £513.6 miliwn o dan y senario sylfaenol.
- Senario Isel – bydd yr effaith economaidd yn cynyddu i £481.5 miliwn erbyn 2045 o'i gymharu â £469.6 miliwn o dan y senario sylfaenol.

**Ffigwr 17. Rhagolygon Effaith Economaidd Llandudno – Proffil Oedran Amgen**




Gall broffil bywyd ymwelwyr Llandudno hefyd gael effaith nodedig ar effaith economaidd twristiaeth ar yr ardal leol drwy wariant y mae'r categorïau o ymwelwyr yn ei gynhyrchu. Cyflwynir senario amgen isod lle mae proffil bywyd ymwelwyr yn symud i ffwrdd o'r farchnad pobl sengl gyda mwy o ymwelwyr yn gyplau a theulu gyda phlant ifanc.


**Tabl 11. Sylfaenol v proffil bywyd amgen**

| | Senario Sylfaenol | Senario Amgen |
|---|---|---|
| Sengl | 24% | 10% |
| Cyplau | 65% | 70% |
| Teulu gyda phlant ifanc | 7% | 15% |
| Teulu gyda phlant hŷn | 4% | 5% |

Mae'r senario amgen yn dangos y bydd newid i ffwrdd o bobl sengl tuag at gyplau a theuluoedd gyda phlant ifanc yn cynyddu effaith economaidd twristiaeth, sy'n cael ei hybu gan wariant cyfartalog uwch gan ymwelwyr dydd a dros nos yn y ddemograffeg hon. Gan dybio newid graddol tuag at y ddemograffeg newydd o dan y senario amgen:

- Senario Uchel – bydd yr effaith economaidd yn cynyddu i £529.5 miliwn erbyn 2045 o'i gymharu â £513.6 miliwn o dan y senario sylfaenol.
- Senario Isel – bydd yr effaith economaidd yn cynyddu i £484.1 miliwn erbyn 2045 o'i gymharu â £469.6 miliwn o dan y senario sylfaenol.

**Ffigwr 18. Rhagolygon Effaith Economaidd Llandudno – Proffil Bywyd Amgen**





## 5.9 Crynodeb

- Mae Llandudno mewn sefyllfa dda o dan senario twf uchel, i barhau yn ei lwybr presennol o ran cynyddu niferoedd yr ymwelwyr ac effaith economaidd.
- O dan senario twf uchel, mae'r nifer o ymwelwyr dydd yn debygol o gynyddu o 2.88 miliwn yn 2018 i 4.08 miliwn yn 2045.
- Mae’r nifer o deithiau dros nos i Landudno yn debygol o godi o 440,289 yn 2018 i 561,339 erbyn 2045.
- Mae disgwyl i effaith economaidd twristiaeth yn Llandudno godi o £388.8 miliwn yn 2018 i £513.6 miliwn yn 2045.
- Mae’r amodau sy’n debygol o effeithio ar y farchnad swyddi yn awgrymu y bydd twf yn llai o ran telerau cyflogaeth.
- Mae newid mewn demograffeg yn awgrymu y gallai’r grŵp oedran 65+ gyfrif am dros 50% o ymwelwyr i Landudno erbyn 2045.
- Fodd bynnag, rhai bod yn ofalus wrth ddehongli’r ffigyrau a ragwelir. Gall ddadansoddiad cul awgrymu y bydd ffocws ar y grwpiau demograffig 55-64 a 65+ yn Llandudno, a dyma fydd yr achos yn y tymor byr. Fodd bynnag, ni fydd ffocws cul o’r fath yn ystyried yr angen i sicrhau dilyniant o ymwelwyr, drwy annog ymweliadau gan y genhedlaeth iau - er bod eu ffyddlondeb yn lleihau - gall hyn gael ei ailadrodd yng nghyfnodau diweddarach yn eu bywydau.
- Yn ogystal â hyn, mae’r cenedlaethau hŷn yn ystyried eu hunain fwyfwy fel pobl sy’n “ifanc am byth”. Os fydd Llandudno yn cael ei ddiffinio fel cyrchfan ar gyfer y genhedlaeth hŷn, gall hyn gael effaith negyddol ar ddenu cenedlaethau hŷn actif yn y dyfodol.

# 6. Asesiad Cymharu

## 6.1 Cyflwyniad

O fewn yr adran hon, rydym yn cyflawni asesiad i gymharu cyrchfannau twristiaeth gan weld sut mae'r rhain yn cymharu ac yn cyferbynnu gyda Llandudno. Y lleoliadau a ddewiswyd ar gyfer cymharu yw:




Dewiswyd y lleoliadau hyn er mwyn darparu lledaeniad o leoliadau yn seiliedig ar eu nodweddion unigol a datblygiad eu cynnig twristiaeth.

**Tabl 12. Crynodeb o gryfderau a gwendidau Llandudno mewn perthynas â lleoliadau cymharu**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Mae Venue Cymru yn darparu lleoliad ar raddfa fawr a phresenoldeb yn y gofod adloniant sy'n caniatáu i Landudno ddenu perfformiadau/cynadleddau | Atyniadau tu mewn. Bylchau o'i gymharu â chyrchfannau eraill gan gynnwys: canolfan bywyd môr; podiau gwylio; oriel graddfa fawr; amrywiaeth o amgueddfeydd ac atyniadau diwylliannol; parc dŵr; casino. |
| Agosatrwydd a hygyrchedd atyniadau, manwerthu, bwyd a diod a llety | Atyniadau awyr agored. Bylchau o'i gymharu â chyrchfannau eraill, gan gynnwys; theatr awyr agored, marina, cae sioe, gerddi, pwll nofio, parc thema; weiren wib. |
| Mae'r Gogarth a'r traethau yn darparu amgylchedd awyr agored o safon uchel ac apêl eang ar draws cenedlaethau o fewn ôl troed bychan. | Diffyg amrywiaeth mewn digwyddiadau ar y calendr o'i gymharu â lleoliadau cymharu, yn arbennig digwyddiad unigryw yn ystod y tymor tawel. Mae bylchau'n cynnwys digwyddiadau mewn perthynas â bwyd a cherddoriaeth, sinema awyr agored a chynyrchiadau theatr a sioeau amaethyddol. |
| Digwyddiadau unigryw megis y Strafagansa Fictoraidd a Diwrnod y Lluoedd Arfog. | Mae angen mwy o siopau safon uwch a mwy o siopau annibynnol o safon uchel. Diffyg "hen ardal" yn y dref gyda chymeriad nodedig i ddenu ymwelwyr. |
| Cyfraddau siopau gwag isel yn erbyn amodau gweithredu anodd yn y farchnad manwerthu a'r gallu i ddiogelu brandiau sefydledig. | Mae angen mwy o amrywiaeth o fwytai o safon uwch. Bylchau mewn meysydd twf megis cynnyrch artisian lleol a bwyd stryd/bwyd anffurfiol. |
| Mae'r ddarpariaeth o amwynderau cyhoeddus yn cymharu'n dda neu'n well yn Llandudno | Diffyg gwesty brand ac amrywiaeth o ddewisiadau (gyda gwestai yn dominyddu) o fewn y cynnig llety presennol. |
| Pwyslais ar welliannau i dreftadaeth Fictoraidd y dref, megis blaen adeiladau ar hyd Traeth y Gogledd | Diffyg cyffredinol o lety o safon uchel o'i gymharu â'r lleoliadau cymharu. |

## 6.2 Brighton

Mae Brighton yn gyrchfan glan y môr ar arfordir deheuol Lloegr. Mae Brighton yn dref cyfnod y Rhaglywiaeth a Fictoraidd ac yn debyg i Landudno, mae'n cynnig pier eiconig, gyda bwrlwm a gemau arcêd a thraeth caregog.


Felly mae'n cynnig hwyl glan y môr traddodiadol, ond mae hefyd wedi datblygu enw da fel cyrchfan cosmopolitaidd a diwylliant gyda'r nos. Mae hefyd yn cynnig cysylltiadau i amgylchedd awyr agored o safon uchel oherwydd ei agosatrwydd at gefn gwlad Sussex gan gynnwys Parc Cenedlaethol y South Downs.

Mae datblygiad Brighton fel cyrchfan twristiaeth yn elwa o'i gysylltedd gyda Llundain a'i boblogaeth o 8.2 miliwn o drigolion sydd 60 munud o Brighton ar drên. Mae Brighton hefyd ond 30 munud ar drên o Faes Awyr Gatwick sy'n ei agor i'r farchnad rhyngwladol. Felly, mae'n gweithredu ar raddfa wahanol i Landudno, a'r tystiolaeth dros hyn yw 9,627,000 o ymweliadau dydd o'i gymharu â 2.84 miliwn yn Llandudno. Mae ei broffil ymwelwyr hefyd yn wahanol iawn, ac yn cael ei yrru gan ei agosatrwydd at Lundain a'i gynnig i ymwelwyr, gyda 29% o ymwelwyr 55+ oed o'i gymharu â 60% yn Llandudno, yn ôl yr arolwg Twristiaeth ddiwethaf yn 2017. Dim ond 2% o ymwelwyr i Brighton yn 2017 oedd yn 75+ oed.

Yn ogystal â hynny, mae'n elwa o boblogaeth fwy sy'n agos i'r ddinas ond hefyd yn elwa o rym gwario mwy gan ei ymwelwyr. Mae ymwelwr dydd i Brighton yn gwario cyfartaledd o £90.03, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd o £36.89 ar draws Prydain Fawr[50]. Y cyfanswm cyfartalog ar gyfer ymwelwyr dros nos oedd £169.21 fesul person fesul noson o'i gymharu â £64 ar draws Prydain Fawr. Mae hyn, ynghyd â chyflog uwch trigolion y dref a phrisiau eiddo, yn rhoi y dref mewn safle gwahanol i Landudno o ran ei allu i fuddsoddi yn y dref, fel y dangosir gyda'r buddsoddiad o £1 biliwn ar lan y môr, sydd ar y gweill.

Felly mae Brighton yn lleoliad cymharu uchelgeisiol, gan edrych ar sut all Landudno ddatblygu ei gynnig a denu gwariant uwch gan ymwelwyr, wrth gadw ei apêl fel cyrchfan glan y môr traddodiadol a'i dreftadaeth Fictoraidd.

**Ffigwr 19. Cymharu Llandudno a Brighton[51]**




**Atyniadau**

Mae gan Brighton ystod o atyniadau am ddim a rhai â thâl, ac yn debyg i Landudno, yn seiliedig o amgylch asedau allweddol y Pier – sy'n denu 4.65 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn – a Thraeth Brighton. Mae hefyd yn elwa o Farina Brighton, sy'n cynnig 1,600 o ddocfeydd pontŵn ac ardal ffyniannus preswyl, manwerthu a hamdden gan gynnwys sinema 8 sgrîn ac ardal fowlio deg gyda 26 lôn. Mae unedau preswyl yn marina Brighton ar hyn o bryd ar y farchnad am rhwng £100,00 am fflat stiwdio i £1,250,000 am fflat pedair ystafell wely. Mae gwerth tir uchel a marchnad preswyl fywiog yn Ne-Ddwyrain Lloegr wedi bod yn hollbwysig i'w ddatblygiad.

Mae atyniadau allweddol Brighton yn tueddu i ddisgyn o fewn y categori eiddo hanesyddol ac amgueddfeydd ac yn cynnwys y Pafiliwn Brenhinol, Amgueddfa Hanes Naturiol Booth, Amgueddfa ac Oriel Gelf Brighton, Amgueddfa ac Oriel Gelf Hove a Phlasty Preston. Y Pafiliwn Brenhinol – hen breswylfa brenhinol – yw un o atyniadau mwyaf poblogaidd Brighton, a chofnodwyd 310,844 o ymwelwyr yn 2017 o'i gymharu ag atyniad mwyaf poblogaidd Llandudno, Tramffordd y Gogarth a gofnodwyd 196,920 o ymwelwyr yn yr un flwyddyn.

[50] Arolwg Ymwelwyr Dydd Prydain Fawr
[51] Cyflwynir siartiau ar gyfer bob cymhariaeth yn y dadansoddiad. Mae pob lleoliad yn cael ei sgorio yn seiliedig ar nifer metrig ar gyfer bob thema: digwyddiadau; amwynderau; manwerthu; bwyd a diod; a llety. Mae mesurau yn seiliedig ar symiau, megis amwynderau cyhoeddus, poblogaeth a nifer yr ymwelwyr yn cael eu hystyried er mwyn scirhau bod y mesuriadau yn berthnasol i faint y cyrchfan.

Yn debyg i Landudno, mae Brighton yn gartref i reilffordd treftadaeth, ond ar raddfa lai, a gofod digwyddiadau a chynadledda, Canolfan Brighton. Er bod Canolfan Brighton yn fwy, mae'r prif awditoriwm yn debyg i Venue Cymru ac yn gallu lletya 800 mewn dull cabaret, o'i gymharu â 1,000 yn Brighton. Gall Ganolfan Brighton gynnig rhaglen gynadledda a digwyddiadau mwy cynhwysfawr, sy'n cael ei hybu gan ei agosatrwydd at Lundain (felly mae'r dalgylch yn llawer mwy) a chysylltedd, tra bod Venue Cymru yn cynnig ystod eang o ddigwyddiadau, ond yn aml ar raddfa llai neu gan artistiaid llai sefydledig.

Mae buddsoddiad diweddar wedi arallgyfeirio ei atyniad drwy fuddsoddi yn y 'British Airways i360 - sef pod gwylio gwydr gan ddylunwyr y London Eye - a weiren wib Brighton. O ganlyniad, mae gan Brighton gynnig diwylliannol hynod o gryf ac amrywiaeth cynyddol o atyniadau.

Er bod asedau treftadaeth yn gynhenid i leoliad ac felly ni ellir eu defnyddio mewn lleoliad arall, mae Brighton yn cynnig ystod o atyniadau tu mewn drwy amgueddfeydd ac orielau, sy'n cynnwys celfyddyd gain, y diwydiant ffilmiau, hanes naturiol a chelfyddyd fodern, yn ogystal â'r Ganolfan Bywyd Môr ac i360, tra bod asedau manwerthu megis Brighton Lanes yn gweithredu fel atyniadau hefyd. Gall hwn fod yn faes i Landudno ehangu ei gynnig i dwristiaid yn y tymor tawel neu yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Ymhellach i hynny, drwy'r atyniad 'British Airways i360, mae Brighton yn gwneud y mwyaf o'i atyniad a'r golygfeydd sydd ar gael o'r ddinas sydd hefyd yn apelio i'r genhedlaeth Instagram, gyda 40% o filflwyddwyr yn ystyried pa mor ddeniadol ar Instagram yw lleoliad wrth ddewis cyrchfan. [52]. Mae golygfeydd o'r Gogarth yn ddelfrydol ar gyfer atyniad ffurfiol i ddenu ymwelwyr. Mae Traeth Brighton hefyd yn cynnig ystod o weithgareddau megis caiacio, a padlfyrddio yn ogystal â chwaraeon traeth traddodiadol, megis pêl foli a ffrisbi, a all fod yn opsiwn ar gyfer datblygu traethau Llandudno.

Yn ogystal â hynny, yn Llandudno mae'r pier yn darparu'r prif ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau hwyliog i deuluoedd, ac yn cael ei ddefnyddio'n aml ac mae buddsoddiad diweddar wedi helpu i ddenu mwy o bobl. Fodd bynnag, er y gellir eu gweld o'r traeth, nid yw'r gweithgareddau hyn yn gysylltiedig â'r lan y môr, a bydd angen i'r grŵp fynd oddi ar y traeth er mwyn cael mynediad atynt – mewn geiriau eraill, nid yw hwn yn brofiad esmwyth o lan y môr megis y profiadau mewn cyrchfannau megis Brighton.

**Digwyddiadau**

Mae'r calendr digwyddiadau yn Brighton yn dangos canolbwynt ar ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, er bod cynnydd nodedig ym mis Mai, sy'n gysylltiedig â phrif ddigwyddiad o fewn calendr digwyddiadau Brighton – Gŵyl Brighton a Gŵyl Ymylol Brighton sef yr ŵyl aml-gelfyddyd mwyaf yn Lloegr, gyda rhaglen gelf, theatr, dawns, cerddoriaeth, llenyddiaeth a sioeau i deuluoedd. Mae'r calendr ddigwyddiadau yn adeiladu ar gryfderau Brighton fel cyrchfan diwylliannol, drwy ŵyl Brighton, Tai Agored Artistiaid, Gŵyl Gerddoriaeth 'The Great Escape', Gŵyl Gerddoriaeth Gynnar Brighton, 'CineCity' a 'Big Screen' Brighton. Er bod hyfywedd gwyliau cerddoriaeth wedi cael ei gwestiynu yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd diffyg galw a marchnad llawn, mae profiadau sinema awyr agored yn boblogaidd yn y DU, gydag oddeutu 60,000 o bobl yn mynd yn flynyddol i'r darllediadau yn y Gerddi Botaneg Brenhinol yn unig[53]. Er fod Llandudno wedi dechrau arbrofi yn y maes hwn gyda Sinema Awyr Agored[54] ar y Llethr Sgïo, mae lle i gael rhaglen fwy cynhwysfawr ar draws lleoliadau eraill yn y dref.

Mae canolbwynt nodedig ar feysydd twf megis digwyddiadau yn seiliedig ar weithgareddau, o Benwythnos Marathon Brighton, Hanner Marathon Brighton, Taith Gerddoriaeth Brighton, Treiathlon Brighton, 'Colour Run', 'Bright 10' a Thaith Feiciau Llundain i Brighton. Tra bod Hanner Marathon Conwy, 'Colour Run' Llanudno a Gran Fondo Conwy yn mynd drwy neu gerllaw Llandudno, efallai y gall Llandudno gynnig mwy mewn perthynas â hyn.

Mae Brighton hefyd yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau mewn perthynas â bwyd, fel Gŵyl y Big Cheese, VegFest UK, Gŵyl Foodies, Gŵyl Vegan Summer, Gŵyl Fiery Food ac OktoberFest. Er bod Gwledd Conwy yn cael ei gynnal o fewn y Fwrdeistref, gall hyn fod yn faes i ganolbwyntio arno hefyd. Yn wir, mae data o'r 'Food Festival Finder', cyfeiriadur ar-lein ar gyfer gwyliau bwyd, yn dangos yn 2015 bod 25.4 miliwn o bobl eisiau mynychu gwyliau bwyd yn y DU, o'i gymharu â 30 miliwn o bobl a fynychodd gwyliau cerddoriaeth yn 2017[55].

Tra bo Llandudno yn cynnig digwyddiadau ar raddfa fawr, megis Diwrnod y Lluoedd Arfog a'r Strafagansa Fictoraidd, mae'r amrywiaeth o ddigwyddiadau o ran math a dyddiad yn llawer is na Brighton, gyda Visit Brighton yn rhestru 339 o ddigwyddiadau o'i gymharu â 90 sydd wedi'u rhestru gan Visit Llandudno[56].

**Amwynderau**

[52] https://www.adweek.com/digital/how-influencers-are-turning-the-business-of-travel-on-its-head/
[53] https://www.economist.com/prospero/2016/08/30/the-unlikely-rise-of-the-british-outdoor-cinema
[54] http://tapemusicandfilm.co.uk/facilities/951-2/
[55] https://www.foodfestivalfinder.co.uk/blogs/201501/uk-food-festival-attendee-infographic
[56] O 16 Awst 2018

Mae amwynderau yn yr esiampl hon yn ymwneud â nifer o doiledau cyhoeddus a mannau parcio ceir sydd ar gael o fewn y lleoliadau, yn ogystal ag edrych ar sut mae'r strydlun a'r parth cyhoeddus yn cael ei reoli yn yr ardal leol. Dylid nodi bod y gymhariaeth hon yn seiliedig ar y niferoedd yn unig ac felly nid yw'n adlewyrchu ar faterion mewn perthynas â lleoliad yr amwynderau o fewn Llandudno a'r lleoliadau cymharu.

Yn Brighton, mae 37 o gyfleusterau toiledau cyhoeddus a gynhelir gan yr Awdurdodau Lleol, gyda 21 ychwanegol yn ei gynllun toiledau cymunedol[57]. Yn Llandudno mae 8 o doiledau cyhoeddus ar gael gydag 11 arall yn cael eu cynnig drwy'r cynllun toiledau cymunedol. Wrth ystyried trigolion a nifer yr ymwelwyr dydd, mae Brighton yn cynnig nifer uwch o gyfleusterau toiledau cyhoeddus na Llandudno.

Wrth edrych ar fannau parcio ceir, mae Brighton yn cynnig 2,930 o fannau parcio o'i gymharu â 1,312 yn Llandudno[58]. O ystyried trigolion a nifer o ymwelwyr dydd, mae'r ddarpariaeth parcio a gynigir gan yr Awdurdodau Lleol yn debyg yn Brighton a Llandudno[59], fodd bynnag mae Brighton yn elwa o gludiant cyhoeddus gwell ac amlach rhwng ei farchnadoedd allweddol.

Fel nifer o Awdurdodau Lleol eraill, mae Brighton wedi dioddef o ostyngiadau mewn grantiau llywodraeth, sydd wedi rhoi cyllidebau'r Cyngor dan bwysau. O ganlyniad i hynny, mae Cyngor Dinas Brighton a Hove wedi ymrwymo i wariant refeniw llai o fewn y cyllidebau cynnal a chadw ataliol a diogelwch priffyrdd, sy'n ariannu gwaith atgyweirio ac adnewyddu isadeiledd priffyrdd hanfodol, gan gynnwys palmentydd, rheiliau diogelwch, bolardiau, gwaith dur a mathau eraill o gelfi stryd hanfodol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai dim ond 3% o'r trigolion sy'n credu ei fod yn dderbyniol lleihau cyllid yn y maes hwn[60]. Fodd bynnag, er gwaethaf y cwymp mewn cyllid, mae'r Cyngor yn cadw ffocws ar y parth cyhoeddus a'r strydlun yn y ddinas, gyda Strategaeth Parth Cyhoeddus Brighton a Hove yn ceisio sefydlu dull cydlynol, cyson a safonol ar gyfer holl waith yn y parth cyhoeddus, gan gynnwys strydlun, er lles trigolion ac atyniad i ymwelwyr. Mae gan y Cyngor hefyd Ganllawiau Dylunio Strydlun[61] sy'n nodi'r fanyleb dylunio a gosod safonol ar gyfer elfennau sy'n gwneud y strydlun (megis celfi stryd a deunyddiau arwyneb) ynghyd â'r materion a ddylai gael eu hystyried wrth ddewis a gweithredu ar gyfer unrhyw un sy'n rhan o'r parth cyhoeddus.

**Manwerthu**

Mae Brighton yn rhif 22 yn y Mynegai Hyfywedd Manwerthu Harper Dennis Hobbs, sy'n cyfrif iechyd manwerthu canolfannau manwerthu mawr ar draws Prydain Fawr. Mae hyfywedd yn cael ei fesur drwy gyfuniad o'r cyfran o siopau safon uchel; y cyfran o siopau gwerth am arian; cyfran siopau gwag, a chyfran o siopau 'annymunol' – megis siopau gwystl, benthyg arian a siopau betio. Mae'r elfennau newidiol hyn hefyd yn cael eu cymharu â chompównd demograffeg dalgylch y ganolfan ac mae sgôr uwch yn cael ei roi i ardaloedd sydd â chyfuniad manwerthu sydd wedi cael ei addasu i'r gymuned leol. Mae Llandudno wedi cael ei roi yn y 169 safle yn y mynegai[62].

Mae Brighton yn elwa o gyfradd siopau gwag hynod o isel – a oedd yn 4.43 yn 2016 – yn ogystal â rhai o'r ardaloedd manwerthu mwyaf bywiog yn y DU megis Brighton Lanes a North Laine sy'n gartref i ystod o siopau annibynnol a London Road, ardal sydd wedi cael ei adfywio sydd wedi agor marchnad dan do yn ddiweddar ar gyfer 50 o gynhyrchwyr a gwneuthurwyr lleol Brighton, gan ganolbwyntio ar gynnyrch lleol. Mae canol y ddinas hefyd yn cynnig nifer o frandiau mawr a gwerth uchel, megis Hugo Boss, Cos a Kurt Geiger yn Sgwâr Churchill a Marina Brighton.

Mae Llandudno yn perfformio'n dda o ran cyfraddau siopau gwag, sydd ar 5.4% ac nid yn annhebyg i ffigwr Brighton, ac mae wedi datblygu er mwyn gwella'r cynnig manwerthu drwy agoriad diweddar Mostyn Champneys ac adnewyddu Canolfan Siopau Fictoria. Er y bydd yn annhebygol o allu cynnal y brandiau mawr sydd yn Brighton oherwydd agwedd cymdeithasol-economaidd y dref a phroffil yr ymwelwyr, dylid rhoi ffocws tebyg ar gefnogi siopau safon uchel. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Arolwg Defnyddwyr y Dref 2017, lle nododd defnyddwyr hamdden fod gormod o siopau elusennol a diffyg amrywiaeth a busnesau gan ddweud bod "angen denu mwy o siopau diddorol yn hytrach na siopau elusen, caffis a siopau rhad". Dylai Llandudno hefyd ganolbwyntio ar annog siopau annibynnol o safon uchel, yn debyg i ardaloedd Brighton Lanes, North Laine a

[57] Busnesau yn cynnig eu toiledau ar gyfer y cyhoedd
[58] https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Parking-and-Permits/Coach-and-Car-Parking/Pay-and-Display-Car-Parks/Llandudno-Car-Parks.aspx
[59] Yn Llandudno mae nifer fawr o fannau parcio hefyd ar gael ym Mostyn Champneys ac Asda sy'n agos at canol y dref a all gael eu defnyddio gan gwsmeriaid sy'n talu. Fodd bynnag nid yw rhain wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad gan fod y cyhoedd ar feysydd pardio'r sector gyhoeddus.
[60] https://present.brighton-hove.gov.uk/Published/C00000823/M00006112/AI00054961/$20161117101712_009947_0040615_HighwayAssetManagementStrategy.docxA.ps.pdf
[61] https://www.brighton-hove.gov.uk/sites/brighton-hove.gov.uk/files/downloads/transport/Streetscape_Design_Guidelines.pdf
[62] http://cf.datawrapper.de/o1Yhy/1/

London Road yn Brighton, yn ogystal â diogelu brandiau mawr mewn safleoedd allweddol o fewn canol y dref er mwyn denu ymwelwyr.

Yn ogystal â hynny, yn wrthgyferbyniad i Landudno, mae siopau canol dref Brighton ar agor tan 6pm bob dydd, gydag oriau agor estynedig ar Sgwâr Churchill (y brif ganolfan siopa) ar ddyddiau Iau, Gwener a Sadwrn. Mae ardaloedd siopa annibynnol, megis North Laine yn tueddu i agor yn hwyrach. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad yw siopau yng nghanol dref Llandudno yn tueddu i agor yn hwyrach na 5.30pm (dyma'r achos yng Nghanolfan Fictoria), tra bod ystadau manwerthu megis Mostyn Champneys yn agor tan 8pm. Byddai mentrau agor gyda'r nos – yn arbennig ar gyfnodau prysur o fewn canol y dref – yn fanteisiol i Landudno.

**Bwyd a Diod**

Mae gan Brighton gynnig bwyd a diod cynhwysfawr, gyda channoedd o fwytai, tafarndai a barau gan gynnwys cwmnïau cadwyn a chwmnïau annibynnol, gyda chryfder arbennig yn ei gynnig llysieuol a'i ystod o fwydydd o amgylch y byd. O ystyried nifer y trigolion a nifer yr ymwelwyr, mae gan Brighton 2.6 gwaith y nifer o sefydliadau bwyd a diod sydd gan Landudno, gyda'r diffyg yn amlwg o ran bwytai a thafarndai, tra bod y nifer o gaffis yn cymharu'n dda.

O ran safon, mae 14 o fwytai yn Brighton wedi cael y wobr AA, gyda Gwobr yr AA yn gynllun DU ar gyfer asesu safon y bwyd a weinir mewn bwytai a gwestai. I'r gwrthwyneb, mae gan Landudno 5 bwyty neu westy gyda'r wobr AA. Yn seiliedig ar faint y lleoliad, dim ond mantais bach sydd gan Brighton o ran y nifer o fwytai o safon uchel.

Rhaid i gynnig bwyd a diod o fewn y lleoliad weddu anghenion proffil trigolion ac ymwelwyr. Gan fod y lefel o allgymudo i Lundain, a dibynadwyedd ar dwristiaeth o Lundain, mae ystod y bwyd a diod yn Brighton yn apelio at gynulleidfa dinas fawr. Fodd bynnag, gall y cynnig bwyd a diod yn Llandudno gael ei ehangu, yn arbennig o ran safon ac ystod y bwyd ac mewn meysydd twf fel cynnyrch artisian wedi'i gynhyrchu'n lleol a bwyd stryd. Er enghraifft, mae Brighton yn gartref i Street Diner, marchnad bwyd stryd sy'n cefnogi lleoliadau bwyta awyr agored y ddinas bob dydd Gwener 11am – 3pm ac yn denu cannoedd o ymwelwyr.

**Llety**

Mae 32 o westai 3* neu 4* yn Brighton, o'i gymharu â 23 yn Llandudno. Mae nifer tebyg o deithiau dros nos i Brighton a Llandudno[63], gan awgrymu bod y nifer o westai o safon da tua 40% yn uwch yn Brighton, ond rhaid ystyried bod grym gwario gwestai dros nos yn Brighton yn debygol o fod yn llawer uwch.

Mae cyfartaledd deiliadaeth yn Brighton yn uchel ar 78.3%, ond yn Llandudno, cyfartaledd deiliadaeth yw oddeutu 68.0%[64]. Mae hyn yn cael ei yrru gan alw cryf dros y penwythnos ar gyfer llety mewn gwesty, yn arbennig rhwng Ebrill a Medi, tra bo'r galw yn ystod yr wythnos wedi cynyddu oherwydd segment gwyliau hamdden canol wythnos sy'n llawer cryfach. Yn ogystal â hynny, mae cynnydd mewn cynadleddau yn y ddinas ers adnewyddu Canolfan Brighton yn 2012 wedi ychwanegu i'r galw am lety, yn arbennig yn ystod misoedd prysur cynadledda yn Ionawr, Mawrth, Ebrill, Medi, Hydref a Thachwedd. Felly gall rhaglen gynadledda mwy cynhwysfawr yn Llandudno weithredu i gynyddu deiliadaeth yn ystod y tymor tawel, ond rhaid i stoc llety safonol a digonol fod yn ei le er mwyn caniatáu hyn.

I'r gwrthwyneb, mae lefelau deiliadaeth tai llety yn Brighton wedi cael eu taro gan gystadleuaeth gynyddol gan Airbnb, gyda 39% yn adrodd gostyngiad mewn lefelau deiliadaeth o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd tai llety safon uchel, h.y. 4* yn wahanol i'r duedd hon, ac mae galw sefydlog ar draws y math hwn o lety. Mae hyn yn awgrymu y dylai Llandudno gadw ffocws allweddol ar uwchraddio cyfleusterau a safon o fewn llety ar draws y dref, fel y nodwyd ym Mhapur Polisi Cymdeithas Lletygarwch Llandudno 2017.

### 6.3 Harrogate

Mae Harrogate wedi ei leoli yng nghalon Gogledd Swydd Efrog. Mae'n dref sba deniadol, gyda saernïaeth Fictoraidd ac Edwardaidd, gerddi Saesnig, Baddonau Twrcaidd a chynnig bwyd a diod a manwerthu metropolitanaidd, sy'n rhoi canolbwynt i ymwelwyr sydd eisiau archwilio amgylchedd naturiol o safon uchel a'r cynnig treftadaeth lleol. Mae o fewn ardal wledig sy'n cynnwys tref canoloesol Ripon, ardal ddynodedig o Harddwch Naturiol Eithriadol a phedair tref farchnad nodedig; Boroughbridge, Knaresborough, Masham a


[63] https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/England-documents/gb_tourist_report_2015.pdf
[64] Yn seiliedig ar ddeiliadaeth cyfartalog ystafell mewn gwestai yng Ngogledd Cymru gan Croeso Cymru

Pateley Bridge. Gan fod yr Yorkshire Dales gerllaw, mae ganddo gynnig cryf o ran gweithgareddau antur ac awyr agored, o feicio mynydd i ddringo creigiau ac abseilio, neu fynydda ar hyd y mynydd-dir.

Mae twristiaeth cynadledda a busnes yn yrrwr allweddol i economi'r ardal, ac yn ffynhonnell fawr o gyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol ac atynnwr allweddol o ran buddsoddiad i ganol tref Harrogate. Mae Canolfan Ryngwladol Harrogate yn un o gyfleusterau arddangos a chynadledda integredig mwyaf yn y DU ac mae Cae Sioe Swydd Efrog yn gartref i un o brif sioeau amaethyddol y DU ac yn lleoliad rhanbarthol allweddol ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac arddangosfeydd.

Er nad yw'n dref glan y môr traddodiadol, mae Harrogate yn arddangos tebygrwydd gyda Llandudno mewn perthynas â'i dreftadaeth Fictoraidd, amgylchedd awyr agored o safon uchel a chyfleuster cynadledda. Yn is-ranbarthol, mae Harrogate yn denu 13% o'i ymwelwyr o Ogledd Orllewin Lloegr[65] ac felly gellir ei ystyried fel cystadleuwr i Landudno, sy'n denu 35.4% o'i ymwelwyr o'r ardal hon. Fodd bynnag, mae Harrogate yn denu demograffeg wahanol i Landudno, gyda 22.7% o'r ymwelwyr yn 65+ oed, o'i gymharu â 42.4% yn Llandudno, gyda mwyafrif o ymwelwyr Harrogate o fewn y grŵp oedran 45-64 oed (46.4%).

**Ffigwr 20. Cymhariaeth Llandudno v Harrogate**




**Atyniadau**

Mae gan Harrogate gynnig atyniadau sy'n canolbwyntio ar safon y gofod awyr agored, gyda Gardd RHS Harlow Carr, Gerddi'r Stray and Valley, a'i statws fel tref sba a'r cynnig treftadaeth cysylltiol, drwy'r Baddonau Twrcaidd a'r amgueddfa 'Victorian Royal Pump Room', un o'r ffynhonnau sylffwr cryfaf yn Ewrop. Mae atyniadau eraill yn cynnwys Oriel Mercer, cartref i gasgliad celfyddyd gain Ardal Harrogate, Theatr Harrogate, ac Ystafelloedd Te Betty's, atyniad te prynhawn poblogaidd mewn ystafell 100 oed. Mae'r dref hefyd yn arddangos ymwybyddiaeth o'i rôl fel canolbwynt i archwilio'r atyniadau yn yr ardal ehangach, megis Brimham Rocks a Stump Cross Caverns, a'i gysylltiadau â threfi gerllaw, megis Knaresborough a Ripon, Yorkshire Dales ac AHNE Nidderdale.

Mae Gardd Cymdeithas Frenhinol Garddwriaethol Harlow Carr yn cynnig profiad garddwriaethol drwy gydol y flwyddyn ac yn cynnwys 58 erw, a dyma atyniad mwyaf poblogaidd Harrogate. Denodd 416,288 o ymwelwyr yn 2017, sy'n llawer uwch na'r 196,920 o ymwelwyr i Dramffordd y Gogarth yn Llandudno, er bod gan y ddwy dref niferoedd tebyg o ymwelwyr dydd. Fodd bynnag, efallai bod hyn yn cael ei effeithio gan gynlluniau aelodaeth y Gymdeithas Frenhinol Garddwriaethol, sy'n caniatáu mynediad am ddim drwy gydol y flwyddyn i Harlow Carr, tra bo Llandudno yn elwa yn anuniongyrchol o ymwelwyr sy'n cael eu denu i Erddi Bodnant (gardd bartner y Gymdeithas Frenhinol Garddwriaethol) ger Bae Colwyn.

Yn debyg i Landudno, mae Harrogate yn gartref i leoliad digwyddiadau a chynadledda, Canolfan Confensiwn Harrogate. Yn y brif awditoriwm mae lle ar gyfer 320 o westeion mewn dull carbaret o'i gymharu â 800 yn Venue Cymru. Mae hefyd nifer o neuaddau, ystafelloedd a stiwdios eraill sy'n cynnig ystod o ddewisiadau. Mae Canolfan Gonfensiwn Harrogate wedi'i chysylltu'n uniongyrchol gyda 320 o ystafelloedd gwely oherwydd y cadwyni gwestai Premier Inn a Crowne Plaza integredig o fewn y Ganolfan gyda gwasanaethau gofalu i archebu llety, ac felly yn cynnig opsiwn integredig yn arbennig ar gyfer y farchnad gynadledda, opsiwn nad yw Venue

[65] http://www.northyorkmoorstourism.com/uploads/4/8/5/6/4856328/rvs_qa_research__tourism_network_report_final.pdf

Cymru yn ei ddarparu. Mae’r Ganolfan Gonfensiwn yn parhau i fod yn un o brif leoliadau arddangos a chynadledda yn y wlad ac yn cyfrannu tu hwnt i £60 miliwn i’r economi lleol bob blwyddyn, o’i gymharu â £23 miliwn ar gyfer Venue Cymru o fewn Bwrdeistref Conwy[66]. Mae disgwyl i Ganolfan Gonfensiwn Harrogate gael ei adnewyddu, gydag uwchgynllun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau fel lleoliad deniadol a chystadleuol yn genedlaethol.

Er nad yw atyniadau unigol yn gymwys yn uniongyrchol i Landudno, mae gerddi Harrogate yn datblygu’n gyson, gyda phwyntiau diddordeb amrywiol drwy gydol y tymor tyfu er mwyn denu ymwelwyr newydd a’r rhai sy’n dychwelyd. Mae gan Landudno Erddi Botaneg y Fach sydd ag enw da ac yn cynnig y posibilrwydd i ymgysylltu mwy gyda'r farchnad dwristiaeth drwy lwybrau marchnata a hyrwyddo a digwyddiadau ar gyfer plant yn ystod y cyfnod prysuraf. Mae’r gwaith adnewyddu arfaethedig i Ganolfan Gonfensiwn Harrogate, yng ngoleuni cystadleuaeth gynyddol, a’r angen i integreiddio’r Ganolfan o fewn canol y dref, ynghyd â’r effaith economaidd bresennol, hefyd yn awgrymu y dylai Venue Cymru addasu i amodau y farchnad sy’n newid, gan gynnwys: cystadleuaeth gynyddol: canolbwynt cynyddol ar werth/mentrau; darparu cyfleusterau o’r radd flaenaf ar gyfraddau derbyniol; digwyddiadau wedi’u teilwra (h.y. darparu mwy o greadigrwydd a dychymyg); bod yn agored i ffyrdd newydd o weithio/cynnal digwyddiadau a chanolbwyntio ar brofiad integredig/ymwelwyr ar y cyfan[67]. Felly mae’r buddsoddiad arfaethedig o £3 miliwn[68] i ail-fodelu Venue Cymru i’w wneud yn fwy hyblyg o ran gofod yn gam cadarnhaol tuag at hyn.

**Digwyddiadau**

Mae’r calendr ddigwyddiadau yn Harrogate yn adeiladu ar ei agosatrwydd i gefn gwlad ac awyr agored o safon uchel, drwy ddigwyddiadau fel Sioe Flodau Harrogate, Countryside Live, Sioe Ripley a’i ddigwyddiad allweddol - ‘The Great Yorkshire Show’ a gynhelir ar Gae Sioe Swydd Efrog a ddenodd 134,421 o ymwelwyr yn 2018. Gan fod Countryside Live yn ddigwyddiad yn yr hydref, sy’n gysylltiedig â’r Great Yorkshire Show, mae posibilrwydd i Landudno gynnal digwyddiad yn seiliedig ar amaethyddiaeth i gyd-fynd ag eraill ar draws y rhanbarth, megis Sioe Caernarfon a Sioe Amaethyddol Nefyn. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu y bydd angen dod o hyd i safle addas yn y dref gydag isadeiledd digonol yn ei le i gefnogi digwyddiad o’r fath. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gall Caeau Bodafon gael eu paratoi’n well i gefnogi cynnal digwyddiadau, ond ar hyn o bryd mae diffyg isadeiledd megis cysylltiadau i briffyrdd a chyfleustodau.

Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill yn cael eu cynnal drwy gydol misoedd yr haf, gan gynnwys Gŵyl Gerddoriaeth Harrogate, Gŵyl Ysgrifennu Trosedd, Gŵyl Ryngwladol Gilbert a Sullivan (sy’n cynnwys 40 perfformiad), Gŵyl Gomedi Harrogate a Diwrnod 1940au. Er fod Llandudno yn cynnal nifer o ddigwyddiadau diwylliannol, fel Harrogate, gall y dref ganolbwyntio ar berfformiadau cerddoriaeth yn yr awyr agored neu wyliau comedi er mwyn denu ymwelwyr, gan adeiladu ar ei leoliad anhygoel, megis y Gogarth, neu ar draws nifer o leoliadau bychain (tafarndai/caffis) ar draws y dref.

Mae’r amrywiaeth o ddigwyddiadau o bob math a dyddiadau yn llawer is na’r hyn sy’n Harrogate, gyda Visit Harrogate yn rhestru 242 o ddigwyddiadau o’i gymharu â’r 90 o ddigwyddiadau wedi’u rhestru gan Visit Llandudno, gyda’r mwyafrif yn Venue Cymru.

**Amwynderau**

Yn Harrogate, mae 8 o gyfleusterau toiledau cyhoeddus sy’n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yr un nifer ag yn Llandudno, er bod Llandudno yn cynnig 11 arall drwy’r cynllun toiledau cymunedol. O ystyried y boblogaeth a’r nifer o ymwelwyr dydd, mae gan Landudno ddarpariaeth uwch na Harrogate. Yn ôl arolwg 2010/11, sgoriodd cyfleusterau toiledau cyhoeddus gyfartaledd o 4.1/5 o ran eu hargaeledd a glanweithdra yn Harrogate, sy’n awgrymu boddhad cyffredinol.

Wrth edrych ar fannau parcio ceir, mae Harrogate yn cynnig 2,230 o fannau parcio o’i gymharu â 1,312 yn Llandudno[69]. O ystyried y boblogaeth a’r nifer o ymwelwyr dydd, mae’r ddarpariaeth parcio a gynigir gan yr Awdurdod Lleol yn Harrogate yn 40% yn uwch na Llandudno[70]. Mae Uwchgynllun a Strategaeth Canol Tref Harrogate yn nodi fod digon o lefydd i barcio ceir ar y stryd ac oddi ar y stryd ar gyfer dref o’i maint, ond mae’n cydnabod ei bod yn bwysig cynnal lefel ddigonol o lefydd parcio yn y lleoliadau cywir o fewn canol y dref, yn

[66] Effaith Economaidd Venue Cymru, Ymchwil Arad Tachwedd 2016
[67] https://www.rightsolution.co.uk/projects/emerging-trends-conference-venues/
[68] https://www.thestage.co.uk/news/2018/llandudno-venue-cymru-3-million-refurbishment/
[69] https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Parking-and-Permits/Coach-and-Car-Parking/Pay-and-Display-Car-Parks/Llandudno-Car-Parks.aspx
[70] Yn Llandudno mae nifer fawr o fannau parcio hefyd ar gael ym Mostyn Champneys ac Asda sy’n agos at canol y dref a all gael eu defnyddio gan gwsmeriaid sy’n talu. Fodd bynnag nid yw rhain wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad gan fod y cyhoedd ar feysydd pardio’r sector gyhoeddus.

arbennig i'r rhai gyda llai o symudedd (pryder allweddol ar gyfer Llandudno) ac i letya ar gyfer cyfnodau o alw mawr.

Mae Uwchgynllun a Strategaeth Canol Tref Harrogate 2025 yn amlinellu ei weledigaeth i fod yn brif gyrchfan y DU ar gyfer diwylliant, siopa, hamdden a thwristiaeth busnes, a chydran allweddol o hyn yw "parth cyhoeddus rhagorol" . Mae'r gwelliannau yn cynnwys ailddylunio mannau presennol er mwyn atgyfnerthu apêl i ymwelwyr, integreiddio cyrchfannau allweddol a chreu mannau newydd ar gyfer digwyddiadau a hamdden, a chreu parth cerddwyr ar rhai llwybrau. Fe wnaeth ymwelwyr Harrogate sgorio glanweithdra strydoedd fel 4.6/5 ac ymddangosiad cyffredinol y drefn fel 4.7/5, gan awgrymu lefel uchel o fodlonrwydd. Wrth edrych ar weithgareddau, nododd 83% o ymwelwyr Harrogate "cerdded o amgylch y strydoedd a mwynhau'r awyrgylch", gan awgrymu bod cynnal glanweithdra yn bwysig iawn i'r cyrchfan. Yn ôl Arolwg Ymwelwyr 2017, y tirlun a golygfeydd (82%) a'r traethau (28%) sy'n denu ymwelwyr i Landudno, gan awgrymu bod cynnal glanweithdra yn debygol o fod o bwysigrwydd tebyg i ymwelwyr a dylai barhau i fod yn flaenoriaeth uchel.

**Manwerthu**

Mae Harrogate yn rhif 23 ym Mynegai Hyfywedd Manwerthu Harper Dennis Hobbs, o'i gymharu â safle Llandudno yn 169. Er bod cyfraddau siopau gwag yn Harrogate yn 8.5%, sy'n uwch na'r 5.4% yn Llandudno, mae'n elwa o gyfran uwch o siopau safonol, yn rhannol oherwydd y ddemograffeg ymwelwyr a thrigolion.

Mae Harrogate yn elwa o ystod o fanwerthwyr safonol o fewn canol y dref, gyda brandiau megis Jo Malone, Jaeger a Hobbs, ynghyd â siopau'r stryd fawr. Yn debyg i Brighton ond ar raddfa llai, mae ardaloedd o siopau annibynnol ffyniannus, yn arbennig o fewn ardal Motpellier, sy'n gartref i dros 50 o siopau annibynnol, salonau iechyd a harddwch, caffis palmant, barau a bwytai, yn ogystal â'r enw da traddodiadol am hen nwyddau a chelf. Mae datblygiad yr ardal hon wedi cael ei gefnogi a'i hyrwyddo gan Grŵp Manwerthu Ardal Montpellier, sy'n cael ei gynrychioli gan nifer o fanwerthwyr sy'n cyfrannu at gronfa ar gyfer taflenni gwybodaeth, gwefan, hysbysebion, basgedi blodau a goleuadau Nadolig. Mae'r Stryd Fasnachol yng nghanol y dref hefyd yn gartref i dros 20 o siopau annibynnol unigryw, gyda chanolbwynt penodol ar fwyd a diod.

Gall Llandudno ganolbwyntio ar ddod â masnachwyr ynghyd mewn Grŵp Masnach gyda chanolbwynt ar farchnata a gwella ymddangosiad ardal benodol, gan fod hyn yn bryder penodol mewn perthynas â ferandas a blaen nifer o strydoedd yng nghanol y dref. Gellir canolbwyntio ar gadw ardal benodol o'r dref ar gyfer busnesau annibynnol, gan ddatblygu parth cyhoeddus o safon uchel er mwyn gwneud ardal fywiog ar gyfer siopwyr i gerdded a darparu cymysgedd o fusnesau manwerthu annibynnol a bwyd a diod.

**Bwyd a Diod**

Mae cynnig bwyd a diod Harrogate yn cynnwys caffis annibynnol sydd wedi ennill gwobrau, te prynhawn yn Ystafelloedd Te Betty's, bwyd rhyngwladol o leoliadau gwahanol gan gynnwys Fietnameaidd, a bwyd Nordaidd hefyd yn Yorke Arms sydd â sêr Michelin. O ystyried nifer y trigolion a nifer yr ymwelwyr, mae gan Harrogate 1.7 gwaith y nifer o sefydliadau bwyd a diod sydd gan Landudno, gyda'r diffyg yn amlwg o ran bwytai, tra bod y nifer o gaffis yn uwch yn Llandudno a'r nifer o dafarndai yn cymharu'n dda gyda Harrogate. Fel Brighton, mae Harrogate yn dangos cynnig bwyd a diod amrywiol ac yn canolbwyntio ar ansawdd y cynnyrch lleol. Dylai Llandudno ystyried mabwysiadu hyn hefyd.

O ran safon, mae 7 bwyty yn Harrogate wedi derbyn gwobrau AA, ac mae 4 o'r rhain gyda nifer o wobrau, yn ogystal â'r Yorke Arms sydd â sêr Michelin yn Pateley Bridge. I'r gwrthwyneb, mae gan Landudno 5 bwyty neu westy gyda'r wobr AA. Yn seiliedig ar faint y lleoliad, mae gan Harrogate ychydig o fantais o ran y nifer o fwytai o safon uchel, ond mantais mawr o ran profiadau bwyta cain.

**Llety**

Mae oddeutu 67 o leoliadau yn cynnig llety â gwasanaeth yn Harrogate[71], o'i gymharu â 220 yn Llandudno[72]. Mae'r mwyafrif o leoliadau sy'n cynnig llety â gwasanaeth i ymwelwyr yn Harrogate yn dai llety graddfa fach a gwely a brecwast. Fodd bynnag, mae gwestai mawr yn gwneud y cyfran fwyaf o stoc ystafelloedd gwely yn Harrogate, gyda 19% o sefydliadau yn darparu 72% o ystafelloedd, ac mae'r rhain hefyd yn tueddu i gael cyfraddau deiliadaeth uwch na sefydliadau llai.

[71] Cynllun Lleol Rhanbarth Harrogate: Astudiaeth Llety Ymwelwyr
[72] Papur Polisi Cymdeithas Lletygarwch Llandudno

Mae 28 o westai 3* neu 4* yn Harrogate, o'i gymharu â 23 yn Llandudno[73]. Mae'r nifer o deithiau dros nos i Harrogate tua 40% yn is nac yn Llandudno[74], gan awgrymu bod y nifer o westai o safon dda oddeutu 68% yn uwch yn Harrogate[75]. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd ei gryfder mewn twristiaeth busnes a'r ddemograffeg fwy cefnog yn ei farchnad dwristiaeth.

Mae deiliadaeth cyfartalog yn Harrogate yn 67.0%, sydd ychydig is na'r ddeiliadaeth cyfartalog yn Llandudno (68.0%). Mae deiliadaeth llety yn Harrogate yn cael ei gryfhau gan yr ochr fusnes, gyda 33.2% o deithiau dros nos o ganlyniad i deithiau busnes, sy'n cael ei hybu gan y Ganolfan Gonfensiwn Harrogate, gan fod ystod y cyfleusterau yng Nghanolfan Rhyngwladol Harrogate ymysg y mwyaf sylweddol yn y DU. I'r gwrthwyneb, dim ond 4.3% o deithiau dros nos i Landudno sy'n deillio o fusnes, er gwaethaf presenoldeb Venue Cymru[76]. Ar gyfnodau prysur, mae Harrogate yn ei chael yn anodd lletya ymwelwyr busnes, sydd wedi arwain at fusnes cynhadledd yn cael ei golli, ynghyd â materion eraill megis cysylltedd cludiant gwael yn Harrogate.

Mae Harrogate wedi gweld cynnydd yn y nifer o randai a wasanaethir sy'n cael ei gynnig yn y dref, gyda nifer o weithredwyr yn cynnig rhandai o safon uchel yn y farchnad gosod tymor byr. Gall y math hwn o lety fod yn hynod o ddeniadol i ymwelwyr busnes a theuluoedd, gan eu bod yn cynnig cysur, maint a hyblygrwydd. Mae 37 eiddo yn darparu rhandai â wasanaethir yn Harrogate o'i gymharu â 18 yn Llandudno[77]. Felly, mae hyn yn faes y gall Llandudno adeiladu capasiti.

### 6.4 Margate


Mae Margate yn gyrchfan glan y môr Saesneg yng Nghaint. Roedd Margate yn gyrchfan gwyliau poblogaidd am fwy na 200 o flynyddoedd, ond fe ddirywiodd yn y 20fed ganrif hwyr, oherwydd dyfodiad pecynnau gwyliau rhad i Sbaen a chyrchfannau eraill oedd yn fwy sicr o gael tywydd braf yn yr haf. O ganlyniad i hyn, a dirywiad mewn diwydiannau traddodiadol, dioddefodd y dref o ddiweithdra uchel a phoblogaeth oedd yn dirywio, wedi'i gyfuno â demograffeg oedd yn mynd yn hŷn, yn dibynnu ar fudd-daliadau a nifer o safleoedd ac adeiladau gwag.

Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi newid oherwydd adfywiad yn yr economi dwristiaeth - ac yn benodol oherwydd - rôl Oriel Turner Contemporary a agorodd yn 2011. Roedd hyn yn dilyn menter dros ddegawd a gefnogwyd gan Gyngor Sir Caint, a sefydlodd Oriel Gyfoes Caint fel sefydliad ac uned o'r Cyngor yn 2001, wedi'i yrru gan ymrwymiad a brwdfrydedd y trigolyn lleol, John Crofts, a gefnogwyd gan Gymdeithas Sifil Margate, a ddechreuodd y syniad i goffau cysylltiad Turner gyda Margate. Dechreuodd yr uned y gwaith o ddatblygu cynulleidfa ar gyfer y celfyddydau gweledol, gan greu rhaglen a oedd yn cynnwys arddangosfeydd cyfoethog, comisiynau, sgyrsiau a gweithdai. Cafodd y safle ar gyfer yr adeilad newydd ei nodi fel y darn o dir ger Harbwr Margate, a gosodwyd cyllideb cyfalaf o £17.4 miliwn gyda chyllid gan Gyngor Sir Caint, Cyngor Celfyddydau Lloegr ac Asiantaeth Datblygu De-Ddwyrain Lloegr, yn ogystal â nifer o ymddiriedolaethau, cymdeithasau ac unigolion. Penodwyd cwmni Penseiri David Chipperfield yn 2006 a chwblhawyd yr adeilad a'i drosglwyddo i'r Gymdeithas Turner Contemporary ddiwedd 2010. Mae'r oriel wedi mynd ymlaen i greu effaith economaidd o £40 miliwn[78] i'r dref ers ei agor, ac wedi arwain at greu cornel greadigol newydd yn yr Hen Dref, gyda siopau celf a chrefft a gofodau stiwdio.

Yn debyg i Brighton, mae Margate yn elwa o fod mor agos i Lundain, gyda chyswllt rheilffordd newydd cyflym sy'n galluogi siwrnai sydd ychydig dros awr o Kings Cross. Mae hyn o fantais i'r dref oherwydd ei gallu i ddenu ymwelwyr dydd o Lundain, ac mae Margate hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn denu trigolion newydd sydd wedi cael eu denu gan y safon byw a'r gallu i deithio i Lundain. Fodd bynnag, yn wahanol i Brighton, nid yw Margate yn denu gwariant uwch fesul person, sy'n £35.25 fesul taith dydd, a £59.29 fesul noson, sydd yn is na chyfartaledd Prydain Fawr. Mae hyn yn gysylltiedig a'i gynnig ymwelwyr sydd heb ei ddatblygu, yn arbennig o ran manwerthu, bwyd a diod ac atyniadau tu hwnt i'r Oriel Turner Contemporary (sydd am ddim) a pharc pleser Dreamland.

[73] TripAdvisor
[74] https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/England-documents/gb_tourist_report_2015.pdf
[75] Fodd bynnag nid yw hyn yn ystyried hyd yr arhosiad, lle nad oes data cymhariaeth ar gael.
[76] Arolwg Teithio Prydain Fawr - https://gbtswalesla.kantar.com/ViewTable.aspx
[77] Yn ôl Booking.com
[78] https://www.express.co.uk/travel/articles/689534/This-unlikely-seaside-town-has-just-been-voted-Britain-s-BEST-margate-kent

**Ffigwr 21. Cymhariaeth Llandudno v Margate**




**Atyniadau**

Mae enw da Margate fel cyrchfan glan y môr Saesnig yn gweithredu i ddenu ymwelwyr, drwy ei asedau traddodiadol, sef traeth Margate, y Lido, a Dreamland, profiad difyrrwch glan y môr sydd wedi ei adnewyddu a'i ailagor, gyda reidiau hanesyddol, sioeau clasurol a bwytai. Mae atyniadau eraill ar gael o fewn y dref, gan gynnwys amgueddfeydd megis amgueddfa Margate, sy'n dweud hanes ymdrochi yn y môr ac ymwelwyr dydd, profiad teganau Canolfan Ymwelwyr Hornby ac asedau treftadaeth megis Tudor House, tŷ canoloesol a adeiladwyd ym 1525. Theatr Brenhinol y dref yw'r hynaf ond un yn y wlad, ac mae Theatr Tom Thumb yn un o'r theatrau lleiaf yn y byd.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae Margate wedi datblygu enw da fel cyrchfan diwylliannol, sydd wedi cael ei adeiladu ar ôl agor Oriel Turner Contemporary ar lan y môr Margate yn 2011, sydd wedi dod yn gyrchfan ymwelwyr o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Oriel Turner Contemporary wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio Margate a Dwyrain Caint, gan groesawu dros 1.5 miliwn o ymwelwyr ers ei agor, gan gynnwys 352,400 yn 2015 pan welwyd cynnydd o 30% mewn teithio ar y rheilffordd i Margate[79].

Mae Winter Gardens Margate yn cynnig cyfleusterau cynadledda, yn ogystal â gweithredu fel lleoliad adloniant. Mae'n cynnig cyfleusterau seminar a chynadledda llawn, gyda threfniadau ystafell hyblyg er mwyn lletya digwyddiadau sy'n amrywio o gynhadledd dull theatr i 1,400 – yn debyg i'r awditoriwm yn Venue Cymru – i 750 i wledda gyda nifer o ystafelloedd llai (sy'n llai na'r 1,000 i wledda a gynigir gan Venue Cymru). O ran adloniant, mae Winter Gardens Margate yn cynnig ystod eang o ddigwyddiadau, ond yn gyffredinol yn denu artistiaid llai sefydledig na Venue Cymru, ac nid yw'r rhaglen bresennol yn adlewyrchu proffil gynadledda sylweddol. Fodd bynnag, mae Winter Gardens Margate yn elwa o'i dreftadaeth a statws Rhestredig Gradd II, ac enwyd y lleoliad sy'n 107 oed, "yn un o'r deg o leoliadau gig mwyaf hardd yn y DU" gan BBC Music[80].

Fel cyrchfan glan y môr, mae Margate wedi profi adfywiad, yn bennaf oherwydd Oriel Turner Contemporary (fel oriel a chyrchfan pensaernïol) a Llundeinwyr yn symud i'r dref. Ni all hyn gael ei ail-wneud yn Llandudno. Fodd bynnag, mae'r dref wedi gwneud y mwyaf o'i threftadaeth artistig drwy ei chysylltiad â J.M.W Turner a Tracey Emin ac wedi denu ymwelwyr ac arwain at nifer o fusnesau ac orielau yn adleoli i'r dref, gan gadarnhau ei enw fel tref greadigol ac artistig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu gyda darpariaeth grant ar gyfer artistiaid i leihau'r risg i sefydliadau stiwdios ac orielau yn yr ardal, fel sefydliad Oriel Carl Freedman. Mae'r buddsoddiadau i'r cynnig hamdden megis Dreamland yn dangos effaith gadarnhaol y gall prosiectau graddfa fawr eu cynnig, ac yn achos Dreamland wedi ei hwyluso drwy gorchymyn prynu gorfodol gan y Cyngor Tref. Er nad oedd Dreamland yn llwyddiant llwyr, pan wnaeth £50 miliwn i ail-lansio yn 2015 arwain at orfod rhoi'r parc yn nwylo'r gweinyddwyr cyn i £25 miliwn arall ar gyfer ail-lansio yn 2017 weld y cwmni yn dod allan o ddwylo'r gweinyddwyr, gyda thorfeydd yn aml yn cyrraedd 15,000, a chynlluniau ar y gweill ar gyfer 9 reid newydd fel rhan o adnewyddu'n raddol.

**Digwyddiadau**

[79] http://www.artlyst.com/news/turner-contemporary-proves-popular-with-record-visits-for-2015/
[80] https://theisleofthanetnews.com/margate-winter-gardens-named-in-top-ten-most-beautiful-uk-gig-venues/

Mae'r calendr ddigwyddiadau yn Margate yn canolbwyntio'n gryf ar gerddoriaeth a digwyddiadau dull gwyliau, gyda Charnifal Margate a Gŵyl Soul Margate, a gynhelir ym mis Awst, y digwyddiad mwyaf ym Margate, yn ogystal â digwyddiadau eraill megis Margate: NOW, Gŵyl Roc a Blues Margate a Phenwythnos Byd y Ddawns.

Er nad ydynt yn ddigwyddiadau ffurfiol, mae calendr Margate yn llawn o arddangosfeydd a gynhelir yn Oriel Turner Contemporary, gyda Grayson Perry: Provincial Punk yn arddangosfa mwyaf llwyddiannus yr oriel ers ei agoriad yn Ebrill 2011, gyda 192,177 o ymweliadau. Mae Dreamland, drwy ei rôl ehangach fel lleoliad adloniant, hefyd yn cynnal digwyddiadau megis Dreamland Introducing, gŵyl gerddoriaeth lleol, a GEEK, gŵyl gemau cyfrifiadur, a gynhaliwyd yn 2018.

Fel arall, cynhelir digwyddiadau gan amlaf yn ystod misoedd yr haf ac nid oes yr un lefel o weledоткуда neu ystod o ddigwyddiadau - o ran categori a thymhorol - ym Margate ag yr hyn sydd yn Llandudno.

Mae calendr ddigwyddiadau Margate yn gweddu gyda'i enw da fel cyrchfan ffasiynol (Shoreditch on Sea[81]) sy'n addas ar gyfer gwyliau cerddoriaeth, dawns a gemau cyfoes. Mae'r gymhariaeth gyda Margate yn amlygu'r angen i Landudno gadw ffocws ar ei ddemograffeg wrth gynllunio digwyddiadau, ac eto, y bwlch posibl yn y farchnad o ran digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth, sydd yn eithaf prin yn Llandudno ar hyn o bryd oni bai am Ŵyl Gorawl Llandudno a Gŵyl Jas Llandudno.

**Amwynderau**

Ym Margate, mae 12 o gyfleusterau toiledau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn 8 yn fwy na'r nifer yn Llandudno, er bod Llandudno yn cynnig 11 arall drwy'r cynllun toiledau cymunedol. O ystyried y boblogaeth a'r nifer o ymwelwyr dydd, mae gan Landudno ddarpariaeth uwch na Margate.

Wrth edrych ar fannau parcio ceir, mae Margate yn cynnig 1,165 o fannau parcio o'i gymharu â 1,312 yn Llandudno[82]. O ystyried y boblogaeth a'r nifer o ymwelwyr dydd, mae'r ddarpariaeth parcio a gynigir gan yr Awdurdod Lleol yn Llandudno yn 40% yn uwch na Margate[83], er bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu dibyniaeth Margate ar ymwelwyr dydd o Lundain yn cyrraedd ar y trên.

Mae cynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd ym Margate yn gyfrifoldeb ar Gyngor Sir Caint. Yn 2017/18 dyrannwyd wariant gros o £8.5 miliwn ar gyfer cynnal a chadw ac ymateb i argyfwng, sy'n cynnwys archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw arferol a mân atgyweiriadau o 8,5000km o briffordd a 5,000km o balmentydd, yn ogystal â chydlynu holl waith ffordd a gyflawnir gan gwmnïau cyfleustodau a chontractwyr. Mae hyn wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ar ôl cymaint â £12.4 miliwn yn 2014/15. Mae'r dref yn cadw ei ganolbwynt ar wella golwg yr ardaloedd manwerthu: celfi stryd, sbwriel, parcio, blodau, goleuadau a gweithio gyda busnesau a gwirfoddolwyr i wella golwg a'r cynnig drwy wyliau a digwyddiadau i ddenu ymwelwyr.

Fel gweddill Margate, mae buddsoddiad yn y parth cyhoeddus yn adeiladu o sylfaen isel, gyda'r Cynllun Economaidd yn cynnwys y nod i adfer yr amgylchedd trefol. Enillodd y New King's Stairs, sy'n cysylltu Harbwr Margate gyda'r Hen Dref wobr dylunio cenedlaethol parth cyhoeddus civic voice yn 2015. Mae prosiectau mawr hefyd ar y gweill ar lan y môr Margate, gan gynnwys creu Parc Arfordir Margate[84], 5 cilometr o forlin gan gynnwys man cyhoeddus ar glogwyn gyda phromenadau a llochesi i'r blaendraeth. Nod y prosiect yw cynyddu gwerth chwaraeon a hamdden y man cyhoeddus hwn drwy greu gwahanol ardaloedd o ddiddordeb a defnydd. Bydd y saith lloches yn cael eu hail-ddefnyddio heb newid eu cymeriad er mwyn creu canolfannau ar hyd y forlin; bydd gwaith plannu er mwyn cyflwyno amrywiaeth i'r tirlun a diffinio swyddogaeth. Hefyd mae "Cadwyn o Berlau" gyda'r nod o gysylltu atyniadau allweddol gyda mannau cyhoeddus safonol ar draws y dref. Gan fod cyflwr y llochesi ar hyd Promenâd Llandudno wedi cael ei nodi fel pryder allweddol, gall ddewis tebyg fod yn gymwys i Landudno, a fydd yn ei dro yn ychwanegu at brofiad ymwelwyr ar hyd y promenâd.

**Manwerthu**

Nid yw Margate wedi cael ei gynnwys ym Mynegai Hyfywedd Manwerthu Harper Dennis Hobbs, tra bo Llandudno yn safle 169. Mae hyn yn adlewyrchu dirywiad canol tref Margate, yn arbennig ar ôl dirwasgiad 2008, pan gafodd y dref £100,000 gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (erbyn hyn yn Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) a'i ddewis fel un o'r Peilot Portas, gyda'r nod o adfywio strydoedd mawr oedd yn methu. Yn

[81] https://www.telegraph.co.uk/finance/property/11686806/How-the-East-Kent-coast-became-the-new-Shoreditch.html
[82] https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Parking-and-Permits/Coach-and-Car-Parking/Pay-and-Display-Car-Parks/Llandudno-Car-Parks.aspx
[83] Yn Llandudno mae nifer fawr o fannau parcio hefyd ar gael ym Mostyn Champneys ac Asda sy'n agos at canol y dref a all gael eu defnyddio gan gwsmeriaid sy'n talu. Fodd bynnag nid yw rhain wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad gan fod y cyhoedd ar feysydd pardio'r sector gyhoeddus.
[84] https://www.coastalcommunities.co.uk/wp-content/uploads/2016/05/Margate-CCT-Economic-plan-2016.pdf

2011, Margate oedd gan y gyfradd siopau gwag uchaf ar y stryd fawr yn y DU, ar 37.4%[85]. Er bod y Peilot Portas wedi bod yn fethiant, fe arweiniodd at ffurfio Tîm Tref Margate gyda'r nod o adnewyddu farchnad manwerthu'r dref ac mae'r niferoedd o unedau gwag yn y dref wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf wrth i'r dref adfywio.

Mae'r mesurau sydd wedi eu defnyddio yn cynnwys "Pop-up – Margate", uned fawr sy'n galluogi i fusnesau newydd gael y cyfle i fasnachu heb gyfraddau gyda rhent o £35 yr wythnos. Mae hyn wedi arwain at 15 o fusnesau newydd yn sefydlu eu hunain ac wedi symud i siopau ers dechrau yn y farchnad "pop-up"[86]. Mae Margate hefyd wedi gweld cynnydd yn y nifer o siopau hen bethau, caffis annibynnol a siopau dodrefn ail-law, yn arbennig o fewn yr Hen Dref, yn ogystal â chynnydd mewn siopau bwtîc ffasiynol yn ardal Cliftonville, sydd wedi elwa o'r ffyniant diweddar yn y farchnad dai[87], sydd hefyd yn gartref i Farchnad y Ffermwyr a gynhelir ar ddydd Sul olaf bob mis. Fodd bynnag, mae rhent uchel, diffyg mannau parcio a chyfraddau busnes drud yn parhau i effeithio busnesau manwerthu ar draws y dref[88].

Mae nifer o welliannau ym Margate yn y cynnig manwerthu yn gysylltiedig â'r mewnlifiad o breswylwyr cefnog o Lundain, ac felly wedi digwydd yn organig. Fodd bynnag, mae'r cysyniad "Pop-up Margate" yn cynnig y posibilrwydd ar gyfer Llandudno, yn arbennig ar gyfer busnesau newydd sy'n ceisio sefydlu eu hunain yn y farchnad neu sy'n targedu marchnadoedd arbenigol (gall hyn fod yr achos os yw Llandudno yn ystyried mabwysiadu gallu penodol, megis meithrin ei gynnig manwerthu bwyd a diod lleol neu dargedu proffiliau ymwelwyr newydd). Mae effaith cyfraddau busnes uchel, rhent uchel a diffyg mannau parcio ym Margate hefyd wedi cael ei adlewyrchu yn Arolwg Busnes Llandudno, a gall hyn gael effaith sylweddol ar ddatblygiad canol y dref os na ellir ei reoli yn briodol.

**Bwyd a Diod**

O ystyried poblogaeth a nifer yr ymwelwyr, mae gan Landudno 1.38 gwaith y nifer o sefydliadau bwyd a diod sydd gan Margate, sy'n cael ei yrru gan y nifer uchel o gaffis yn Llandudno. Fodd bynnag, mae gan Margate enw da fel cyrchfan bwyd a diod, gyda chynnig bwytai a barau ffyniannus[89] a chanolbwynt ar fusnesau annibynnol. Mae canolbwynt hefyd ar fwyd stryd, gyda chanolfan bwyd stryd wedi ei sefydlu ar y promenâd, gan alluogi bwyd a diod anffurfiol o safon uchel i ymwelwyr a thrigolion. Gall hyn fod yn faes i Landudno ganolbwyntio arno, gyda bwyd stryd yn tyfu mewn poblogrwydd i gwsmeriaid sy'n ystyried cost ac ansawdd, wrth i gadwyni bwyta anffurfiol ddirywio[90].

O ran ansawdd, mae 2 fwyty ym Margate wedi derbyn gwobrau AA, ac mae un o'r rheiny – Sands Hotel – wedi ennill nifer o wobrau. I'r gwrthwyneb, mae gan Landudno 5 bwyty neu westy gyda'r wobr AA. Yn seiliedig ar faint y lleoliad, mae gan Landudno fantais nodedig o ran niferoedd y bwytai o safon uchel.

**Llety**

Mae 4 o westai 3* neu 4* yn Margate, o'i gymharu â 23 yn Llandudno. Mae'r nifer o deithiau dros nos i Margate oddeutu 30% y nifer i Landudno[91], fodd bynnag, o ystyried hyn, mae'r nifer o westai o safon uchel yn llawer uwch yn Llandudno[92]. Gall hyn fod oherwydd dibynadwyedd Margate ar ymwelwyr dydd ac adlewyrchiad o'i gwymp cyn bodolaeth Oriel Turner Contemporary.

Mae arwyddion bod hyn yn newid gyda thai a gafodd eu hadnewyddu fel rhandai yn cael eu hail-agor i'r farchnad dwristiaeth, hen westai yn dod yn ôl i ddefnydd a buddsoddiad newydd yn y stoc llety i ymwelwyr, gyda chynlluniau ar gyfer gwesty 100 o ystafelloedd a gofod digwyddiadau ger yr Oriel Turner Contemporary[93] (wedi'i ddylunio gan Syr David Chipperfield) a gwesty bwtîc saith llawr, 117 o ystafelloedd yn Cliftonville yn derbyn caniatâd cynllunio[94].

### 6.5 Scarborough

Mae Scarborough yn dref sba yng Ngogledd Swydd Efrog sydd wedi bod yn denu twristiaid am dros 400 o flynyddoedd, ac yn marchnata ei hun fel y cyrchfan glan y môr gwreiddiol. Yn debyg i Landudno, mae


85 https://www.theguardian.com/business/2011/feb/15/empty-shops-killing-uk-high-streets
86 https://www.kentlive.news/news/kent-news/margates-high-street-slowly-regenerating-748674
87 https://www.gq-magazine.co.uk/article/margate-city-guide-travel-tips
88 https://www.kentlive.news/news/kent-news/margates-high-street-slowly-regenerating-748674
89 https://www.gq-magazine.co.uk/article/margate-city-guide-travel-tips
90 https://www.theguardian.com/business/2018/feb/03/emerging-markets-street-food-booms-as-investors-get-the-taste
91 https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/England-documents/gb_tourist_report_2015.pdf
92 Fodd bynnag nid yw hyn yn ystyried hyd yr arhosiad, lle nad oes data cymhariaeth ar gael.
93 https://www.architectsjournal.co.uk/news/chipperfield-floats-hostel-plans-next-to-turner-contemporary-to-boost-margates-revival/10034004.article
94 https://guyhollaway.co.uk/news/horses-corner-approval-granted/

Scarborough wedi'i gysylltu â dau draeth. Mae mwyafrif yr atyniadau ym Mae y De, gan gynnwys harbwr a 3 pier, a rheilffordd halio, ffair ac arena. Mae Bae y Gogledd yn dawelach o ran atyniadau, sy'n cynnwys parc thema Siapaneaidd a lloches bywyd môr, ond mae teimlad mwy gwyllt a garw yma sy'n boblogaidd gyda syrffiwyr. Mae Scarborough hefyd yn agos i amgylchedd awyr agored o safon uchel, gyda Rhostir Gogledd Efrog a Coedwig Dalby gerllaw, tra bod trefi glan y môr nodedig eraill megis Filey, Whitby a Staithes ar hyd yr arfordir.

Yn debyg i Margate, erbyn diwedd yr 20fed ganrif, dioddefodd Scarborough ostyngiad mewn twristiaeth a dirywiad diwydiannau traddodiadol megis pysgota, a effeithiodd ar y dref. Mae hyn wedi arwain at faterion cymdeithasol hirdymor yn y dref, gyda chyflogau isel a diweithdra uchel yn nodweddion cyffredin o fywyd yn Scarborough, ynghyd â chyfraddau uchel o fethdaliadau a iechyd a chyrhaeddiad addysgol gwael.

Yn 2015, gwnaed 5.6 o deithiau dydd i Fwrdeistref Scarborough[95], gostyngiad o 10% o'i gymharu â 2014. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae twf cyson wedi bod yng ngwerth twristiaeth – yn 2015 cynyddodd gwariant teithiau dros nos 7% a chynyddodd gwariant ymwelwyr dydd 2%[96]. Roedd cyfartaledd gwariant ymwelwyr dydd yn Scarborough yn £35.69 yn 2015, ychydig yn is na'r cyfartaledd ar draws Prydain Fawr, tra bod gwariant cyfartalog fesul noson yn £69.75, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd.

**Ffigwr 22. Cymhariaeth Llandudno v Scarborough**




**Atyniadau**

Fel cyrchfan glan y môr traddodiadol, mae atyniadau Scarborough yn dangos cydweddiad gyda'r rhai yn Llandudno, trwy bresenoldeb y traethau, cychod pleser Scarborough, arcêd a rheilffyrdd treftadaeth, megis Rheilffordd North Bay, Rheilffordd North Yorkshire Moors a Rheilffordd Scarborough Cliff. Rheilffordd Scarborough Cliff yw atyniad â tâl yr ymwelir ag o fwyaf yn Scarborough, gan ddenu 470,000 o ymwelwyr yn 2017 o'i gymharu â Thramffordd y Gogarth a ddenodd 196,420 o ymwelwyr, er fod gan Scarborough a Llandudno niferoedd tebyg o ymwelwyr dydd. Fodd bynnag mae Tramffordd y Gogarth yn gweithredu ar system wahanol, sy'n golygu amlder gwasanaeth is ar hyd llwybr llawer hirach, ac mae'r pris dair gwaith yn fwy. Mae'r dref hefyd yn gartref i Gastell Scarborough, Amgueddfa Daeareg Rotunda William Smith sef yr amgueddfa bwrpasol hynaf ond un ym Mhrydain, a chynnig treftadaeth yn seiliedig ar ei hanes mordeithiol a hanes fel cyrchfan glan y môr, sy'n cael ei amlygu drwy Gasgliad Ffair Scarborough a Chanolfan Dreftadaeth Forol a'i lithrfa ddŵr a llyn cychod hanesyddol, a gafodd ei bleidleisio yn neg uchaf Atyniadau Glan y Môr Hanesyddol gan y Guardian[97].

Yn y blynyddoedd diwethaf mae Scarborough wedi datblygu nifer o atyniadau i deuluoedd gydag ychwanegiadau diweddar yn cynnwys Parc Dŵr Alpamare werth £14 miliwn, sef parc dŵr awyr agored yn edrych dros Fôr y Gogledd, Parc Dŵr Gogledd Swydd Efrog sy'n cynnig cwrs dŵr arnofio a sinema aml-sgrin. Mae'r rhain yn ychwanegu at yr asedau presennol, megis Lloches Bywyd Môr Scarborough sydd â phroffil cryf – yn gweithredu fel atyniadau ynddynt eu hunain – er fod nifer cyfyngedig o atyniadau tywydd gwlyb yn y dref. Mae Scarborough hefyd wedi buddsoddi yn ei harbwr, drwy welliannau i'r parth cyhoeddus, ac mae cynlluniau wedi cael eu llunio ar

[95] Mae hyn yn cynnwys cyrchfannau eraill megis Filey a Whitby ac felly mae'r nifer o ymwelwyr dydd i Scarborough yn debygol o fod yn llawer llai.
[96] The Economic Impact of Tourism on Scarborough District 2015
[97] https://www.discoveryorkshirecoast.com/Scarborough-Historic-Water-Chute-and-Boating-Lake/details/?dms=3&venue=1717617#

gyfer adfywio Pier y Gorllewin, sy'n cynnwys cyfleusterau gwell ar gyfer defnyddwyr y porth a gweithrediadau masnachol a manwerthu newydd posibl[98].

Mae cynnig adloniant y dref wedi cael ei gryfhau drwy ailddatblygu Theatr Awyr Agored Scarborough yn 2010, lle cafwyd 75,000 o bobl mewn 14 cyngerdd yn 2017[99], cynnydd o 50% ar y flwyddyn flaenorol. Gyda 20 o gyngherddau wedi'u trefnu ar gyfer 2018, disgwylir i hyn gynyddu ymhellach. Mae ei gynnig theatr hefyd yn cael ei gefnogi gan ei gysylltiadau gyda'r dramodydd Alan Ayckbourn, sy'n gysylltiedig â Theatr Stephen Joseph yn y dref. Cafodd Cyfadeilad Sba Scarborough ei adnewyddu yn 2010 gyda chefnogaeth y Cyngor[100] ac mae'n cefnogi cynnig adloniant y dref, gyda'r Neuadd Fawr yn lletya 2,000 a theatr Fictoraidd 600 sedd, gyda chysylltiad â Rheilffordd y Cliff. Mae'r Cyfadeilad Sba hefyd yn cynnig cyfleusterau cynadledda, er ei fod ar raddfa llai na Venue Cymru, gyda rhaglen gynadledda cyfyngedig. Mae Scarborough yn gartref i gasino, datblygiad £7 miliwn sydd yn yr hen Dŷ Opera.

O ran ei sylfaen atyniad fel lleoliad glan y môr traddodiadol, mae bylchau rhwng Llandudno a Scarborough, ac mae safon rhai o atyniadau Scarborough ar Arfordir y Gogledd, megis Parc Luna wedi cael eu disgrifio fel "tacky" ac yn denu partïon plu a stag[101]. Fodd bynnag, mae llwyddiant y Rheilffordd Cliff, sy'n derbyn bron i ddwywaith y nifer o ymwelwyr na Thramffordd y Gogarth, yn awgrymu y gellir gwneud mwy gyda'r atyniad hwn. Gwnaed ymdrech benodol i fuddsoddi yn sail atyniad Scarborough, drwy adnewyddu'r Theatr Awyr Agored a Chyfadeilad Sba, yn ogystal ag atyniadau newydd fel y Parc Dŵr Alpamare, Lloches Bywyd Môr, Parc Dŵr Gogledd Swydd Efrog a'r sinema aml-sgrin. Felly mae Scarborough wedi ehangu ei gynnig atyniadau i ffwrdd o'r cynnig glan y môr traddodiadol. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr atyniadau yn rhai tymhorol a nifer cyfyngedig iawn o atyniadau tywydd gwlyb sydd ar gael o fewn y dref.

**Digwyddiadau**

Mae calendr ddigwyddiadau Scarborough yn canolbwyntio ar ei hanes a'i dreftadaeth drwy ddigwyddiadau fel Naval Warfare ym Mharc Peasholm, model o frwydr forwrol a gynhaliwyd gyntaf ym 1927; Seafest, dathliad o dreftadaeth forwrol Arfordir y Gogledd Ddwyrain a Diwrnod Lluoedd Arfog Scarborough, yn dathlu'r rhai yn y gymuned a wasanaethodd neu sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae Scarborough hefyd yn cynnal digwyddiadau chwaraeon, megis Tour de Yorkshire. Mae'r cymal glan y môr wedi ei gynnal yn Scarborough er cread y ras, sy'n denu nifer o ymwelwyr i'r dref. Mae Gŵyl Griced Scarborough, un o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf hanesyddol yn y byd, wedi gweld rhai o gricedwyr gorau'r byd, gyda thorfeydd fawr o bobl ar eu gwyliau yn gwylio cricedwyr o'r radd flaenaf ers 1876. Mae Scarborough hefyd yn cynnal Gŵyl Fowls a Ras Arfordir 10k Swydd Efrog.

Mae Cyfadeilad Sba Scarborough yn hanfodol i gynnig digwyddiadau'r dref, gan gynnal digwyddiadau megis Gŵyl Jas Scarborough, sydd wedi cael ei gynnal ers 16 o flynyddoedd a Gŵyl Gymdeithas Gin, yn canolbwyntio ar y twf sylweddol yn y farchnad gin yn ddiweddar. Mae Cerddorfa Sba hefyd yn cynnal nifer o gyngherddau yn ystod y tymor prysur, megis y sioe dân gwyllt ym Mharc Peasholm ar Ŵyl y Banc mis Awst.

Cynhelir ystod o ddigwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar y sector fwyd, megis y farchnad fwyd fisol a'r Ŵyl Fwyd a Diod flynyddol, yn ogystal â digwyddiadau eraill gan gynnwys digwyddiadau yn canolbwyntio ar geir a beiciau modur clasurol, Gŵyl Lenyddiaeth Books by the Beach a Coastival, gŵyl gelfyddydau flynyddol a gynhelir ers 2009.

Trwy ei Ddiwrnod Lluoedd Arfog, Strafagansa Fictoraidd a Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru, mae Llandudno hefyd yn dangos canolbwynt ar ei dreftadaeth a hanes o fewn y calendr ddigwyddiadau, sy'n atyniad allweddol ar gyfer y ddemograffeg o ymwelwyr, yn debyg i Scarborough. Ar wahân i'r cryfder gyda Tour de Yorkshire yn ymweld â'r dref (dylid nodi bod Llandudno wedi bod yn gymal ar gyfer Taith Prydain hefyd), mae gan Landudno gynnig chwaraeon mwy amrywiol. Ond fel y nodwyd yn flaenorol, mae bylchau yn Llandudno o ran digwyddiadau yn ymwneud â bwyd a chyngherddau a chynyrchiadau awyr agored mewn perthynas â'r trefi cymharu eraill.

**Amwynderau**

Yn Scarborough, mae 7 o gyfleusterau toiledau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn 8 yn llai na'r nifer yn Llandudno, er bod Llandudno yn cynnig 11 arall drwy'r cynllun toiledau cymunedol. O ystyried y boblogaeth a'r nifer o ymwelwyr dydd, mae gan Landudno ddarpariaeth uwch na Scarborough.

[98] https://www.yorkshirepost.co.uk/news/major-new-plans-for-scarborough-s-historic-harbour-and-there-could-be-a-fishing-boom-1-8634524
[99] http://www.scarboroughopenairtheatre.com/2017/09/14/scarborough-open-air-theatre-set-exciting-future-new-10-year-deal-agreed/
[100] https://www.bbc.co.uk/news/10485146
[101] https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-36938992

Wrth edrych ar fannau parcio ceir, mae Scarborough yn cynnig 2,403 o fannau parcio o'i gymharu â 1,312 yn Llandudno[102]. O ystyried nifer yr ymwelwyr dydd a phoblogaeth, mae'r ddarpariaeth parcio gan yr Awdurdod Lleol yn uwch yn Scarborough nac yn Llandudno. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu isadeiledd cludiant gwael sydd yn Scarborough, gyda siwrneiau rheilffordd yn cymryd cryn dipyn o amser, e.e. mae Scarborough 40 milltir o Efrog, ond mae taith ar drên yn cymryd 50 munud.

Mae parth cyhoeddus Scarborough wedi derbyn buddsoddiad yn y blynyddoedd diwethaf, gyda buddsoddiad gan Gronfa Buddsoddi Cynhyrchiant Cenedlaethol gan Gyngor Sir Gogledd Swydd Efrog. Cafodd hyn ei roi tuag at rhoi wyneb newydd i brif bromenâd Bae y Gogledd a gwelliannau i'r parth cyhoeddus er mwyn annog mynediad i'r rhan o'r dref sy'n llawn treftadaeth a chysylltu'r dref gyda glan y môr. Roedd hyn yn cynnwys newid palmentydd presennol, celfi stryd a choed, celf cyhoeddus newydd a dehongliad gwell o hanes yr Hen Dref. Mae'r canolbwynt ar foderneiddio a gwella'r parth cyhoeddus a chanolbwynt ar saernïaeth dreftadaeth yr hen dref yn adlewyrchu pwysigrwydd golwg y strydlun a all gynyddu nifer y bobol a chynnal cynnig manwerthu annibynnol cryf. Dylai Llandudno ystyried hyn wrth fynd ymlaen.

**Manwerthu**

Mae Scarborough yn safle 287 ym Mynegai Hyfywedd Manwerthu Harper Dennis Hobbs, o'i gymharu â Llandudno sydd yn safle 169. Mae hyn wedi ei annog gan gyfradd siopau gwag uwch yn Scarborough (7.0% o'i gymharu â 5.4% yn Llandudno) a chyfran uwch o siopau annymunol megis siopau betio a siopau bwyd cyflym.

Mae cynnig manwerthu Scarborough yn cynnwys siopau adrannol ac enwau poblogaidd y stryd fawr, gyda nifer ohonynt wedi'u lleoli o amgylch Canolfan Siopa Brunswick. Mae siopau bwtîc unigryw, siopau hen ddodrefn a chynnyrch lleol, megis y rhai sydd ym Marchnad Vaults y dref. Dyma farchnad tu mewn unigryw y dref sydd wedi rhedeg ers 1853[103].

Er bod gan Scarborough gyfradd siopau gwag eithaf isel ar 7.0%, ar ddechrau'r ddegawd roedd y gyfradd mor isel â 2.4%, ac mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau i ganol y dref er mwyn gwella profiad ar gyfer ymwelwyr a thrigolion. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r strydlun rhwng yr harbwr a'r Hen Dref, gan gynnwys gwelliannau i'r parth cyhoeddus, ac mae'r Neuadd Farchnad hefyd wedi cael ei adnewyddu gyda £2.78 miliwn, gan arwain at greu stondinau newydd ar gyfer mentrau newydd a lledlawr newydd gyda bwyty sy'n cynnig golygfeydd o Gastell Scarborough[104].

Er nad yw cynnig manwerthu Scarborough yn rhoi nifer o wersi ar gyfer Llandudno, mae adnewyddu'r Neuadd Farchnad o ddiddordeb, oherwydd y twf mewn buddsoddiad neuaddau fwyd ar draws y DU, megis Marchnad Altrincham a Mackie Mayor ym Manceinion, yn dilyn esiamplau marchnadoedd yn Ewrop, megis Marchnad Time Out yn Lisbon a La Boqueria ym Marcelona.

**Bwyd a Diod**

O ystyried y boblogaeth a nifer yr ymwelwyr, mae gan Landudno nifer tebyg o sefydliadau bwyd a diod i Scarborough, er bod gan Landudno fwy o dafarndai a chaffis ond llai o fwytai. Mae cynnig bwyd Scarborough yn canolbwyntio'n benodol ar fwyd môr, gyda fflyd pysgota gweithredol yn gweithio o harbwr y dref, a gall Landudno ystyried gwneud hyn mewn perthynas â chychod siarter Conwy. Ond mae diffyg amrywiaeth o'i gymharu â'r trefi cymharu eraill.

O ran safon, mae 2 fwyty yn Scarborough wedi derbyn gwobr AA. I'r gwrthwyneb mae 5 o fwytai a gwestai yn Llandudno wedi derbyn gwobrau AA, gan gynnwys nifer o wobrau ar gyfer Neuadd a Sba Bodysgallen, Gwesty Dunoon a Gwesty'r Imperial. Yn seiliedig ar faint y lleoliad, mae gan Landudno fantais nodedig o ran niferoedd y bwytai o safon uchel.

**Llety**

Mae 16 o westai 3* neu 4* yn Scarborough, o'i gymharu â 23 yn Llandudno, gan roi mantais nodedig i Landudno o ran llety o safon uchel. Fodd bynnag mae deiliadaeth mewn llety â gwasanaeth oddeutu 48.5%, sy'n llawer is na 68.0% a ddisgwylir yn Llandudno. Er gwaethaf deiliadaeth isel yn Scarborough, mae cynlluniau ar gyfer Premier Inn 105 o ystafelloedd wedi cael ei gymeradwyo ar safle Parc Dŵr newydd Alpamare, gan awgrymu posibilrwydd i gysylltu gwestai gydag atyniadau penodol, fel y gwelwyd yng nghynlluniau Surf Snowdonia ar gyfer

[102] http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Parking-and-Permits/Coach-and-Car-Parking/Pay-and-Display-Car-Parks/Llandudno-Car-Parks.aspx
[103] https://www.visitengland.com/experience/experience-underground-shopping-scarboroughs-vaults-market
[104] https://www.northyorks.gov.uk/scarborough-precinct

gwesty 106 o ystafelloedd yn y Parc, sy'n cynnwys weiren wib, gofod digwyddiadau, sba a chanolfan antur tu mewn[105].

Er nad yw'n llety i ymwelwyr, mae Cyngor Scarborough hefyd yn cynnig cytiau traeth lliwgar i ymwelwyr yn wythnosol, blynyddol a thymhorol a llogi dros y gaeaf ym Mae Deheuol Scarborough, gyda chytiau ar Draeth y Gogledd yn cael eu darparu gan weithredwr preifat. Yn y cytiau traeth mae sinc, tegell, cyflenwad pŵer a chadeiriau traeth, gyda rhai wedi cael eu haddasu gan y gweithredwr preifat i'w defnyddio fel lleoliadau parti priodas. Gall hyn fod yn opsiwn pe byddai Penmorfa yn datblygu cynnig traeth yn seiliedig ar weithgareddau, gyda'r posibilrwydd i gadw offer.

[105] https://www.placenorthwest.co.uk/news/surf-snowdonia-aims-to-build-four-star-hotel-by-2020/

# 7. Opsiynau yn y Dyfodol

## 7.1 Rhagarweiniad

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod gan Landudno'r potensial i gyflawni twf yn ei farchnad twristiaeth dros y 25 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn, bydd angen addasu er mwyn bodloni anghenion ymwelwyr a sicrhau ei fod yn cystadlu yn effeithiol gyda chyrchfannau eraill.

**Tabl 13. Crynodeb o syniadau posibl**

| | |
|---|---|
| **Llety** | Diogelu cadwyni gwesty nodweddiadol sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth annibynnol bresennol<br><br>Ehangu'r ystod o fathau o lety e.e. dewisiadau hunan-ddarpar megis rhandai/rhanwestai<br><br>Gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth bresennol |
| **Atyniadau** | **Traeth y Gogledd**<br><br>Atyniad tu mewn nodweddiadol e.e. oriel/amgueddfa<br><br>Ehangu'r ystod o atyniadau e.e. canolfan weithgareddau tu mewn; ystafelloedd dianc; canolfan bywyd môr; parc dŵr/thema; golff bychan tu mewn; profiad efelychu<br><br>Amwynderau Traeth y Gogledd – weiren wib; pêl foli traeth a thrampolinau; toiledau a chaffis a barau/siopau 'pop-up' ar y promenâd |
| | **Penmorfa**<br><br>Parthau traeth ar gyfer gwahanol ddefnyddiau<br><br>Canolfan weithgareddau ar gyfer chwaraeon dŵr, llogi beiciau a llogi segway,<br><br>Amwynderau megis caffis/bar a chyfleusterau cawod a newid. |
| | **Y Gogarth**<br><br>Buddsoddi mewn, a moderneiddio atyniadau presennol<br><br>Cysylltiadau gwell rhwng atyniadau<br><br>Llwybrau cerdded; platfform gwylio; llwybrau beicio mynydd; rhaffau uchel; atyniad Center Parcs / Forest Holidays |
| **Hybu economi gyda'r nos** | Menter nosweithiau golau |
| **Manwerthu** | Denu siopau annibynnol o safon uchel e.e. siopau dros dro a chyfleoedd marchnad<br><br>Cymorth ar gyfer siopau annibynnol e.e. punt Llandudno, gostyngiadau ar gyfraddau wedi'u targedu, prydlesi mwy hyblyg ad ad-drefnu gofod siopau |
| **Bwyd a Diod** | Marchnad fwyd rheolaidd dan do<br><br>Datblygu Neuadd Farchnad |
| **Amwynderau a Strydlun** | Cynnal a chadw strydoedd/blaen prif siopau e.e. ffurfio grŵp manwerthu/AGB/ strategaeth strydlun |

| | |
|---|---|
| | Adnewyddu llochesi'r promenâd |
| **Digwyddiadau a Gwyliau** | Digwyddiad mawr dros y gaeaf e.e. Fête des Lumières<br><br>Digwyddiadau bwyd; sinema awyr agored a theatr a mwy o gymorth ar gyfer digwyddiadau presennol megis LLAWN<br><br>Isadeiledd i gefnogi digwyddiadau e.e. Fferm Bodafon |
| **Celfyddydau a Diwylliant** | Gosodiadau cyhoeddus/dros dro<br><br>Parhau i gefnogi llawr gwlad e.e. dyrannu adeiladau gwag fel gofod stiwdio gan Ystadau Mostyn |
| **Amrywiol** | Strategaeth Ddigidol<br><br>Astudiaeth Cludiant<br><br>Uwchgynllun i gefnogi twf a buddion ehangach |

## Llety

**Yr angen am westy cadwyn nodedig**

Bwlch allweddol yng ngallu Llandudno i ddenu'r farchnad gynadledda – yn arbennig wrth archebu drwy asiant neu gorff proffesiynol – yw diffyg gwesty cadwyn i letya cynrychiolwyr. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod Venue Cymru yn colli allan ar gynadleddau oherwydd hyn, ac yn gweld cynrychiolwyr yn aros yng Nghaer (~50 milltir i ffwrdd) oherwydd polisi cwmnïau mewn perthynas â gwestai. Yn ogystal â hynny, mae tystiolaeth gan Gymdeithas Lletygarwch Llandudno yn awgrymu y gall deiliadaeth gyrraedd ei gapasiti o fewn yr wythnosau prysuraf a byddai diogelu gwesty cadwyn yn helpu i gynyddu'r capasiti. Fodd bynnag, dylai gwesty cadwyn o'r fath fod yn nodweddiadol o'r cynnig presennol sydd ar gael yn Llandudno a chwblhau'r ddarpariaeth bresennol o'r ystod o lety annibynnol yn y dref. Yn ogystal â hynny, mae'n hanfodol bod buddsoddiad drwy westy cadwyn yn cefnogi'r economi lleol, drwy ddefnyddio llafur lleol a chaffael lleol, cyfrifol, yn ogystal ag ymrwymo i weithio'n agos gyda Chymdeithas Lletygarwch Llandudno.

Mae profiad Cyngor Stockport yn awgrymu y gall CBSC chwarae rôl arweiniol i hwyluso buddsoddiad i'r stoc gwestai a, gan fod Venue Cymru yn cael ei weithredu gan CBSC, bydd diogelu gwesty brand yn y dref yn gweithredu i elwa ei asedau yn uniongyrchol os fydd galw priodol yn cael ei nodi yn yr Arolwg Llety Ymwelwyr nesaf.

**Astudiaeth Achos: Cyngor Stockport SPV**

Ym mis Ionawr 2011, drwy ddefnyddio ei bwerau benthyca darbodus – daeth Cyngor Stockport i gaffael Stockport Exchange (hen gyfadeilad hamdden ac adloniant) a chaffael Muse Developments Ltd fel partner datblygu, gyda'r dasg o drawsnewid yr ardal drwy ailddatblygu'r safle i greu canolfan swyddfeydd gydag ardal manwerthu ategol, gwesty a maes parcio aml-lawr. Sefydlodd y Cyngor dîm prosiect yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymorth a Chorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Rheoli Lle, mewn cydweithrediad â Chynghorydd Gweithredol (Gwasanaethau Corfforaethol, Cwsmeriaid a Chymuned) a Chynghorydd Gweithredol (Datblygiad Economaidd ac Adfywio) i weithio gyda'r datblygwr i ddiogelu'r trefniant ariannu mwyaf buddiol i ddiogelu'r datblygiad ac i wneud cytundebau a /neu lesoedd priodol er mwyn galluogi adeiladu, cyllido, gweithredu a defnyddio'r adeiladau.

Yna gweithredodd y tîm prosiect i benodi Interstate Ltd (IHG) - sydd â phortffolio rheoledig gan gynnwys brandiau fel Hilton Worldwide, InterContinental Hotels Group (IHG) a Wyndham Worldwide - ac awdurdodi gwaith gyda'r gweithredwr er mwyn cytuno ar benawdau'r telerau a chontractau rheoli priodol er mwyn galluogi'r gweithrediad a defnydd y gwesty. Cyn ei gwblhau, creodd Cyngor Stockport gwmni Cyfrwng at Ddibenion Arbennig – 'The Stockport Hotel Management Company Limited' – er mwyn masnachu a gweithredu'r gwesty yn y Stockport Exchange. Ni all y Cyngor gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu yn uniongyrchol, ac felly rhaid gwneud hynny drwy gwmnïau a sefydlwyd ar gyfer y diben. Cafodd swyddogion y Cyngor, nad ydynt yn derbyn unrhyw dâl na buddion personol, eu penodi fel cyfarwyddwyr Stockport Hotel Management Company Ltd.

Mae adeilad y gwesty – Holiday In Express sydd â 115 o ystafelloedd – ar les i Stockport Hotel Management Company Ltd, sy'n rheoli'r contract gyda IHG i redeg y gwesty. Roedd y cynllun busnes ar gyfer y datblygiad yn rhagweld y byddai buddsoddiad y Cyngor yn y rhan hwn o'r datblygiad yn arwain at elw o fewn un i ddwy flynedd. Roedd datblygiad Holiday Inn Express hefyd yn cael ei weld yn hanfodol er mwyn hwyluso buddsoddiad ehangach i'r stoc gwestai yn Stockport, gyda Travelodge yn cwblhau telerau ar gyfer gwesty 85 ystafell yn fuan wedi ei gwblhau.

**Ystod o'r mathau o lety**

Mae darpariaeth llety presennol Llandudno yn tueddu i fod yn uwch yn y sector gwestai. Mae ymchwil a'r dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod Llandudno yn dioddef o brinder, o ran niferoedd a safon, llety hunan-wasanaeth ar gyfer teuluoedd a'r farchnad gwyliau rhyng-genhedlaeth. Yn ôl Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, dim ond 2% o deithiau dros nos i Landudno a oedd yn defnyddio llety hunan-wasanaeth. Er fod tai llety a gwestai yn cynnig llety i deuluoedd, fel y nodwyd yn flaenorol, mae galw cynyddol yn y farchnad am fathau gwahanol o lety. Mae'r duedd hon yn debygol o barhau yn y 5-10 mlynedd nesaf, yn arbennig gyda thwf mewn llwyfannau megis Airbnb, lle mae tai teulu presennol ar gael. Mae oddeutu 80 o sefydliadau Airbnb ar gael yn ac o amgylch Llandudno lle gall westeion ddefnyddio'r cartref i gyd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn weddol isel o'i gymharu â Scarborough, lle mae 160 o unedau Airbnb ar gael.

Er mwyn osgoi dibyniaeth ar lety Airbnb, gall stoc llety Llandudno elwa o ychwanegu mwy o randai â gwasanaeth er mwyn amrywio'r ddarpariaeth llety. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn wedi bod yn faes lle mae Harrogate wedi gweld cynnydd nodedig yn y blynyddoedd diwethaf, gan fod y math hwn o lety yn hynod o ddeniadol i ymwelwyr busnes yn ystod y tymor cynadledda – gan gynnig cyfforddusrwydd, maint a hyblygrwydd – yn ogystal â denu teuluoedd yn ystod tymor prysur twristiaeth. Felly, gall buddsoddiad yn y math hwn o lety gynnig hyblygrwydd i'r dref o ran darparu cynnig hunan-wasanaeth deniadol i deuluoedd yn y tymor byr, wrth gynyddu ei gynnig i gynrychiolwyr cynadledda os fydd y farchnad hwn yn cynyddu yn y dyfodol.

**Gwelliannau Ansawdd**

Roedd yr ymgynghoriad yn amlygu'r gwelliannau a wnaed i lety ar draws Llandudno yn y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig i flaenau llety ar hyd Traeth y Gogledd, wedi'i gefnogi gan Gymdeithas Lletygarwch Llandudno. Fodd bynnag, roedd yr asesiad cymharu yn dangos fod Llandudno y tu ôl i gystadleuwyr o ran ansawdd cyffredinol y llety, sy'n cael ei ddal yn ôl rhywfaint gan "westai bysiau". Yn ogystal â hynny, roedd y gymhariaeth â Brighton yn amlygu bod lefelau deiliadaeth tai llety wedi cael eu taro gan y gystadleuaeth gynyddol gan Airbnb. Fodd bynnag, roedd tai llety safon uchel, h.y. 4* yn wahanol i'r duedd hon, ac mae'r dref yn parhau i weld galw sefydlog ar draws y math hwn o lety. Mae hyn yn awgrymu y dylai Llandudno gadw ffocws allweddol ar uwchraddio cyfleusterau a safon o fewn llety ar draws y dref, fel y nodwyd ym Mhapur Polisi Cymdeithas Lletygarwch Llandudno (2017), er mwyn mynd i'r afael â chystadleuaeth cynyddol drwy Airbnb[106], a llwyfannau eraill ac i ddod a lefelau ansawdd yn agosach i'r cystadleuwyr.

## Atyniadau

*Traeth y Gogledd*

Mae cydnabyddiaeth ymysg ymgyngoreion, bod angen i Landudno ddatblygu atyniadau drwy gydol y flwyddyn (h.y. tu mewn), gan ymestyn y tymor er mwyn denu ymwelwyr domestig a rhyngwladol newydd a goresgyn natur dymhorol eithriadol ym misoedd prysuraf yr haf. Gan fod Traeth y Gogledd yn ganolbwynt i gynnig twristiaeth y dref, awgrymir y dylai atyniad o'r fath fod yn agos i'r ardal hon er mwyn cysylltu'r cynnig manwerthu, bwyd a diod a thraeth. Mae profiad Margate yn dangos effaith trawsnewidiol y gall atyniad bob tywydd megis y Turner Contemporary ei gael ar gyrchfan, tra bod effaith tebyg wedi'i weld ar St Ives drwy lansio Oriel Tate yn y dref. Fodd bynnag, mae profiad o sefydlu'r orielau hyn ac atyniadau eraill o'r fath o fewn trefi, hefyd wedi amlygu'r angen am ddull strategol cydlynol, cryf ar gyfer diogelu buddsoddiad, gyda thîm yn ei le ym Margate am 10 mlynedd er mwyn darparu buddsoddiad yn y dref, wedi'i gefnogi gan "gefnogwr" lleol a'i ariannu gan y cyngor lleol.

Dylid nodi hefyd, bod atyniadau o'r fath yn wasgaredig a byddai Llandudno yn elwa o gadw canolbwynt ar ehangu ei sail atyniadau bob tywydd, yn arbennig wrth edrych ar drefi cymharu, megis Brighton, sydd â mwy o atyniadau o safon uchel a Scarborough sydd ag ystod ehangach o atyniadau teuluol megis y parc dŵr Alpamare, canolfan bywyd môr a ffair. Yn unigol, mae gan rhai o'r atyniadau hyn broffil cryf iawn, yn gweithredu fel atyniadau ynddynt eu hunain (e.e. Canolfannau Bywyd Môr, Parc Dŵr Alpamare yn Scarborough a'r i360 yn

[106] Nodir bod Airbnb yn lwyfan sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr llety presennol, sefydledig yn Llandudno. Fodd bynnag, mae'r llwyfan yn agor y farchnad llety i'r rhai gydag ystafelloedd sbâr neu i rentu cartrefi / ail gartrefi.

Brighton). Gyda'i gilydd, maent yn cryfhau tudalennau 'pethau i'w gwneud a'i gweld' ar gyfer teuluoedd; rhywbeth sydd ar goll yn Llandudno ar hyn o bryd.

Nodwyd nifer o syniadau posibl drwy ymchwil ac ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid lleol:

- Atyniadau tu mewn er mwyn adeiladu ar, neu weithredu fel cyflwyniad i / blas o'r gweithgareddau adrenalin uchel sydd ar gael ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys: canolfan ddringo tu mewn; trampolinio; atyniad math 'it's a knock-out'; canolfan weithgareddau tu mewn. Mae esiamplau yn cynnwys 'Oxygen Freejumping'[107]. Yn y tymor byr, fel datrysiad dros dro, awgrymwyd fod Venue Cymru yn parhau i gynnig gofod tu mewn i'r mathau hyn o atyniadau drwy gydol y misoedd prysuraf, pan mae Venue yn fwy distaw.
- Atyniad tu mewn i adeiladu ar gysylltiadau'r dref gydag Alice in Wonderland, drwy Barc Thema neu atyniad math 'Ystafell Ddianc'.
- Atyniadau traddodiadol megis canolfan bywyd môr, parc dŵr, golff bach tu mewn megis 'Junkyard Golf'[108].
- Atyniadau teuluol e.e. Byd Peppa Pig y Gogledd, gan adeiladu ar lwyddiant Byd Peppa Pig yn Hampshire.[109]
- Datblygu atyniad yn debyg i FlyOver Canada[110] yn Vancouver, sy'n defnyddio technoleg o'r radd flaenaf i godi ymwelwyr o flaen sgrin sffêr 20 metr tra bo ffilm yn darparu siwrnai anturus 8 munud ar draws Canada, o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae effeithiau arbennig, gan gynnwys gwynt, tarth ac arogl, yn ogystal â symudiad y reid yn creu profiad bythgofiadwy. Gall hyn gael ei ddatblygu ar sail Cymru/DU.

Mae Traeth y Gogledd yn gydran hanfodol o gynnig twristiaeth y dref. Roedd 28% o ymwelwyr Llandudno wedi cael eu denu gan draethau'r dref, ac mae agosatrwydd y dref i'r cynnig manwerthu a bwyd a diod y dref yn nodwedd unigryw i Landudno o'i gymharu â chyrchfannau eraill. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Cynllun Rheoli Traeth wedi datblygu nifer o opsiynau gyda mewnbwn gan Fforwm Arfordir Llandudno er mwyn mynd i'r afael â materion allweddol o ran amddiffyniad rhag llifogydd, tywod yn chwythu a – hyfywedd ar gyfer y sector twristiaeth – gwerth amwynder. Mae Traeth y Gogledd ar hyn o bryd wedi'u ffurfio gyda cherrig, sydd wedi denu sylwadau negyddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Arolwg Twristiaeth Conwy. Mae'r opsiynau a ddatblygwyd fel rhan o'r Cynllun Rheoli Traeth yn cynnig y posibilrwydd i fynd i'r afael ag effaith amwynder negyddol, megis ailgyflenwi traeth yng Nghornel y Plant neu drwy ailgyflenwad llawn o dywod drwy grwynau cerrig y forwyn. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i ddarparu datrysiad amddiffyniad arfordirol cost effeithiol, hirdymor.

Roedd yr ymgynghoriad fel rhan o'r astudiaeth yn nodi opsiynau croes rhwng ymgyngoreion o ran yr angen i ailgyflenwi tywod yn Nhraeth y Gogledd, wrth adlewyrchu ei bwysigrwydd cyffredinol i "gynnig" Llandudno. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad a'r ymchwil ehangach yn amlygu meysydd ymyrraeth posibl:

Mae Pier Llandudno yn darparu'r prif ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau hwyliog i deuluoedd ar Draeth y Gogledd, ac yn cael ei ddefnyddio'n aml ac mae buddsoddiad diweddar wedi helpu i ddenu mwy o bobl. Fodd bynnag, er y gellir eu gweld o'r traeth, nid yw'r gweithgareddau hyn yn gysylltiedig â'r lan y môr, a bydd angen i'r grŵp fynd oddi ar y traeth er mwyn cael mynediad atynt – mewn geiriau eraill, nid yw hwn yn brofiad esmwyth o lan y môr sydd i'w gael mewn cyrchfannau eraill gyda phier, megis Bournemouth, Brighton a Scarborough. Mae Bournemouth wedi mynd gam ymhellach drwy greu profiad weiren wib o'r pier i'r traeth[111] ac mae hyn yn dangos y posibilrwydd i Landudno greu ymyrraeth debyg.

Mae Traeth y Gogledd ei hun wedi cael ei adael fel y mae o ran amwynderau a chyfleusterau i gadw teuluoedd yn ddiddan ar daith yn seiliedig ar y traeth. Mae hollt o ran sut all cyfleusterau i deuluoedd gael eu cyflwyno yn yr ardal heb dynnu oddi ar ei gymeriad deniadol ac o bosibl, andwyo mwynhad yr arfordir i eraill. Agwedd allweddol yn hyn yw dyluniad y parth cyhoeddus. Mae Weymouth yn esiampl dda o sut mae cyfleusterau ac amwynderau amrywiol – megis trampolinau bynji a chyrtiau pêl-foli ar y traeth – wedi cael eu hintegreiddio ar y traeth heb dynnu oddi ar ei apêl cyffredinol. Fodd bynnag, bydd rhaid sicrhau na fyddai ymyraethau o'r fath yn cuddio'r traeth o westai a barau ar hyd rhan o'r promenâd. Felly mae gwaith cydbwyso i'w wneud. O safbwynt amwynder, mae gan gyfleusterau megis toiledau a chaffis a barau/siopau dros dro ar y promenâd, y potensial i wella'r cynnig i dwristiaid ar y traeth.

[107] https://oxygenfreejumping.co.uk/
[108] https://www.junkyardgolfclub.co.uk/
[109] https://peppapigworld.co.uk/
[110] https://www.flyovercanada.com/
[111] http://rockreef.co.uk/pierzip/

Mae integreiddio'r traeth i'r cynnig twristiaeth cyffredinol yn Brighton hefyd yn cael ei gefnogi gan ddigwyddiadau megis 'Paddle Round the Pier', gŵyl traeth a chwaraeon dŵr mwyaf Ewrop, Sgrin Fawr Brighton sy'n dangos ffilmiau eiconig a digwyddiadau chwaraeon yn ystod yr haf a 'Burning the Clocks', digwyddiad hirddydd yr haf gyda thân gwyllt, sy'n denu 20,000 o ymwelwyr. Byddai integreiddio'r traeth i'r calendr ddigwyddiadau yn Llandudno yn cryfhau ei rôl o fewn cynnig twristiaeth y dref ac mae Triathlon Môr Llandudno yn ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer hyn.


Mae Traeth y Gogledd ar wahân rhywsut oherwydd ei ddiffyg hygyrchedd oherwydd y cerrig ar y traeth. Felly byddai unrhyw welliannau i hygyrchedd ar gyfer holl ddefnyddwyr fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Traeth yn fuddiol er mwyn cryfhau rôl y traeth fel canolbwynt ar gyfer ymwelwyr a'r gymuned leol.

*Penmorfa*

Nododd yr ymgyngoreion bod Penmorfa yn "drysor" ac yn ased nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon ar hyn o bryd. Fel atyniad, mae Penmorfa yn llwyddiannus i ddenu syrffiwyr barcud, sy'n elwa o'r ardal ddŵr fflat ar ochr y traeth ger y Gogarth. Mae amseroedd llanw gwahanol yn ei wneud yn hygyrch ar gyfer grwpiau gwahanol, gydag amseroedd llanw isel yn addas ar gyfer dechreuwyr ac amseroedd llawn uchel yn addas ar gyfer syrffiwyr barcud profiadol.

Nododd ymgyngoreion y dylai'r ardal hon edrych i ddatblygu ymhellach fel canolfan weithgareddau, a fydd yn cyfrannu at y cynnig adrenalin uchel sydd ar gael ar draws Gogledd Cymru, ac yn hybu amgylchedd bywiog yn Llandudno i ddenu cynulleidfa ieuengach, mwy actif. Gall cynnig mwy ffurfiol ym Mhenmorfa ddilyn esiampl Traeth Brancaster yn Norfolk, er mwyn cynnal mwynhad a diogelwch ymwelwyr a thrigolion, sicrhawyd fod defnydd barcudiaid a bygis a lansio'r rhain yn cael eu cyfyngu i ardaloedd penodol ar y traeth. Byddai dull tebyg yn caniatáu i Draeth Penmorfa gadw ei boblogrwydd ymysg y gymuned leol a lletya nifer o ddefnyddwyr y traeth e.e. cerddwyr cŵn, nofwyr a theuluoedd.

**Ffigwr 23. Ardaloedd Chwaraeon Barcud ar Draeth Brancaster**[112]




Gall weithgareddau eraill gael eu cefnogi ar ochr y Gogarth o draeth Penmorfa, gydag ymgyngoreion yn nodi potensial ar gyfer:

- Chwaraeon eraill, megis bygis barcud, caiacio môr, padl fyrddio a syrffio gwynt.
- Gweithgareddau megis llogi beiciau a Segways, er mwyn manteisio ar y llwybr drwy Ddeganwy a Chonwy neu i Landudno.
- Datblygu caffi/bar gyda chyfleusterau cawod a newid integredig.

*Y Gogarth*

[112] https://www.nationaltrust.org.uk/brancaster-estate/features/kite-sports-on-brancaster-beach

Er y nodwyd y Gogarth fel un o brif atyniadau ar draws Gogledd Cymru – nodwyd hefyd nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon gan dwristiaid ac atyniadau ar hyn o bryd. Un o agweddau unigryw Llandudno yw galluogi i ymwelwyr gael profiad tref ac awyr agored o safon uchel, a nododd budd-ddeiliaid nifer o feysydd posibl ar gyfer gwella.

– Llwybrau cerdded – Ar gopa'r Gogarth, o amgylch Gorsaf Tramffordd y Gogarth, nodwyd nad oedd llawer i'w wneud oni bai am ymweld â Chanolfan Pen y Gwylfryn a'r Ganolfan i Ymwelwyr. Arwyddion gwell ar gyfer llwybrau cerdded er mwyn crwydro'r Gogarth, gan fwynhau'r golygfeydd a bywyd gwyllt, a darparu cysylltiadau gydag atyniadau ar y Gogarth megis cerfluniau Alys yng Ngwlad Hud, Mwyngloddiau Copr y Gogarth a Thramffordd y Gogarth/Car Cebl.
– Platfform Gwylio - O ystyried y buddsoddiad diweddar yni360 yn Brighton, a chynnydd Instagram a diwylliant rhannu lluniau, byddai'r Gogarth, gyda'i olygfeydd godidog dros Eryri neu tuag at Drwyn y Fuwch ac Aber Conwy, yn ddelfrydol ar gyfer platfform gwylio. Mae esiamplau yn cynnwys AlpsiX yn Grainau, yr Almaen; golygfan Stegastein yn Norwy neu blatfform gwylio Matteo Thun yn yr Eidal.
– Gwelliannau i atyniadau presennol – nodwyd bod nifer o atyniadau megis y Ganolfan i Ymwelwyr, Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno a Chanolfan Pen y Gwylfryn wedi dioddef o ddiffyg buddsoddiad yn y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi eu gadael mewn dirywiad i gymharu ag atyniadau eraill yn Llandudno a chyrchfannau gerllaw. Gyda'r Gogarth yn derbyn 600,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, gall fuddsoddiad ar gyfer yr atyniadau hyn wella apêl yr atyniad sydd eisoes yn boblogaidd. Er enghraifft:
  ▪ Gellir datblygu'r Ganolfan i Ymwelwyr er mwyn darparu profiad mwy modern, bywiog a rhyngweithiol i ymwelwyr trwy ddefnyddio technolegau newydd megis adeilad realiti estynedig/realiti rhithiol a darparu cynnig bwyd a diod o safon uwch na'r hyn sydd ar gael ar y Gogarth ar hyn o bryd. Gall hyn adeiladu ar brofiad canolfannau ymwelwyr tebyg, megis Canolfan Adar Môr yr Alban[113].
  ▪ Gall y Ganolfan Chwaraeon Eira a Sgïo gael ei moderneiddio er mwyn darparu profiad tebyg i'r ganolfan weithgaredd alpaidd megis Snowtrax[114] drwy fuddsoddi yn y llethr ei hun a gosod nodweddion eraill megis trampolinau a chanolfan antur alpaidd. Mae'r Zip World Fforest Coaster[115] ym Metws y Coed hefyd yn rhoi esiampl o welliannau y gellir eu gwneud i brofiad tobogan gyda buddsoddiad yn ac o amgylch yr atyniad a thrac tobogan. Yn ogystal â hynny, gellir buddsoddi mewn elfennau eraill, megis ceir llusg, fel y Skyline Luge[116] a ddatblygwyd yn Seland Newydd.
– Gan fod atyniadau ar y Gogarth o dan berchnogaeth wahanol ar draws y sector gyhoeddus a phreifat, gall hyn ei gwneud yn anodd cymryd dull strategol i wella asedau ar draws y Gogarth, a mynd i'r afael â'r diffyg buddsoddiad. Gall y rhain ddod ynghyd mewn gweithgor i drafod y posibilrwydd ar gyfer dull unedig er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision i'w busnesau gan ymwelwyr y Gogarth ac atyniadau yn cydfynd gyda'i gilydd, megis trafod cynnal a chadw unedig, marchnata neu docynnau cyfun (megis Tramffordd y Gogarth).

Nid yw atyniadau awyr agored yn gymaint o flaenoriaeth yn Llandudno, oherwydd ansawdd yr amgylchedd awyr agored, fodd bynnag dylid ymdrechu i gynnal a diweddaru atyniadau presennol er mwyn bodloni disgwyliadau ymwelwyr ac adeiladu proffil a safbwyntiau ar Landudno. Fodd bynnag, nododd ymgyngoreion rhai atyniadau awyr agored:

– Atyniad rhaffau uchel (megis Go Ape)
– Atyniad tebyg i Center Parcs / Forest Holidays
– Llwybrau Beicio Mynydd

## Hybu economi gyda'r nos

Mae'r angen ar gyfer hybu economi gyda'r nos yn Llandudno yn amlwg, yn arbennig os fydd y farchnad twristiaeth busnes yn tyfu yn y dref. Mae'r Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr yn dangos fod 21% o wariant ar ymweliadau dydd ar gyfer pryd allan neu fynd ar noson allan, ac felly mae tystiolaeth anecdotaidd o ran siopau'n cau am 5:30pm, hyd yn oed yn ystod y tymor prysur, a diffyg dewisiadau o lefydd bwyta ac yfed yn ystod y nos yn awgrymu bod Llandudno yn colli allan ar gyfle i hybu gwariant twristiaeth. Yn ogystal â hynny, gall wella

113 https://seabird.org/index.php
114 https://www.snowtrax.eu/
115 https://www.zipworld.co.uk/adventure/fforest-coaster
116 https://www.skyline.co.nz/en/queenstown/things-to-do/skyline-luge-queenstown/

economi gyda'r nos wella safbwynt ymwelwyr ar fywiogrwydd y dref a rhoi profiad cadarnhaol gyda'r nos i ymwelwyr fod yn hanfodol i gadw'r ymwelwyr hyn.

**Mentrau Nosweithiau Golau –** Mae nifer o drefi wedi ceisio cau'r bwlch rhwng economi dydd a nos drwy Fentrau Nosweithiau Golau. Un esiampl o'r fath oedd ymgyrch Head Out Not Home gan Ardal Gwella Busnes Caer, lle anogwyd i fusnesau gadw eu drysau yn agored yn hwyr bob nos Iau. Arweiniodd hyn at 40 o fusnesau'n cymryd rhan a 22% yn fwy o bobl dros gyfnod prawf 9 wythnos[117]. Mae menter tebyg wedi bod mewn grym yn Newcastle/Gateshead ers 2010, o'r enw Alive After Five, gyda sefydliadau yn aros ar agor tan 8pm bob nos, a pharcio am ddim ar ôl 5pm yng nghanol y dref. Ychwanegodd y fenter hon £131m i'r economi lleol yn 2017[118]. Wrth ymestyn oriau agor siopau a sefydliadau bwyd a diod, mae mentrau gyda'r nos hefyd yn cael eu cefnogi gan weithgareddau eraill e.e. Menter Gyda'r Nos yn Bury – o'r enw Enlighten – sy'n cael ei gefnogi gan weithgareddau diwylliannol megis gosodiadau golau mewn mannau cyhoeddus allweddol, arddangosfeydd celf cyhoeddus a gweithgareddau megis sesiynau llyfr braslunio o fewn yr Ardal Ddiwylliannol[119].

Mae potensial i Landudno ddatblygu yn y maes hwn, yn arbennig yn y tymor byr yn ystod y tymor prysur (e.e. aros ar agor tan 8pm ar ddyddiau Iau – Sadwrn), a all arwain busnesau i ddenu marchnad newydd a gweithredu menter hirdymor. Fodd bynnag, mae sefydlu a rheoli Menter Nosweithiau Golau yn gofyn am ymdrech gyfunol rhwng ystod o unigolion a sefydliadau, megis yr awdurdod lleol, manwerthwyr, gweithredwyr hamdden a thrigolion er mwyn sicrhau y caiff ei reoli yn effeithiol a bod effeithiau negyddol posibl yn cael eu lliniaru'n effeithiol, gan wneud rhagofynion partneriaeth, ymgysylltu ac ymgynghori. Mae pryderon yn cynnwys: parcio, plismona, marchnata a glanhau strydoedd. Fel y nodwyd yn y Maniffesto ar gyfer Economi gyda'r Nos[120], efallai y bydd angen nodi Cefnogwr Economi Gyda'r Nos gydag arweinyddiaeth a charisma i ddod â phartïon ynghyd er mwyn datblygu gweledigaeth ac yna ei yrru ymlaen.

## Manwerthu

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cynnig manwerthu Llandudno yn elwa o gyfraddau siopau gwag sy'n nodedig o isel. Mae tystiolaeth bresennol o astudiaethau cymharu, Arolygon Busnes a Defnyddwyr Canol Trefi, yn ogystal ag adborth gan fudd-ddeiliaid, yn awgrymu bod nifer o themâu cyffredin o ran sut i adeiladu cynnig manwerthu presennol Llandudno.

Yr angen am fwy o siopau annibynnol o safon uchel – nododd yr ymatebwyr bod Llandudno yn elwa o ddiwylliant caffis cryf yn ac o amgylch y stryd fawr, ond mae angen amrywiaeth a safon yn y siopau gan symud i ffwrdd o siopau gwerth isel, megis siopau elusennau. Er mwyn annog manwerthwyr annibynnol i sefydlu yn y dref, rhaid i'r amgylchedd fusnes fod yn gefnogol (drwy gyfraddau a chymorth gan y Cyngor/ Siambr Fasnach) ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai dyma yw'r achos. Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu profi ar draws y DU i Landudno gyfeirio atynt:

- 'Pop Up Maragte' – Fel y nodwyd yn y dadansoddiad cymharu, mewn ymateb i ddirywiad y stryd fawr, treialwyd y cysyniad 'Pop Up Margate' fel cyfle i fusnesau bychain na fyddai'n gallu fforddio siop ar gyfer masnachu, i hyrwyddo a gwerthu eu cynnyrch heb gyfraddau a rhent o £35 yr wythnos. Mae hyn wedi arwain at 15 o fusnesau newydd yn sefydlu eu hunain ac wedi symud i siopau ers dechrau yn y farchnad "pop-up" . Er fod Llandudno yn dechrau o sail wahanol – gyda sector manwerthu sy'n perfformio yn llawer uwch – gall ddull tebyg gael ei dreialu mewn unedau gwag.
- First Pitch - Roedd hwn yn gynllun a sefydlwyd gan Ffederasiwn Masnachwyr Marchnad Cenedlaethol i roi cyfle i entrepreneuriaid brofi eu syniadau busnes drwy sefydlu stondin farchnad, gyda ffi ostyngedig ar gyfer rhentu stondin. Gall Landudno sefydlu marchnad i wneuthurwyr[121] yn y dref bob mis (yn amlach yn ystod y tymor prysuraf), gan alluogi entrepreneuriaid i brofi'r farchnad, gyda llwyddiant yn arwain at y posibilrwydd o sefydlu eu busnesau annibynnol o fewn y dref.

Yn ogystal â denu siopau annibynnol newydd, gellir ymestyn cymorth i siopau annibynnol presennol yn Llandudno, gan adeiladu ar y cymorth gan y Siambr Fasnach, megis cynlluniau talebau/gostyngiadau er mwyn cefnogi siopau annibynnol lleol. Gellir ymestyn hyn er mwyn cynnwys datblygu punt Llandudno, gan adeiladu ar esiampl Bristol[122] sydd wedi cynorthwyo i annog pobl i wario yn lleol, sydd hefyd yn helpu i greu perthnasau busnes newydd gyda busnesau yn gwario'n lleol hefyd. Mae cymorth ar gyfer siopau annibynnol mewn meysydd

[117] https://experiencechester.co.uk/bid-boost-evening-economy-chester-hailed-success/
[118] https://www.chroniclelive.co.uk/business/business-news/alive-after-five-added-131m-13812266
[119] https://www.bury.gov.uk/CHttpHandler.ashx?id=17596&p=0
[120] https://cornerstonebarristers.com/cmsAdmin/uploads/night-time-economy-final.pdf
[121] http://www.themakersmarket.co.uk/
[122] https://bristolpound.org/

eraill wedi cynnwys gostyngiad mewn cyfraddau, lesoedd mwy hyblyg ac ad-drefnu gofodau siopau (gofodau llai) [123].

Nododd yr ymgyngoreion effaith andwyol posibl o symud Marks & Spencer o Mostyn Street i Barc Llandudno, a rhagwelir y bydd hyn y lleihau'r nifer o bobl ar y brif stryd fawr a chael effaith andwyol ar fusnesau eraill. Dylid parhau i ymdrechu i gadw a denu siopau poblogaidd o fewn canol y dref er mwyn osgoi ei ddirywiad. Fodd bynnag, nodwyd bod amodau'r farchnad yn heriol ar gyfer y siopau hyn ac mae penderfyniadau tu allan i reolaeth y sector cyhoeddus a pherchnogion tir.

## Bwyd a Diod

Mae cynnig bwyd a diod cynhwysfawr yn hanfodol er mwyn denu ymwelwyr, cynyddu gwariant ymwelwyr ac er mwyn i Landudno wireddu ei nodau ar gyfer datblygu economi gyda'r nos a'r gallu i ddenu cynadleddau. Yn ogystal â hynny, mae ystod eang o gaffis, barau a bwytai yn cynyddu amser ymwelwyr yn yr ardal a gwariant cyfartalog yn ystod teithiau i'r dref hefyd[124]. Mae gan Landudno gyfradd uchel o gaffis, ond o'i gymharu â chystadleuwyr cafodd eu hystyried yn yr adran flaenorol, mae Llandudno yn disgyn o ran y niferoedd o fwytai a barau.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu, er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud drwy fuddsoddiad diweddar yn y cynnig bwyd a diod lleol, megis Dylan's, Providero a Johnny Dough's, mae angen moderneiddio'r cynnig bwyd a diod yn y dref er mwyn apelio at grwpiau demograffeg gwahanol a symud tu hwnt i'r cynnig ar gyfer ymwelwyr hŷn a chynyddu ansawdd cyffredinol y cynnig bwyd a diod i ymwelwyr. Gall ddatblygiadau yn y maes hwn fod yn organig, gyda thystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer o westai wedi bod yn cau eu ceginau gan fod y cynnig bwyd yn anodd ei gynnal drwy gydol y flwyddyn, ac felly gall hyn fod o fantais i ddatblygiadau yn y dref. Felly dylid ymdrechu i ddenu a chefnogi bwytai o ansawdd uchel yn yr ardal, ac i ddatblygu'r cynnig bwyd drwy:

- Farchnad dan do – Ymyrraeth posibl i gefnogi'r cynnig bwyd a diod yn Llandudno – gan adeiladu ar ddadansoddiad Brighton, Margate a lleoliadau eraill – yw sefydlu marchnad bwyd dan do, rheolaidd yn Llandudno. Gall hyn fod yn debyg i'r Street Diner yn Brighton, farchnad dan do awyr agored a gynhelir bob dydd Gwener ac yn cefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol. Nododd yr ymgyngoreion y Golofnfa fel lleoliad posibl ar gyfer hyn, fodd bynnag byddai lleoliad blaenllaw o fewn canol y dref yn cynyddu nifer y bobl.
- Yn yr hirdymor, fel y nodwyd mewn perthynas â Scarborough yn yr astudiaethau cymharu, gall neuadd fwyd tu mewn hefyd fod yn opsiwn ar gyfer bob tywydd, gyda'r opsiwn i fwytai mwy gael lle hefyd. Gall hyn gefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol o Ogledd Cymru, gan dynnu ar brofiadau neuaddau bwyd eraill, megis Marchnad Altrincham neu Mackie Mayor ym Manceinion.

## Amwynderau a Strydlun

Mae amwynderau cyhoeddus a'r strydlun yn hanfodol o ran safbwyntiau ymwelwyr ar Landudno, gan effeithio ar ansawdd eu harhosiad, eu parodrwydd i ddychwelyd a'r tebygrwydd iddynt argymell y dref fel cyrchfan. Nododd yr ymgyngoreion bod Llandudno wedi bod yn llwyddiannus wrth gadw ei dreftadaeth Fictoraidd, yn arbennig yn y blynyddoedd diwethaf, sy'n hanfodol ar gyfer y cynnig twristiaeth ehangach a bydd angen adeiladu ar hyn yn y dyfodol. Cododd nifer o themâu o'r ymgynghoriad, wedi ei lywio gan ymchwil ehangach:

Cynnal a chadw blaen/strydoedd siopa – Nododd yr ymgyngoreion yr angen i fuddsoddi er mwyn cynnal a chadw palmentydd a ferandas Fictoraidd yn y prif ardaloedd manwerthu, ac i faterion perchnogaeth/cyfrifoldeb gael eu goresgyn. Er y nodwyd bod hyn wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, nodwyd bod blaen siopau a strydlun cyffredinol (plannu, celfi stryd ac ati) yn nodedig o wahanol ar wahanol strydoedd. Mae nifer o ddulliau wedi cael eu treialu er mwyn goresgyn materion tebyg mewn trefi eraill, megis:

- Grŵp Manwerthu Ardal Montpellier yn Harrogate, lle mae nifer o fanwerthwyr yn yr ardal yn dod ynghyd yn wirfoddol er mwyn cyfrannu tuag at gronfa tuag at fasgedi blodau a goleuadau Nadolig, yn ogystal ag adnoddau eraill megis taflenni gwybodaeth, gwefan a hysbysebion.
- Ardal Gwella Busnes, lle codir ffi ar holl dalwyr cyfraddau busnes yn ogystal â bil cyfraddau busnes. Defnyddir y ffi hwn i ddatblygu prosiectau a fydd yn elwa busnesau yn yr ardal leol. Fodd bynnag,

[123] https://www2.deloitte.com/content/dam/Deloitte/uk/Documents/consumer-business/deloitte-uk-consumer-review-role-of-the-high-street.pdf
[124] https://www.gov.uk/government/news/challenging-high-streets-get-a-helping-hand

gydag Arolwg Busnes 2017 yn nodi bod cyfraddau busnes uchel yn bryder allweddol, bydd angen ystyried hyn/dewis yr ardal yn ofalus.

– Dylai CBSC hefyd ystyried mabwysiadu Strategaeth Strydlun fel Brighton. Gydag ymgyngoreion yn nodi diffyg cyd-drefniant ar draws y dref o ran bocsys blodau, celfi stryd a lliwiau siopau, gall hyn alluogi undod a chyfrannu tuag at borth cyhoeddus o safon uchel, gyda Mostyn Street yn esiampl o arfer dda.

Llochesi'r Promenâd – Nodwyd adnewyddu llochesi'r promenâd fel maes ymyrraeth allweddol er mwyn cynnal a chadw treftadaeth Fictoraidd y dref. Mae'r gymhariaeth â Margate yn awgrymu y gall dull ehangach gael ei fabwysiadu i adnewyddu'r llochesi a gwella'r parth cyhoeddus ehangach. Nod prosiect gwella Parc Arfordir Margate yw cynyddu gwerth chwaraeon a hamdden y man cyhoeddus drwy greu gwahanol ardaloedd o ddiddordeb a defnydd. Mae'r saith lloches ar lan y môr yn cael eu hail-ddefnyddio – heb newid cymeriad cyffredinol – gan greu canolfannau ar hyd y forlin, a phlannu er mwyn cyflwyno amrywiaeth i'r tirlun a diffinio swyddogaeth. Gellir defnyddio dull tebyg yn Llandudno ac ailddatblygu'r llochesi gyda themâu gwahanol (megis agweddau o dreftadaeth Llandudno / Alys yng Ngwlad Hud) neu gelf cyhoeddus o fewn y llochesi, er mwyn eu gwneud yn ddefnyddiol ac fel atyniad i ddenu pobl ar hyd y Promenâd.

O ran amwynderau, mae Llandudno yn cymharu'n dda gyda chyrchfannau eraill o ran y nifer o doiledau cyhoeddus a mannau parcio a gynhelir gan y Cyngor ar gyfer tref o'i maint. Fodd bynnag, dylid parhau i adolygu lleoliadau a nifer y ddarpariaeth, gyda nifer o bwyntiau wedi'u nodi megis man parcio ceir ar hyd y promenâd, gyda mynediad i Mostyn Street, gyda 25% o ymatebwyr yr Arolwg Siopwyr Llandudno 2017 yn nodi parcio fel ffordd o wella eu profiad. Nodwyd ansawdd a mynediad at doiledau cyhoeddus o Mostyn Street fel pryder, gyda 14% o ymatebwyr yn nodi hyn fel eu hawgrym cyntaf neu ail ar gyfer gwella.

## Digwyddiadau a Gwyliau

Y safbwynt gyffredinol oedd bod y digwyddiadau a gynhelir yn Llandudno ar hyn o bryd, megis y Strafagansa Fictoraidd a Diwrnod y Lluoedd Arfog o ansawdd uchel ac o fantais fawr i'r dref. Fodd bynnag, ynghyd ag ehangu cynnig atyniad drwy gydol y flwyddyn, gall ddigwyddiadau a gwyliau helpu i ddenu ymwelwyr yn ystod y tymor tawel. Mae twristiaeth ym Mwrdeistref Conwy yn dymhorol, gyda gostyngiad sylweddol rhwng Tachwedd a Ionawr, fel y dangosir yn Ffigwr 9, ac mae bwlch yn y calendr ddigwyddiadau dros y cyfnod hwn. Yn ei Strategaeth Dwf Economaidd, mae CBSC yn nodi'r angen i gynnal digwyddiad mawr a all gael ei gynnal dros nifer o wythnosau yn ystod y cyfnod hwn, gyda syniadau yn cynnwys cynnal digwyddiad fel Fête des Lumières, yn cynnwys nifer o osodiadau golau, yn ogystal â goleuo adeiladau a lleoliadau eiconig ar draws y dref fel y gwelwyd yn Leeds  a Lerpwl. Nododd yr ymgyngoreion yr angen ar gyfer:

Digwyddiad mawr yn y gaeaf – Nododd yr ymgyngoreion lwyddiant y Ffair Nadolig i ddenu ymwelwyr i'r ardal, gyda mwy na 35,000 o ymwelwyr dros y 4 diwrnod. Nodwyd y dylid adeiladu ar y perfformiad hwn drwy gynyddu'r nifer neu ystod o ddigwyddiadau Nadoligaidd, megis datblygu'r Ffair Nadolig i atyniad Gŵyl y Gaeaf, gan integreiddio elfennau megis canolfan sglefrio, tân gwyllt, goleuadau Nadolig ynghyd â'r cynnig farchnad estynedig. Awgrymwyd hefyd cynnig marchnad â thema, megis Almaeneg neu Sgandinafaidd, er y byddai'r syniadau hyn angen lleoliad mawr i gerddwyr dros gyfnod estynedig o amser.

Digwyddiadau yn seiliedig ar fwyd – Mae'r dadansoddiad cymharu gyda Brighton ac ymchwil ehangach yn awgrymu y byddai cynnig digwyddiadau Llandudno yn elwa o ddigwyddiadau ar thema bwyd. Er enghraifft, yn Brighton, mae'r Big Cheese Festival, VegFest UK,, Foodies Festival, Vegan Summer Festival, Fiery Food Festival ac Oktober Fest, ymysg digwyddiadau bychain eraill,  yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Yn 2015, roedd 25.4 miliwn o bobl eisiau mynychu gwyliau bwyd yn y DU o'i gymharu â 30 miliwn o bobl a fynychodd gwyliau cerddoriaeth yn 2017. Er fod Gwledd Conwy yn cael ei gynnal o fewn y Fwrdeistref, mae'r dystiolaeth yn dangos bod galw ar Landudno i gynnal digwyddiad yn y maes hwn hefyd.

Mwy o gefnogaeth ar gyfer digwyddiadau presennol - nodwyd LLAWN (penwythnos Celfyddydau Llandudno), a gynhelir ym mis Medi bob blwyddyn, fel llwyddiant gan ymgyngoreion, gan ddenu 16,000 o ymwelwyr dros y penwythnos cyfan. Nodwyd y gellid ehangu LLAWN i gynnwys ystod ehangach o gynyrchiadau dan do ac awyr agored. Byddai hyn yn golygu mwy o gefnogaeth ariannol, gyda'r sail resymegol ar gyfer digwyddiad o raddfa fawr yn ehangu ar ôl y cyhoeddiad na fydd Gŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos, gan adael bwlch yn y maes digwyddiad celfyddydau a cherddoriaeth yng Ngogledd Cymru.

Amlygodd yr astudiaethau cymharu y bylchau o ran cynnig sinema a theatr awyr agored yn Llandudno, maes sydd wedi cofnodi twf yn y blynyddoedd diwethaf, gyda threfi megis Brighton yn cynnig sinema awyr agored ar y traeth yn ystod yr haf. , Dylai ystod o ddigwyddiadau yn seiliedig ar weithgareddau yn y dref gael ei adolygu yn barhaus er mwyn addasu i dueddiadau sy'n datblygu. Yn ogystal â hynny, nododd yr ymgyngoreion yr angen i

sicrhau bod isadeiledd priodol yn ei le er mwyn cefnogi digwyddiadau, megis ymchwilio i'r posibilrwydd o gefnogi digwyddiadau graddfa fawr ar Fferm Bodafon (a galw cysylltiedig ar gyfer gofod o'r fath) a'r angen am isadeiledd ar hyd y promenâd (megis cyflenwad pŵer).

Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod y dref angen parhau i weithio ar gyfer trigolion lleol sy'n ei ddefnyddio fel canolfan manwerthu. Wrth ystyried hyn, gall gau ffyrdd a thraffig gael effaith niweidiol ar fanwerthwyr, sy'n tueddu i weld lefelau llai o bobl, yn ogystal â thrigolion. Felly, dylid cadw ffocws ar ansawdd digwyddiadau er mwyn osgoi amhariad oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol.

## Celfyddydau a Diwylliant

Mae profiad Margate yn benodol yn dangos effeithiau cadarnhaol mae hybu maes artistig a diwylliannol lleoliad yn ei gael ar dwristiaeth, o ran niferoedd yr ymwelwyr i orielau ac effeithiau ehangach ar safbwyntiau ymwelwyr a "brand" y cyrchfan. Yn aml, mae gofyn am weithredu a chymorth ar y cyd dros nifer o flynyddoedd, ac mae Llandudno, drwy Ystadau Mostyn, wedi ceisio datblygu ei gynnig celfyddydau a diwylliant drwy Oriel Mostyn a thrwy ddyrannu adeiladau gwag ar gyfer gofodau stiwdio, yn dilyn profiad ardaloedd eraill megis Whitstable a St Ives sydd wedi mabwysiadu agwedd greadigol. Bydd cefnogaeth ar gyfer llawr gwlad yn hanfodol os fydd Llandudno yn dymuno datblygu cynnig diwylliant a chelfyddydau dros yr hirdymor, a fydd yn ei dro, yn rhoi potensial i agor cyfleoedd twristiaeth drwy newid safbwyntiau ymwelwyr a gwneud y mwyaf o gysylltiadau posibl mae artistiaid yn ei sefydlu gyda lleoliad, fel cysylltiad Damien Hirst gyda Ilfracombe ac adleoliad Tracey Emin i Margate.

Yn y tymor byr, gellir gwneud camau i ddenu ymwelwyr yn seiliedig ar yr agwedd greadigol. Er enghraifft, gall osodiadau cyhoeddus/dros dro ddenu pobl i'r ardal. Yn Efrog, cafodd prosiect dwy flynedd o'r enw 'Vespertine' ei gyllido gan Gyngor Dinas Efrog a Chyngor Celfyddydau Lloegr er mwyn ysbrydoli pobl i aros yng nghanol y ddinas am amser hirach yn y nos drwy berfformiadau cerddorol, goleuadau a gosodiadau celf, a ddaw yn fyw wrth i siopau gau[125]. Yn ogystal â hynny, mae arddangosfa Damien Hirst "Verity" yn Ilfracombe[126], "Another Time" gan Anthony Gormley yn Margate a'r parc cerfluniau parhaol yn Gibbs Farm[127], Kaipara, Seland Newydd wedi hybu'r trefi hyn o ran denu ymwelwyr. Mae Brighton hefyd wedi gosod plinth celf cyhoeddus ger Traeth Brighton – "The Hove Plinth" – sy'n dangos gwaith am hyd at 18 mis.

## Amrywiol

**Marchnata** – Nodwyd gan nifer o ymgyngoreion bod angen i safbwyntiau am Landudno newid er mwyn denu grwpiau gwahanol a'u gwariant cysylltiedig. Awgrymwyd bod angen i Landudno gael ei weld fel tref fywiog a chyffrous, yn hytrach na lleoliad i deithiau bysiau a'r boblogaeth hŷn. Gyda phartneriaid megis Croeso Cymru a Thwristiaeth Gogledd Cymru, dylai CBSC edrych i hyrwyddo'r ddelwedd hon, gan gysylltu atyniadau ehangach ar draws Gogledd Cymru, megis Surf Snowdonia, Zip World a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r atyniadau hyn o fewn cyrraedd Llandudno, gan gefnogi ei rôl fel canolbwynt llety, ond nid oes digon o gysylltiad rhwng yr asedau allweddol hyn o ran ymwybyddiaeth a deunyddiau marchnata.

Mae dadansoddiad Llandudno a thueddiadau ehangach sydd â'r potensial i effeithio ar y diwydiant twristiaeth, yn awgrymu'r angen i CBSC gymryd camau gweithredol i baratoi ar gyfer y posibiliadau hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- **Strategaeth Ddigidol** - Bydd cynnydd technoleg yn cael effaith sylweddol ar ein bywydau, arferion gweithio ac arferion a disgwyliadau twristiaeth/hamdden. Fel y nodwyd yn yr adran patrymau'r dyfodol, bydd parodrwydd digidol Llandudno yn allweddol os fydd yn addasu i'r cynnydd mewn digideiddio. Bydd Strategaeth Ddigidol yn ffordd i'r Sir ganfod gwendidau a blaenoriaethu camau gweithredu yn y maes hwn. Yn ogystal â hynny, bydd cysylltedd cynyddol gwrthrychau ffisegol, dyfeisiau, cerbydau, adeiladau ac eitemau eraill drwy'r Rhyngrwyd Dyfeisiau yn cael effaith sylweddol ac yn galluogi dadansoddiad o'r data sydd ar gael er mwyn teilwra profiad twristiaeth. Mae nifer o ardaloedd yn ystyried dod yn Ardaloedd Peilot Rhyngrwyd Dyfeisiau, a gall Llandudno ddilyn y llwybr hwn.
- **Astudiaeth Cludiant** – Nodwyd bod amodau cludiant presennol, megis diffyg gwasanaethau rheilffordd aml i ganol tref Llandudno, gwasanaethau bws gwasgaredig a thagfeydd ar yr A55 yn effeithio ar y sector twristiaeth yn Llandudno. Yn ogystal â hyn mae patrymau'r dyfodol wedi nodi newid sylweddol yn y cynnig, yn arbennig o ran cael gwared â cherbydau petrol a diesel erbyn 2040 a'r angen cysylltiedig am isadeiledd gwefru e-gerbydau ar draws y dref, yn ogystal ag arferion cludiant newidiol ymysg y genhedlaeth iau. Byddai Astudiaeth Cludiant cynhwysfawr yn caniatáu i Landudno

[125] http://www.yorkpress.co.uk/news/12699540.__100_000_boost_for_York_s_evening_economy_-_18_new_events_and_art_projects_planned/
[126] https://www.devonlive.com/news/devon-news/five-years-verity-how-damien-597690
[127] http://www.gibbsfarm.org.nz/

ganfod blaenoriaethau cludiant ac isadeiledd allweddol ar gyfer y dref a sicrhau bod cynllunio cadarn mewn lle ar gyfer y newidiadau a fydd yn effeithio’r sector, a’r effeithiau canlyniadol ar y dref a allai effeithio ar y sector twristiaeth.

– **Uwchgynllun i gefnogi twf a buddion ehangach** - er bod y ddogfen hon a’r gweithgareddau a argymhellir yn canolbwyntio ar y farchnad ymwelwyr, dylai unrhyw fuddsoddiad edrych i fynd i’r afael ag anghenion trigolion Llandudno. Bydd y boblogaeth presennol yn elwa o ac yn darparu galw am nifer o wasanaethau a chyfleusterau a nodwyd, gan helpu i ehangu cynnig y dref a chefnogi twf. Tu hwnt i hyn, mae angen hefyd i ystyried sut i dyfu Llandudno – o ran ei boblogaeth a’i broffil economaidd – tu hwnt i economi ymwelwyr er mwyn cefnogi datblygiad economaidd. Mae’r dref yn darparu amgylchedd o ansawdd da ac isadeiledd cefnogol ar gyfer ei drigolion ac yn gynnig deniadol ar gyfer grwpiau demograffeg gwahanol sy’n ystyried symud ac adleoli. Fodd bynnag, mae’n aneglur ar hyn o bryd beth yw dyheadau twf a datblygu’r dref a all gefnogi buddsoddiad a gweithgarwch yn y sector twristiaid a’r economi ehangach. I’r diben hyn, dylid ystyried datblygu uwchgynllun y dref er mwyn dangos dyheadau’r dyfodol ar gyfer trigolion a buddsoddwyr posibl.

# Atodiad A Cyd-destun Cenedlaethol a Phatrymau Presennol

Rhaid i Astudiaeth Twristiaeth Llandudno fod yn realistig ac yn gyraeddadwy, gyda'r nod o wneud y mwyaf o fuddion twristiaeth yn y dref mewn modd cynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen deall y patrymau sylfaenol sy'n effeithio arferion cwsmeriaid ac ymwelwyr ar hyn o bryd, patrymau gwario a gweithgarwch y farchnad, ynghyd â ffactorau ehangach megis newid economaidd, demograffeg, cymdeithasol a thechnolegol.


### 7.2 Cyd-destun Twristiaeth

**Y Darlun Cenedlaethol[128]**

Mae'r sector twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn economi Cymru, gan weithredu i atgyfnerthu hunaniaeth genedlaethol nodedig ar gyfer Cymru fel lle i ymweld, buddsoddi ac i wneud busnes. Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros blynyddol sy'n gysylltiedig â'r sector ddiwydiant yng Nghymru oddeutu £2,844 miliwn ac mae'r sector dwristiaeth yn cefnogi oddeutu 122,900 o swyddi ar draws Cymru.

Roedd 9.02 miliwn o deithiau domestig dros nos i Gymru yn 2017, gan greu gwariant cysylltiedig o £1,628 miliwn. Fodd bynnag, mae'r nifer o deithiau dros nos a gwariant cysylltiedig wedi disgyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Y dair gwlad uchaf o ran tarddiad ymwelwyr rhyngwladol i Gymru yn 2017 oedd Gweriniaeth Iwerddon, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.


**Ffigwr 24. Patrwm Teithiau Dros Nos a Gwariant yng Nghymru**




Yn ystod 2017, roedd 99.7 o ymweliadau twristiaeth dydd yng Nghymru. Creodd yr ymweliadau hyn £4,332 miliwn o wariant. Er bod y patrwm cyffredinol dros y 5 mlynedd ddiwethaf wedi gweld y nifer o ymwelwyr dydd yn lleihau, mae gwariant wedi dangos proffil mwy cyfnewidiol, gan gynyddu'n sylweddol dros y 2 flynedd ddiwethaf yn benodol.

[128] https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?topic=Tourism&lang=en&_ga=2.153320632.1234720344.1593609950-349905579.1590152484

**Ffigwr 25. Patrymau Ymweliadau Dydd a Gwariant yng Nghymru**




**Twristiaeth Glan y Môr**[129]

Mae gan leoliadau glan y môr gynnig twristiaeth nodedig ac yn yrrwr allweddol o ran gweithgarwch yng Nghymru. Yn 2016 denodd lleoliadau arfordir Cymru dros 4 miliwn o ymwelwyr dros nos a £800 miliwn o wariant. Mae arfordir Cymru hefyd yn derbyn 25 miliwn o ymwelwyr dydd, gyda gwariant o £897 miliwn. Mae'r ymweliadau hyn yn cyfrif am 24% o holl ymweliadau twristiaeth dydd yng Nghymru a 22% o wariant, sy'n llawer uwch na chyfran ar gyfer Prydain Fawr, lle mae 11% o holl ymweliadau twristiaeth dydd i leoliadau glan y môr neu arfordirol.

Mae oddeutu hanner o holl ymweliadau i'r arfordir yng Nghymru yn dod o Gogledd-Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae 19% yn dod o Gymru ei hun, gan ddangos pwysigrwydd y farchnad 'gartref' i dwristiaeth glan y môr domestig. Dim ond 4% a ddaeth o Lundain, 5% o De-Ddwyrain Lloegr a 6% o De-Ddwyrain Lloegr, gan awgrymu bod cyfle i ddenu mwy o ymwelwyr o'r rhannau hyn, yn arbennig pe byddai'r gwelliannau arfaethedig i'r isadeiledd cludiant yn cael ei wireddu.

Mae Cymru yn cyfrif am 17% o holl ymweliadau dros nos domestig i'r arfordir o fewn y DU, mwy nac unrhyw ardal arall oni bai am Dde-Orllewin Lloegr (32%). O ran ymwelwyr rhyngwladol, mae ymchwil yn dynodi bod 53% wedi ymweld â lleoliad arfordirol yng Nghymru a 38% wedi bod yn cerdded ger yr arfordir. Mae'r rhain yn uwch nac unrhyw ardal arall ym Mhrydain Fawr. Mae ymweliadau i arfordir Cymru yn tueddu i gynnwys plant (47% o deithiau dros nos a 24% o ymweliadau dydd), ac yn aml yn cynnwys pobl o raddfeydd cymdeithasol is, ac mae mwyafrif y teithiau dros nos yn aros mewn llety gwersylla/carafanio (44%) gyda gwestai yn 26%.[130]

Mae'r patrwm mewn perthynas â thwristiaeth cyrchfan glan y môr yn llai eglur na chyrchfannau twristiaeth eraill. Mae cynnig traeth pur yn anodd i'w gynnal yn erbyn cystadleuaeth rhyngwladol oherwydd amodau tywydd gwael yn y DU. Fodd bynnag, mae nifer o gyrchfannau wedi addasu'n llwyddiannus i ddenu cynulleidfaoedd newydd, megis esiamplau ym Margate a St Ives, sydd wedi datblygu cynnig celfyddydau a diwylliant cryf gydag orielau yn y dref. Gall strwythur ddemograffeg newidiol ar draws y DU gynorthwyo cyrchfannau yn y dyfodol. Gyda mwy o blant a phobl hŷn yn dod i'r farchnad, bydd cael cyrchfan glan y môr hygyrch sy'n gyfeillgar i deuluoedd yn ddelfrydol ar gyfer gwyliau teulu rhyng-genhedlaeth (a byrrach). Mae apêl glan y môr traddodiadol wedi ailgydio nifer o ymwelwyr sy'n dychwelyd ar ôl absenoldeb hir.

Fodd bynnag, mae angen addasu a moderneiddio cyrchfannau glan y môr i ddenu ymwelwyr newydd. Gall weithgareddau a phrofiadau unigryw o chwaraeon i fwyd, olygu y gall gyrchfannau glan y môr gynnig dewis wedi'i arwain gan brofiadau y mae'r ymwelydd domestig ei angen, a dyma fydd canolbwynt Astudiaeth Twristiaeth Llandudno.

## 7.3 Patrymau Presennol

### Patrymau Cymdeithasol a Demograffeg

[129] https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/tourism/YOS_Business_Guide_A5_CY.PDF
[130] https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Images/England-stats-insights/seaside.pdf

Ar hyn o bryd mae poblogaeth y DU yn fwy nac erioed, gyda dros 65.6 miliwn o breswylwyr. Mae'r boblogaeth yn mynd yn hŷn, gyda bron i 1 ymhob 5 (18.0%) o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn. Mae hyn yn cymharu â 14.2% yn 1976. Rhagwelir y bydd y grŵp oedran 65+ yn cyfrif am bron i chwarter (24.7%) o'r boblogaeth erbyn 2046. I'r gwrthwyneb, disgwylir i'r grwpiau oedran ieuengach a chanol oed leihau dros amser.

**Tabl 14. Dosbarthiad oedran poblogaeth y DU, 1976 i 2046 (rhagolygon)**

| | 0 i 15 oed (%) | 16 i 64 oed (%) | 65 oed a hŷn (%) | Poblogaeth y DU |
|---|---|---|---|---|
| 1976 | 24.5 | 61.2 | 14.2 | 56,216,121 |
| 1986 | 20.5 | 64.1 | 15.4 | 56,683,835 |
| 1996 | 20.7 | 63.5 | 15.9 | 58,164,374 |
| 2006 | 19.2 | 64.9 | 15.9 | 60,827,067 |
| 2016 | 18.9 | 63.1 | 18.0 | 65,648,054 |
| 2026 | 18.8 | 60.7 | 20.5 | 69,843,515 |
| 2036 | 18.0 | 58.2 | 23.9 | 73,360,907 |
| 2046 | 17.7 | 57.7 | 24.7 | 76,342,235 |

Yn 2016, roedd 18.9 miliwn o deuluoedd[131] yn y DU. Mae hyn yn gynnydd o tua 2.3 miliwn yn yr 20 mlynedd o 1996 (16.6 miliwn). Fodd bynnag, mae ffurfiau teuluoedd yn newid. Er enghraifft, mae llawer mwy o gyplau sy'n cyd-fyw (3.3 miliwn yn 2016 o'i gymharu â 1.5 miliwn yn 1996) erbyn heddiw ac mae mwy o deuluoedd un rhiant (2.9 miliwn o'i gymharu â 1.5 miliwn).

Yn yr un modd, mae mwy o aelwydydd person sengl erbyn hyn (7.7 miliwn yn 2016) nac oedd 20 mlynedd yn ôl (6.6 miliwn yn 1996). Ond, mae aelwydydd un teulu (15.5 miliwn yn 2016) yn parhau i fod y math o aelwyd fwyaf dominyddol yn y DU.

Yn gysylltiedig â'r newid mewn demograffeg dros y degawdau diwethaf, mae gan deidiau a neiniau mwy o rôl yn narpariaeth gofal plant. Mae hyn yn gysylltiedig a chostau cynyddol, gyda chost cyfartalog o anfon plentyn o dan ddwy oed i feithrinfa yn llawn amser yn £232.84 yr wythnos. Gall hyn arwain at gyfleoedd i deidiau a neiniau fynd â phlant ar deithiau dydd fel rhan o'u cyfrifoldebau gofalu. Wrth i deidiau a neiniau a hen deidiau a neiniau gymryd mwy o ran yng ngofal plant a bywyd teuluol, mae rhaid i fusnesau a chyrchfannau yn y farchnad dwristiaeth letya ar gyfer nifer cynyddol o wyliau teulu rhyng-genhedlaeth.

O safbwynt twristiaeth, mae'r ffactorau hyn yn golygu bod y farchnad dwristiaeth gyffredinol yn y DU yn tyfu a bydd yn parhau i dyfu. Tra bydd y farchnad deulu yn parhau i fod yn allweddol, yn arbennig ar gyfer cyrchfannau glan y môr fel Llandudno, mae'n bwysig cydnabod bod mathau o deithiau o ran demograffeg yn edrych yn wahanol yn y dyfodol. Bydd mwy o bobl sengl, grwpiau o ffrindiau, teuluoedd un rhiant a theithiau rhyng-genhedlaeth, ynghyd a theithiau grwpiau hŷn sy'n fwy tebygol o fod yn heini a symudol am fwy o amser nac yn y gorffennol. Mae pwysigrwydd y newidiadau hyn yn amlwg wrth edrych ar ystadegau teithiau allweddol fesul cyfnod bywyd.

***Oedolion ifanc (Milflwyddwyr/Gen Y)***

Mae'r Milflwyddwyr/Gen Y yn cynrychioli oedolion a gafodd eu geni yn y 1980au cynnar/canol a'r 1990au canol. Mae'r grŵp hwn wedi cael eu magu mewn oes technolegol, oes o ymwybyddiaeth cymdeithasol ac amgylcheddol gwell ac wedi dod i arfer â newid mewn bywyd teuluol, 'rhywdweithio' cyfeillgarwch a manwerthu ar-lein. Maent hefyd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, gyda myfyrwyr yn gorffen y brifysgol gyda lefelau uchel o ddyledion oherwydd ffioedd dysgu a chostau cynyddol tai, sy'n golygu bod nifer o oedolion ifanc yn dal i fyw gyda'u rhieni yn eu 20au hwyr, ac hyd yn oed yn eu 30au cynnar[132].

Mae'r patrymau canlynol wedi cael eu nodi mewn perthynas â dylanwadau, ymddygiad a phatrymau twristiaeth allweddol yn y grŵp hwn:

- Mae'r grŵp hwn yn gyffredinol yn fwy rhydd, gyda mwy o ryddid i grwydro ac ymdroelli o le i le a theithio pan maent yn dymuno gwneud hynny.
- Maent yn fwy tebygol o gymryd risg wrth ddewis cyrchfan, ac yn fwy parod i roi cynnig ar rywle newydd. Mae nifer yn cymryd blwyddyn allan i deithio'r byd.

[131] Cwpl priod, mewn partneriaeth sifil neu'n cyd-fyw gyda neu heb blant, neu riant sengl gydag o leiaf un plentyn.
[132] https://www.theguardian.com/commentisfree/2017/apr/27/millennials-living-parents-sustainable

- Mae crwydro, darganfod diwylliannau, gweithgareddau anturus ac adloniant gyda'r nos yn anghenion allweddol ar gyfer y grŵp hwn.
- Mae gan y cyfryngau cymdeithasol mwy o ddylanwad ar ddewisiadau teithio ymysg y grŵp hwn, gyda 87% yn edrych ar y cyfryngau cymdeithasol (e.e. TripAdvisor, Twitter, Facebbok ac ati.) am ysbrydoliaeth teithio[133]. Yn ei hanfod, maent angen deialog digidol, iaith gryno a lluniau pwerus.
- Byddent hefyd yn edrych i ddylanwadu ar bobl eraill drwy adborth ar gyrchfannau (h.y. cynnwys sy'n cael ei greu gan y defnyddiwr drwy adolygiadau, lluniau, fideos a blogiau), gyda'r mwyafrif yn debygol o roi eu profiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae lefel is o gyfoeth ymysg myfyrwyr a'r rhai yn eu 20au cynnar yn golygu bod llety rhatach (h.y. hostelau, gwersylla, gwestai rhad a gwestai pod) yn cael eu ffafrio, er eu bod yn dal i chwilio am y 'cool factor'. Mae mwy o'u gwariant teithio yn debygol o ganolbwyntio ar weithgareddau, digwyddiadau a phrofiadau sy'n cynnig gwobrau uchel.
- Mae hyn yn newid yng nghyfnodau olaf yr ystod oedran hon, wrth i berthnasau adeiladu a gyrfaoedd ddatblygu, gyda chyfleoedd ar gyfer gwyliau rhamantus, ymlacio a diwylliannol. Mae eitemau gwerth uwch fel llety o safon[134] (h.y. gwestai, rhandai ac Airbnb safonol), manwerthu bwtîc, sba a phrofiadau bwyta cain yn dod bwysicach yma.

Mae astudiaeth gan Harris (2017) yn datgelu bod y genhedlaeth a aned rhwng 1980-1996 yn chwilio am brofiadau, ond maent hefyd yn treulio mwy o amser ac arian arnynt: o gyngherddau a digwyddiadau cymdeithasol i weithgareddau athletaidd, i brofiadau a digwyddiadau diwylliannol o bob math. Byddai mwy na 3 ymhob 4 o filflwyddwyr (78%) yn dewis gwario arian ar brofiadau neu ddigwyddiadau atyniadol dros brynu rhywbeth deniadol, a 55% o filflwyddwyr yn dweud eu bod yn gwario mwy ar ddigwyddiadau a phrofiadau byw nac erioed o'r blaen.

Mae patrwm diweddar o rieni sy'n filflwyddwyr yn rhoi gwerth uwch ar adloniant a hamdden gyda'u teuluoedd o'i gymharu â rhieni o genedlaethau hŷn, ac mae eu harferion gwario yn adlewyrchu hyn, gyda chenedlaethau ieuengach yn gwario mwy ar barciau gwyliau a pharciau thema, gyda theuluoedd â phlant 4-6 oed yn gwario mwy na £200 ar ymweliadau â pharciau gwyliau[135].

**Oedolion Canol Oed**

Er bod y rhai oed 35-49 - targed farchnad allweddol ar gyfer y sector ar hyn o bryd - yn debygol o leihau mewn niferoedd dros y 10 mlynedd nesaf, ar ôl y cyfnod hwn bydd y grŵp oedran yn dechrau tyfu'n raddol eto ond bydd yn dal i leihau fel cyfran o boblogaeth gyffredinol y DU. Yn aml, disgrifir y grŵp hwn fel meddylwyr annibynnol, medrus gyda thechnoleg ac yn bragmataidd[136]. Fodd bynnag, unai fel teuluoedd neu bobl heb blant, mae'r grŵp hwn yn ceisio cael cydbwysedd gwaith-bywyd gwell, ac yn ceisio dynodi mwy o amser tuag at brofiadau hamdden.

Bydd y grŵp hwn yn newid eu hymddygiad yn seiliedig ar os ydynt mewn aelwydydd teulu neu heb blant. Felly, rydym wedi penderfynu rhannu'r dadansoddiad rhwng teuluoedd gyda dibynyddion a 'theuluoedd heb blant'[137]

***Gyda theuluoedd***

- Er bod cadw diddordebau personol yn bwysig i'r grŵp hwn, mae teuluoedd yn fwy tebygol o orfod cyfaddawdu rhwng anghenion eu hunain ac anghenion y teulu ehangach.
- Mae diogelwch yn bwysig i'r unigolion sy'n gwneud penderfyniadau yn y grŵp hwn, gan olygu y byddent yn dychwelyd i lefydd cyfarwydd neu fynd i lefydd 'diogel', yn arbennig y rhai sy'n cael eu hargymell gan grwpiau teulu eraill.
- Mae cyfforddusrwydd a mynediad hygyrch i agweddau allweddol y gwyliau hefyd yn bwysig, gyda gweithgareddau sy'n addas i blant yn agwedd werthfawr o unrhyw gyrchfan. Fodd bynnag, bydd y weithgaredd sy'n addas i blant yn addas i'r oedran.

[133] https://www.travelprofessionalnews.com/the-millennial-travel-trends-of-the-largest-generation-july-2017/
[134] https://www.travelagentcentral.com/running-your-business/stats-52-millennials-prefer-hotels-not-airbnb
[135] https://www.barclayscorporate.com/content/dam/corppublic/corporate/Documents/Industry-expertise/destination-uk.pdf
[136] The MetLife Study of Gen X: The MTV Generation Moves into Mid-Life
[137] Nodwch, dylid ystyried y term yn ysgafn erbyn heddiw oherwydd oedolion ifanc/plant nad ydynt yn ddibynyddion yn byw gyda'u rhieni am hirach.

- Bydd y grŵp hwn yn chwilio am leoliadau gyda thirlun deniadol, yn ogystal â chyfleodd i gael hwyl a rhannu amser teuluol braf. Mae cyrchfannau traeth gyda digon o weithgareddau i gadw'r grŵp cyfan yn ddiddan yn debygol o wneud yn dda, neu y rhai sy'n cynnig gweithgareddau ac antur[138].
- Mae'r grŵp hwn yn awyddus i grwydro ac yn barod i wario arian i wneud y mwyaf o'r gwerth profiad cyffredinol eu harhosiad. Fodd bynnag, mae'r grŵp hwn yn debygol o archebu gweithgareddau o flaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at y gweithgareddau hyn – h.y. nid ydynt yn barod i adael pethau i siawns, ac felly yn chwilio am deithlenni.
- Mae llety ac arlwyo sy'n gyfeillgar i deuluoedd yn angenrheidiol, er bod llety gyda chegin yn dod yn gynyddol bwysig (h.y. llety hunanddarpar, rhandai â gwasanaeth ac Airbnb).
- Mae cyfforddusrwydd yn bwysicach na phris i ryw raddau wrth ystyried cyrchfan a/neu mathau o lety. Mae premiymau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau penodol (e.e. pyllau nofio, ardaloedd chwarae, clybiau plant a theithiau/gweithgareddau addas i blant) hefyd yn cael eu derbyn yn gyffredinol.
- Mae gan deidiau a neiniau rôl gynyddol o fewn y teulu, gyda phlant yn fwy tebygol o fynd ar wyliau gyda theidiau a neiniau (unai yn eu cartrefi neu wrth fynd ar eu gwyliau) ar ryw bwynt (gweler isod).
- Mae teithiau teulu rhyng-genhedlaeth yn dod yn fwy cyffredin, sy'n golygu bod mathau o lety mawr sy'n cynnig mwy o le yn bwysig.

***Pobl heb blant***

- Mae gan y grŵp hwn duedd o deithio yn unigol neu fel cwpl yn hytrach na fel teulu.
- Mae cyfran gynyddol o'r grŵp hwn yn cael eu hystyried yn 'gefnog' (yn arbennig y rhai dros 50), gyda'u lefel o incwm gwario yn cynyddu'n gyffredinol drwy ddatblygiad gyrfa a llai o ddibynyddion.
- Mae'r grŵp hwn yn edrych yn gynyddol am ddarganfod ac archwilio, diwylliant, yn aml o fewn amgylcheddau naturiol neu adeiladol o safon uchel.
- Mae Teithio Arbrofol (sy'n cynnwys profiadau teithio mwy gwreiddiol ac ysgogol) hefyd yn bwysig[139], yn aml wedi'i gymysgu â gweithgareddau (e.e. cerdded, beicio, marchogaeth, chwaraeon dŵr a lles/sba).
- Yn yr un modd, mae gwyliau yn seiliedig ar 'ddysgu' am ddiddordeb newydd (e.e. coginio, paentio, gwaith coed, ffotograffiaeth, natur, golff a chwaraeon dŵr) yn bwysig ar gyfer y grŵp hwn.
- Mae gan y grŵp hwn mwy o amser 'rhydd'. Gan eu bod yn deuluoedd yn flaenorol, am y tro cyntaf mewn amser maith, maent yn gallu teithio tu allan i wyliau ysgol pan mae llai o alw ac mae'r gost fel arfer yn is. Mae gwyliau tu allan i'r tymor, ail wyliau a gwyliau byr canol yr wythnos yn fwy cyffredin.
- Mae gwerth am arian yn parhau i fod yn bwysig, ond mae'r ffordd maent yn gweld 'gwerth am arian' wedi newid. Mae cyfforddusrwydd ac eitemau moethus yn bwysig i'r grŵp hwn, yn ogystal â'r pwysigrwydd maent yn ei roi ar olygfeydd y lleoliad.
- Mae gallu mynd o le i le yn agwedd bwysig, gyda thystiolaeth bod mwy o'r grŵp oedran yma yn mynd ar deithiau aml-gyrchfan. Mae hyn yn cynnwys mynd ar fordeithiau a theithiau o amgylch y byd, a theithiau darganfod. Fodd bynnag, dylai'r teithiau hyn fod yn opsiynau teithio cymdeithasol ac amgylcheddol gyfrifol.

***Oedolion Hŷn***

Bydd y genhedlaeth nesaf sydd wedi ymddeol yn cynnwys y cohort 'to twf', sy'n wahanol iawn i'r cenedlaethau hŷn blaenorol gan fod eu hagweddau tuag at hamdden yn fwy cefnog ac yn canolbwyntio llawer mwy ar hamdden na'r genhedlaeth flaenorol o bobl hŷn. Caiff hyn ei gofnodi gan y ffaith bod y rhai 55+ oed yn y DU yn cymryd gwyliau hirach na'r cyfartaledd, gan aros am 3.39 noson, o'i gymharu â 3.96 noson ar draws holl deithiau. O ganlyniad i hyn, mae eu gwariant cyfartalog ar daith domestig yn uwch na'r cyfartaledd (£206.93 v £196.26), sy'n cael ei hybu ymhellach gan wariant cyfartalog uchel fesul noson o £60.98, sydd ond yn cael ei guro gan gyplau priod heb blant.[140]

**Tabl 15. Teithiau Dros Nos Domestig fesul Cyfnod mewn Bywyd**

| Cyfnod mewn Bywyd | Cyfartaledd gwariant fesul taith | Cyfartaledd gwariant fesul noson | Cyfartaledd hyd taith (nosweithiau) |
|---|---|---|---|

[138] https://insights.ehotelier.com/global-news/2018/05/11/top-family-travel-trends/
[139] Peak + Shift - The Rise of Experiential Travel
[140] Great Britain Domestic Overnight Trips Summary - All Trip Purposes – 2017

| | | | |
|---|---|---|---|
| **16-34 heb briodi, dim plant** | £188.47 | £58.35 | 3.23 |
| **16-34 wedi priodi, dim plant** | £198.45 | £83.64 | 2.37 |
| **16-34 gyda phlant** | £180.78 | £58.32 | 3.10 |
| **35-54 dim plant** | £234.53 | £84.33 | 2.78 |
| **35-54 gyda phlant** | £160.92 | £55.15 | 2.92 |
| **55+** | £206.93 | £60.98 | 3.39 |

Yn draddodiadol, mae'r grŵp hwn yng nghamau olaf eu gyrfaoedd, gyda'r nodweddion canlynol:

– Mae'r grŵp hwn, unwaith iddynt ymddeol, yn rhydd yn nhermau twristiaeth, gan olygu y gallent deithio ar unrhyw adeg am gyfnod hirach nac unrhyw grŵp oedran arall, gan awgrymu bod y grŵp hwn yn darged allweddol ar gyfer y cynnig twristiaeth gydol y flwyddyn.

– Mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol nac unrhyw grŵp oedran arall i deithio dramor[141]. Fodd bynnag, gan nad ydynt dan gyfyngiadau amser, maent hefyd yn fwy tebygol o deithio nifer o weithiau mewn blwyddyn, gyda nifer yn mynd ar wyliau domestig o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn[142].

– Fel y rhai canol oed, mae archwilio, darganfod, diwylliant, hanes/treftadaeth a safon yr amgylcheddau naturiol yn anghenion allweddol ar gyfer y grŵp hwn. Mae safon y llety, bwyd a diod a manwerthu hefyd yn bwysig.

– Mae teithio a thwristiaeth ar gyfer dibenion iechyd (twristiaeth lles) hefyd yn nodwedd gref ar gyfer y grŵp hwn, er bod y canolbwynt yn tueddu i fod ar sbas moethus ac elfennau 'ysgafnach' o'r categori lles.

– Mae teithio ar eu pennau eu hunain hefyd yn fwy tebygol ymysg y grŵp hwn, gydag oddeutu 1 ymhob 5 (18%) yn teithio ar eu pennau eu hunain[143]. Yn yr un modd, mae teithio wedi'i drefnu yn ddeniadol i'r grŵp oedran hwn, fel y gwelir yn Llandudno gyda phoblogrwydd parhaus teithiau bysiau[144].

– Dyma'r grŵp lleiaf medrus â thechnoleg, gyda dros chwarter (27%)[145] yn archebu gwyliau dros y ffôn. Fodd bynnag, mae hyn yn awgrymu bod cyfran uchel yn archebu ar-lein ar hyn o bryd, drwy gyfrifiadur/llechen/ffôn symudol – ond nid yw'r gyfran hon mor uchel â grwpiau eraill.

– Mae teithio gyda theulu estynedig yn gyffredin, gyda theidiau a neiniau yn mynd â phlant ar wyliau yn gynyddol.

**Patrymau Ehangach**

**Ffactorau ffordd o fyw**

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae pwyslais cynyddol ar ffordd o fyw mwy egnïol a mwy iach, sy'n cael ei yrru gan bwysau o ran amser ac ymgyrchoedd cenedlaethol effeithiol. Mae pwysau gwaith cynyddol yn drysu'r llinellau rhwng gwaith a hamdden, gan olygu bod pobl oedran gweithio yn edrych am wyliau byr i 'ddianc', sydd wedi arwain at gynnydd mewn gwyliau sba. Mae twristiaeth iechyd hefyd yn tyfu o ganlyniad i genhedlaeth hŷn sy'n fwy ymwybodol o iechyd, ac wrth i fywydau fynd yn gynyddol dechnegol, mae cynnydd wedi bod mewn gwyliau 'detox digidol', ond disgwylir i hyn fod yn duedd tymor byr wrth i dechnoleg integreiddio'n gynyddol o fewn ein bywydau.

Yn ôl Barclays (2017)[146], datganodd 82% o ymwelwyr domestig y DU dihangfa/difyrrwch fel prif ffactor wrth ddewis gwyliau yn y DU. Mae gwyliau sy'n seiliedig ar brofiadau yn dod yn fwy poblogaidd nac erioed ac mae hyn yn wir ar gyfer teuluoedd ac unigolion. Mae pobl yn chwilio am wyliau lle gallent "gasglu" profiadau unigryw o safon uchel, megis dysgu sgiliau newydd, mwynhau cyfleusterau ymlacio neu brofi bwyd o ansawdd uchel. O ganlyniad i hyn, mae cynnyrch a chynigion i ymwelwyr a oedd unwaith yn cael eu hystyried yn arbenigol wedi dod yn boblogaidd, megis chwaraeon adrenalin megis syrffio a dringo creigiau.

Mae gofynion cynyddol o gydbwyso bywyd gwaith/teulu yn golygu bod pobl sydd ar eu gwyliau eisiau gwyliau sy'n eu galluogi i dreulio amser gyda theulu. Dywedodd 80% o ymwelwyr domestig bod treulio amser gyda theulu

[141] https://www.ft.com/content/fd666878-083c-11e8-9e12-af73e8db3c71
[142] Eurostat - Tourism trends and ageing
[143] Abta – Adroddiad Holiday Habits, 2017
[144] Peak + Shift - The Rise of Experiential Travel
[145] Abta – Adroddiad Holiday Habits, 2017
[146] https://www.barclayscorporate.com/content/dam/corppublic/corporate/Documents/Industry-expertise/destination-uk.pdf

yn ffactor fawr ar gyfer mynd ar wyliau. Mae'r farchnad hon yn fawr ac yn cynnig ystod o lety a gweithgareddau i ddenu'r demograffeg hwn.

**Twristiaeth yn seiliedig ar weithgareddau**

Yn gysylltiedig â'r ffactorau ffordd o fyw uchod, mae ymateb i fywyd mwy sefydlog wedi arwain at gynnydd mewn twristiaeth yn seiliedig ar weithgareddau. Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016, roedd traean (32%) o ymwelwyr domestig a oedd yn aros dros nos, chwarter (25%) o ymwelwyr domestig dydd, a phumed (21%) o ymwelwyr tramor i Gymru wedi dod er mwyn cyflawni gweithgaredd penodol neu awyr agored yn ystod eu arhosiad.

Cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd, ond mae beicio/beicio mynydd, nofion, marchogaeth, golff, canŵio a physgota hefyd yn nodweddion cryf. Mae Cymru yn cael ei ystyried yn gyrchfan ar gyfer y rhai sy'n chwilio am weithgareddau awyr agored, gydag ymwelwyr yn ystyried hyn yn ased mwy dynodedig ar gyfer Cymru na'r golygfeydd/cefn gwlad. Mae gweithgareddau newydd yn cael eu cyflwyno'n gynyddol i'r farchnad, a fydd ag apêl gryf a/neu unigryw ar gyfer y cyrchfannau hynny – e.e. weiren wib, beicio eithafol, siglen awyr[147], triathlons, digwyddiadau iron man a marathon ultra.

**Tueddiadau Technolegol**

Mae dewis cyrchfan i dwristiaid heddiw yn aml yn cael ei ysbrydoli a'i ddylanwadu gan ystod o wahanol sianeli; canllawiau teithio traddodiadol, safleoedd ac apiau adolygu, diwylliant pop, dylanwadwyr cymdeithasol, yn ogystal â theulu a ffrindiau. I nifer, yn arbennig yr ifanc – mae'r rhyngrwyd wedi dod yn gyswllt cyntaf wrth ddewis cyrchfan. Erbyn hyn mae gan gwsmeriaid gyfoeth o wybodaeth ar flaenau eu bysedd, gan eu galluogi i gymharu cyrchfannau yn seiliedig ar atyniadau hamdden, gweithgareddau, gwestai a dewisiadau bwyd a diod.

Mae'r cyfoeth o wybodaeth hefyd yn galluogi teithwyr i gynllunio eu teithiau mewn ffordd fwy cost-effeithiol. O ganlyniad i hyn, mae darparwyr a'r maes marchnata yn dibynnu'n gynyddol ar y rhyngrwyd fel sianel marchnata, tra bo technoleg a'r cyfryngau hefyd yn cael eu defnyddio'n gynyddol i gael gwybodaeth ar brofiadau ymwelwyr a sgôr mae cwsmeriaid yn eu defnyddio er mwyn helpu i wneud penderfyniad – er enghraifft drwy TripAdvisor a fforymau eraill.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn hybu newid arall o ran agwedd cwsmeriaid tuag at hamdden. Mae'n hawdd i bobl rannu eu gweithgareddau hamdden – gyda phobl maent yn eu hadnabod a gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod – ac mae hyn yn cynyddu ein cysylltiad â phrofiadau gwahanol. Bydd hyn cynyddu'r 'ofn o golli allan' a bydd cwsmeriaid eisiau rhoi cynnig ar y profiadau newydd ac ni fyddent eisiau i'w cyfoedion gael mwy o hwyl na nhw. Ar y cyfan, mae hyn yn duedd cadarnhaol ar gyfer twristiaeth, gan gynyddu dyheadau cwsmeriaid ar gyfer gweithgareddau gwahanol ac ehangu portffolios hamdden yn gyffredinol.

**Brexit[148]**

Mae effaith Brexit ar y sector twristiaeth yn ansicr ar hyn o bryd, gyda thrafodaethau'n mynd rhagddynt mewn perthynas â pha delerau y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Ar un llaw, ers cyhoeddi Brexit mae'r bunt wedi colli ei werth, gan wneud teithiau rhyngwladol yn ddrytach a theithiau i'r DU yn rhatach, felly yn cynyddu'r posibilrwydd am wyliau domestig (gwyliau gartref) a mwy o ymweliadau o dramor yn y tymor byr. Mae dau draean o ymwelwyr rhyngwladol yn fwy awyddus i ddod i'r DU ar wyliau gyda gwendid y bunt (ac felly grym gwario uwch) yn un o'r prif ffactorau[149].

Fodd bynnag, mae Brexit wedi cynyddu'r ansicrwydd o ran polisi a chyllid i gefnogi'r sector twristiaeth, a oedd yn destun gorchmynion yr UE ac yn elwa o arian yr UE. Yn ogystal â hynny, yr UE yw'r brif farchnad ar gyfer ymwelwyr i'r DU, gyda phreswylwyr yr UE yn gwario £6.4 biliwn y flwyddyn[150] yn y DU ar hyn o bryd. Gall Brexit leihau'r niferoedd o ymwelwyr yr UE ac effeithio ar agweddau tuag at y DU o ran bod yn agored i ymwelwyr rhyngwladol. Gall hyn effeithio ar niferoedd yr ymwelwyr rhyngwladol. Gall anallu posib y cyrchfannau i ddefnyddio marchnad lafur Ewropeaidd, sydd wedi cefnogi'r diwydiant hamdden a thwristiaeth ar draws y DU, hefyd niweidio'r diwydiant a chynyddu costau i fusnesau. Mae gweithwyr yr UE yn y sector lletygarwch yn cyfrif am oddeutu 15% o'r gweithlu o 4.5 miliwn neu oddeutu 700,000 o bobl.

Er bod Brexit yn fygythiad i'r diwydiant, mae cyfleoedd hefyd yn codi. Mae'r DU ar hyn o bryd yn y 137 safle allan o 141 o wledydd o ran ffioedd tocynnau a threthi meysydd awyrennau. Ar ôl gadael yr UE, mae gan y DU y

[147] E.e. yn hongian o harness ac yn hedfan drwy'r jyngl ar gyflymder o hyd at 100kph ar y Cairns Minjin Jungle Swing, yr unig siglen i nifer o bobl yn Awstralia
[148] https://www.wta.org.uk/post-brexit-manifesto.html
[149] https://www.walesonline.co.uk/business/business-opinion/how-tourism-can-shining-star-12991526
[150] https://www.abta.co.uk/assets/abta%20Brexit%20Report%202017.pdf

posibilrwydd o leihau'r costau hyn, gan leihau ffioedd ar deithwyr. Mae gadael yr UE yn golygu y gall y DU ddiddymu trethiant dwbl ar hediadau domestig a gwella cysylltedd mewnol a lleihau costau[151].


**Patrymau Economaidd**

Er bod y DU wedi dechrau tyfu yn dilyn argyfwng ariannol byd-eang yn 2008, mae'r sgil effeithiau yn dal i fodoli o ran polisi cyllidol, gyda gwariant cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfyngedig o'i gymharu â lefelau cyn y dirwasgiad. Mae'r DU wedi gweld y farchnad lafur yn perfformio tu hwnt i'r disgwyliadau, gyda diweithdra yn isel. Fodd bynnag, mae pryderon o ran tlodi mewn gwaith, oherwydd contractau dim oriau ac arferion gweithio negyddol eraill, a thangyflogaeth o fewn y farchnad lafur.

Yn ogystal â hynny, mae amodau strwythurol yn effeithio ar ddemograffeg wahanol o fewn economi'r DU, gyda chenhedlaeth y milflwyddwyr y cyntaf i fod mewn sefyllfa waeth na'u rhieni. Mae'r genhedlaeth hon hefyd wedi cael ei tharo gan brisiau tai uchel sydd wedi cyfyngu ar eu hincwm gwario a'u gallu i gyrraedd yr ysgol dai, lle mae'r cenedlaethau cynt wedi elwa o brisiau tai yn codi sydd wedi cynyddu eu cyfoeth[152].

Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod pobl o Brydain sy'n mynd ar eu gwyliau â chyllidebau mwy ar gyfer teithiau domestig, gyda chyfartaledd gwariant bob taith gan dwristiaid domestig yn £196.26 yn 2017 o'i gymharu â £171.09 yn 2010[153]. Yn ogystal â hyn, mae 30% o ymwelwyr yn bwriadu gwario mwy ar weithgareddau hamdden nac yn y blynyddoedd blaenorol[154]. Mae safon a gwerth cynyddol cyrchfannau y DU wedi golygu bod ymwelwyr domestig yn aros, tra bo rhai twristiaid yn dewis gwyliau yn y DU yn ogystal â'u gwyliau tramor. Gyda niferoedd o dwristiaid domestig yn cynyddu, yn ogystal â chyllidebau cynyddol, mae hyn yn profi i fod yn gyfle ar gyfer y diwydiant, os fydd hyn yn cael ei gynnal.

**Ffigwr 26. Twristiaeth Domestig – Gwariant Cyfartalog bob taith fesul categori oedran[155]**




[151] https://www.abta.co.uk/assets/abta%20Brexit%20Report%202017.pdf
[152] Mae'r rhai a aned yn y 1950au wedi derbyn cyfartaledd arian am eiddo o £80,000, yn ogystal â £45,000 o gynlluniau pensiwn hael.
[153] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr Visit Britain
[154] https://www.home.barclays/content/dam/barclayspublic/docs/BarclaysNews/2017/Apr/Tourism%20Report%202017%20digital%2026.04.17.pdf
[155] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr